Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>12 GORFFENNAF 2021<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>12 JULY 2021<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW** | | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2021.

4 **PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2021.

5 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 17 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6 **CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2020/21 A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU** (Tudalennau 29 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/21** (Tudalennau 53 - 102)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

8 **NEWID I'R CYFANSODDIAD: HAWLIAU DIRPRWYOL - DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL A BUDDION CYMUNEDOL ANSTATUDOL** (Tudalennau 103 - 112)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

9 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 113 - 114)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r

cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir yn Atodlen 12A o’r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig.”

**10** **TRAWSNEWID SIANELI DIGIDOL CSYM** (Tudalennau 115 - 120)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Datblygu Economaidd (THJ) (ar gyfer eitem 11)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Uwch Swyddog Trafnidiaeth (IC) (ar gyfer eitem 9)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr R. Meirion Jones ac Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Bryan Owen, Dafydd Roberts. |

---

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Nu fu i unrhyw un ddatgan diddordeb.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion i'w hadrodd.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2021 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2021 fel rhai cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf, 2021 a Chwefror, 2022 i'w ystyried a nodwyd y newidiadau canlynol -

- Eitem tri (3) – Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 12 Gorffennaf 2021.
- Eitem 4 – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 12 Gorffennaf 2021.
- Eitem 5 – Newidiadau i'r Cyfansoddiad: Pwerau Dirprwyedig – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Manteision Cymunedol anstatudol – eitem a aildrefnwyd o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 21 Mehefin 2021 i'w gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2021.
- Eitem 11 – Adolygiad Ariannol Tymor Canolig – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi 2021.
- Eitem 12 – Ymgynghoriad ar lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi 2021.
- Eitem 21 – Sail y Dreth Gyngor 2022/23 – eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd 2021.
- Eitemau 25 i 27 – eitemau'n gysylltiedig â Monitro'r Gyllideb – eitemau newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2022.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod o fis Gorffennaf, 2021 i fis Chwefror, 2022, fel y'i cyflwynwyd.**

## 5. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 2020/21 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol yr adroddiad sy'n portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd i flwyddyn nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen, wrth reoli'r pandemig Covid-19, a pharhau i gyflawni ei rwymedigaethau o ran dyletswyddau. Yn ystod Chwarter 4 parhaodd Cymru i fod dan gyfyngiadau symud cenedlaethol a gwelodd Ynys Môn ei nifer uchaf o achosion cadarnhaol o Covid 19 yn ogystal ag ymlediad ar Ynys Cybi a gafodd ei reoli'n gyflym ac yn llwyddiannus. Er gwaethaf yr effaith y mae pandemig Covid 19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig wedi'i chael ac yn parhau i'w chael ar wasanaethau'r Cyngor, mae 87% o'r DP Iechyd Corfforaethol yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau. Mae'r perfformiad o ran rheoli absenoldeb staff wedi rhagori ar y targed ac mae'n un o'r ychydig feysydd lle mae effaith Covid-9 wedi arwain at welliannau. Er bod yr holl ddangosyddion o dan yr is-bennawd gwasanaethau digidol wedi gweld perfformiadau sydd wedi rhagori ar ganlyniadau blynyddol blaenorol yn ystod y pandemig roedd nifer y taliadau ar-lein a wnaed ar gyfer y tâl newydd am gasglu gwastraff gwyrdd yn siomedig ac yn ei dro arweiniodd at bwysau sylweddol ar system ffôn y Cyngor yn ystod cyfnodau ym mis Mawrth, 2021. Byddwn yn dysgu gwersi yn sgil y profiad. Bydd Cyswllt Môn, derbynfa'r Cyngor, yn ailagor i'r cyhoedd ar sail apwyntiad yn unig o 28 Mehefin 2021. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gadarn ar ôl dod â'r flwyddyn i ben gyda sefyllfa o danwariant, yn bennaf oherwydd y cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i dalu am gostau'n gysylltiedig â pandemig ac incwm a gollwyd.

Gorffennodd yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol ei gyflwyniad i'r adroddiad drwy dalu teyrnged i holl staff y Cyngor sydd, yn ogystal â helpu'r Cyngor i ymateb i'r pandemig, wedi cynnal lefelau perfformiad ym musnes y Cyngor o ddydd i ddydd wrth orfod addasu'n gyflym



DRAFT

i amgylchedd gwaith sydd wedi newid mewn blwyddyn eithriadol o heriol. Cynigiodd y dylid cofnodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor Gwaith yn ffurfiol.
Cytunodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod 2020/21 wedi bod yn flwyddyn anodd ond bod staff wedi ymateb i'r heriau a ddaeth yn ei sgil; bydd y Cyngor yn defnyddio ei brofiadau o ddelio â'r pandemig a'r heriau y mae wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn i symud ymlaen i'r normal newydd.

Adroddodd Rheolwr Sgriwtini ar brif bwyntiau trafod cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 7 Mehefin 2021 a fu'n craffu ar adroddiad cerdyn sgorio Chwarter 4 2020/21. Cydnabu'r Pwyllgor Sgriwtini fod y Cyngor wedi perfformio'n dda o dan yr amgylchiadau a bod hynny i'w briodoli i ymdrechion staff ac arweiniad ac arweinyddiaeth Uwch Reolwyr; nododd y Pwyllgor, lle'r oedd perfformiad wedi bod yn is na'r targed, mai'r rheswm am hyn yn bennaf oedd effaith Covid 19 a bod mesurau lliniaru ar waith i sicrhau gwelliant. Trafodwyd y system gyfathrebu â'r Cyngor, yn benodol capasiti'r system ffôn yn ogystal â hwyluso mynediad cyhoeddus i'r canolfannau ailgylchu gyda chadarnhad y byddai ymweliadau heb eu harchebu ymlaen llaw yn cael eu treialu yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ym Mhenhesgyn. Nodwyd perfformiad ariannol y Cyngor ac er i'r tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ar y gyllideb refeniw gael ei groesawu, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol y gallai cyllideb y Cyngor ddod o dan bwysau yn y dyfodol os bydd y galw am wasanaethau'n cynyddu o ganlyniad i'r pandemig ac os bydd setliadau ariannol yn is na'r disgwyl.

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith eu diolch a'u gwerthfawrogiad i staff o fewn eu meysydd portffolio penodol a ledled y Cyngor cyfan gan gydnabod na fyddai'r Cyngor wedi gallu delio â'r pandemig a chynnal perfformiad gwasanaethau'r Cyngor heb eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4, 2020/21, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad.**
- **Cofnodi diolchiadau a gwerthfawrogiad y Pwyllgor Gwaith o ymdrechion a gwaith caled holl weithlu'r Cyngor dros y flwyddyn 2020/21 wrth gynnal perfformiad tra'n ymateb i bandemig Covid 19.**

## 6. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 4 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 oedd yn nodi perfformiad ariannol y Cyngor hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2020/21, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yn danwariant o £4.204m oherwydd effaith pandemig Covid 19 ar ddarparu gwasanaethau arferol a'r cymorth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i helpu cynghorau i ddelio â'r pandemig. Mae'r canlyniad hwn yn cyd-fynd yn bennaf â sefyllfa cynghorau eraill Gogledd Cymru sydd, am yr un rhesymau, yn bennaf oherwydd cyllid hwyr gan Lywodraeth Cymru, wedi nodi tanwariant ar ddiwedd Chwarter 4. Mae'r tanwariant yn golygu bod balansau cyffredinol y Cyngor yn £11.6m ac er bod hon yn sefyllfa iach iawn i fod ynddi, byddai'n annoeth ei defnyddio fel cyfle i wario fel y mynnwn; bydd y broses adolygu gwasanaethau yn dechrau cyn bo hir a bydd gofynion a dyheadau pob gwasanaeth yn cael eu hystyried yn ogystal â'r opsiynau ariannol. Mae'r rhagolygon o ran pa mor hir y bydd pandemig y Coronafeirws yn para a beth fydd ei effaith



DRAFT

ar gyllidebau'r Cyngor yn parhau i fod yn ansicr yn ogystal â pharhad a lefel cymorth ariannol Llywodraeth Cymru, felly mae angen cadw digon o arian wrth gefn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 nad yw blwyddyn ariannol 2020/21 wedi bod yn flwyddyn arferol gan fod Covid 19 wedi cael effaith sylweddol ar gyllid y Cyngor. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru - £6m i dalu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Covid a £2.6m ar gyfer colli incwm – i'w groesawu'n fawr, heb y cymorth hwn byddai sefyllfa ariannol y Cyngor wedi bod yn llawer gwaeth - tua £4m o orwariant. Balansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yw £11.6m sy'n cyfateb i 8% o'i wariant refeniw net sy'n fwy na'r lefel isaf o 5% wrth gefn y cytunwyd arni gan y Cyngor. Bydd sut y gellir defnyddio'r balansau yn destun trafodaeth ond rhaid cofio bod ansicrwydd o hyd ynghylch effaith Covid 19 ar gyllidebau eleni yn ogystal â lefel y galw ar wasanaethau wrth i gyfyngiadau gael eu codi a allai arwain at wasanaethau'n gorwario a byddai'n rhaid talu am y gorwariant wedyn o'r balansau cyffredinol.

Gan gyfeirio at y gostyngiad yn incwm y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 tynnodd y Swyddog Adran 151 sylw at drosglwyddo eiddo domestig i eiddo hunanarlwyo ar y gofrestr Ardrethi Busnes fel ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol - newidiodd tua 200 o eiddo o'r fath o Dreth Gyngor ddomestig i ardrethi busnes yn ystod y flwyddyn. Gellir ôl-ddyddio'r trosglwyddiadau hyn nifer o flynyddoedd sy'n golygu bod y Cyngor nid yn unig yn colli Treth Gyngor y flwyddyn gyfredol ond rhaid iddo ad-dalu unrhyw daliadau yn ôl i'r dyddiad trosglwyddo perthnasol sy'n arwain at golli incwm sylweddol yn ystod y flwyddyn. Ar wahân i hynny, mae dyled Treth y Cyngor wedi codi o tua £2.3m i £4m; Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i dalu am y golled hon mewn incwm ac mae hyn yn cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi i'w defnyddio yn ôl yr angen.

Mae cyfrifon drafft y Cyngor ar gyfer 2020/21 bellach wedi'u cyhoeddi ac maent yn destun archwiliad. Gallai canlyniad y broses archwilio arwain at wneud newidiadau i'r cyfrifon a allai yn eu tro arwain at addasu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid fod y Panel, wrth graffu ar adroddiad cyllideb refeniw Chwarter 4, wedi mynegi pryder ynghylch erydu'r sylfaen drethi wrth i fwy o eiddo domestig newid o Dreth y Cyngor i Ardrethi Busnes. Bydd y Panel yn edrych maes o law ar yr ymateb i'r ymgynghoriad arfaethedig ar gynyddu premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag.

Croesawodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith warged y gyllideb a'r hwb i falans cronfa gyffredinol y Cyngor ac roeddent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i gynghorau drwy gydol cyfnod y pandemig. Roeddent hefyd yn cydnabod yr angen i fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r balansau oherwydd yr ansicrwydd o ran y galw am wasanaethau yn y dyfodol a lefelau ariannu yn y dyfodol. Er ei fod yn cydnabod bod defnyddio'r balansau i ariannu cyfleusterau/darpariaeth/eitemau newydd yn ddewis sy'n apelio, tynnodd y Pwyllgor Gwaith sylw at y ffaith bod y Cyngor yn wynebu nifer o ymrwymiadau buddsoddi o ran ei asedau presennol a bod dulliau eraill o ariannu gwariant cyfalaf ar gael ac y dylid eu harchwilio hefyd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ymhellach fod cadw lefel iach o falansau yn bwysig o ystyried bod llawer o ansicrwydd yn y dyfodol, yn enwedig effaith barhaus Covid 19 ar ffrydiau incwm y Cyngor wrth i ganolfannau hamdden barhau i weithredu islaw capasiti a llai o bobl yng nghanol trefi wrth iddynt barhau i weithio a siopa o'r cartref sy'n arwain at lai o incwm parcio. Nid yw cymorth Llywodraeth Cymru yn ddiderfyn ac ni fydd yn parhau am byth a bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried effaith hirdymor y pandemig ar rai o'i gyllidebau a chynllunio'n unol â hynny. Bydd cael lefel dda o gronfeydd wrth gefn i syrthio'n ôl arnynt yn caniatáu i'r Cyngor wneud yr addasiadau hynny a bydd yn lliniaru unrhyw orwario pe bai hynny'n angenrheidiol. Hefyd, mae ansicrwydd ychwanegol

ynghylch setliad ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol y flwyddyn nesaf a thu hwnt ac nid oes unrhyw arwydd o'i gynlluniau ariannol ar gyfer llywodraeth leol yn y blynyddoedd i ddod a fyddai'n helpu gydag unrhyw benderfyniadau y gallai'r Cyngor eu gwneud o ran rhyddhau balansau.

Yng ngoleuni'r drafodaeth a'r angen am sicrwydd tymor hir ynghylch arian gan Lywodraeth Cymru, cynigiodd y Cadeirydd ac fe'i cefnogwyd, y dylid anfon llythyr ar ran y Pwyllgor Gwaith at Weinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru i ofyn am arweiniad ynghylch cynlluniau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol am y tair blynedd nesaf fel bod cynghorau'n gallu cynllunio'n strategol yn well.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a ddisgrifir yn Atodiadau A a B yr adroddiad o ran perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir ar gyfer 2020/21.**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**
- **Nodi sefyllfa'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 yn Atodiad D yr adroddiad**
- **Nodi monitro costau asiantaethau ac ymgynghori ar gyfer 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F yr adroddiad.**
- **Bod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor Gwaith at Weinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru i ofyn am arweiniad ynghylch cynlluniau ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol am y 3 blynedd nesaf er mwyn cynorthwyo cynghorau i gynllunio'n fwy strategol am y tymor canol.**

## 7. ALLDRO CYFALAF 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, yn amodol ar archwiliad i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Fel gyda blynyddoedd blaenorol, dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, fod tanwariant yn y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21, ac nad yw'n anarferol pan fo prosiectau cymhleth mawr yn rhan ohoni. Fodd bynnag, mae lefel y tanwariant yn 2020/21 yn sylweddol (43% o'r arian sydd ar gael) ac mae i'w briodoli i effeithiau pandemig Covid 19 a'r cyfyngiadau symud cenedlaethol a gyflwynwyd ar ddechrau blwyddyn ariannol 2020/21 a arweiniodd at ohirio gwaith a chynlluniau cyfalaf. Ym mhob achos, sicrhawyd y cyllid ar gyfer prosiectau a chaiff ei gario ymlaen i 2021/22 heb golli adnoddau i'r Cyngor.

Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ar y rhesymau dros y tanwariant gan gyfeirio at gynlluniau unigol fel y crynhoir yn y tabl ym mharagraff 2.2 o'r adroddiad sy'n dangos lefel y tanwariant ar bob cynllun a sylwadau ar eu statws. Mae pandemig y Coronafeirws wedi effeithio ar gynnydd, yn enwedig o ran datblygu tai lle mae gofynion cadw pellter cymdeithasol a rheoliadau eraill yn gysylltiedig â Covid wedi amharu ar waith adeiladu a gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd. Er y cyflawnwyd elfen o ddal i fyny yn chwarter olaf 2020/21, nid oedd yn ddigon i wneud iawn am y tri mis a gollwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae oedi wrth gwblhau cynigion ar gyfer moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni hefyd wedi cyfrannu at y tanwariant, hefyd yr oedi wrth ddarparu cerbydau gwastraff newydd sydd wedi golygu na phrynwyd y cerbydau fflyd i gyd cyn diwedd y flwyddyn. Mae llawer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael eu hariannu gan grantiau ac er gwaethaf y diffyg cynnydd ar rai o'r cynlluniau ni chollwyd unrhyw arian grant ond yn hytrach bydd yn parhau i 2021/22. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod yn cael ei chyflwyno maes o law i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi

hynny i'r Pwyllgor Gwaith a bydd yn adlewyrchu effaith tanwariant y gyllideb gyfalaf ar reolaeth y Cyngor o'i weithgarwch arian parod a benthyca.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, fod y Panel, wrth graffu ar adroddiad alldro'r gyllideb gyfalaf, wedi gofyn, er mwyn hwyluso gwariant cyfalaf, a fyddai'n bosibl cyflwyno amserlen pennu'r gyllideb gyfalaf yn gynt, yn enwedig gan fod llawer o gynnwys y rhaglen gyfalaf yn hysbys ymlaen llaw; byddai dechrau'n gynharach yn caniatáu i dendrau gael eu cytuno'n gynt ac i'r gwaith fynd rhagddo ar adeg wahanol fwy ffafriol o'r flwyddyn a thrwy hynny wella'r tebygolrwydd y bydd prosiectau'n cadw at yr amserlen.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi sefyllfa alldro ddrafft Rhaglen Gyfalaf 2020/21 sy'n destun archwiliad, a**
- **Chymeradwyo cario ymlaen £11.898m i 2021/22 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriant. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei gario ymlaen i 2021/22 fel ym mharagraff 4.3 o Atodiad A yr adroddiad ac yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 o £48.065m.**

### 8. MONITRO'R GYLLIDEB CRT - ALLDRO 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 oedd yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2020 a 31 Mawrth, 2021 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid fod yr alldro ariannol refeniw yn dangos tanwariant o £557k a bod gwariant cyfalaf £6.410m yn is na'r gyllideb wreiddiol gan fod y pandemig, fel yr adroddwyd yn flaenorol, wedi effeithio'n ddifrifol ar gynnydd prosiectau cyfalaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod yr alldro cyffredinol ar gyfer incwm £153k yn well na'r gyllideb yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg. Roedd tanwariant o £138k yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai o ganlyniad uniongyrchol i sefyllfa Covid 19 gan mai dim ond atgyweiriadau hanfodol oedd yn cael eu gwneud; roedd gwariant cynnal a chadw ar wahân i waith trwsio £152k yn uwch na'r gyllideb o ganlyniad i'r eitemau a nodir ym mharagraff 6 o'r adroddiad. Rhoddodd y gyllideb refeniw warged o £8.39m sy'n uwch na'r gwarged arfaethedig o £7.8m pan gytunwyd ar y gyllideb. Roedd gwariant cyfalaf wedi gostwng tua £7.6m; mae'r gwariant is wedi caniatáu i £1.145m gael ei ychwanegu at gronfa'r CRT gan godi'r cyfanswm i £9.742m. Mae'r balans hwn wedi'i neilltuo felly mae ar gael i ariannu gwariant CRT yn y dyfodol gan gynnwys datblygiadau tai cyngor newydd yn y presennol a'r dyfodol. Felly, mae'r CRT mewn sefyllfa gadarn ac mae cronfa'r CRT yn rhoi cyfle i ychwanegu at y stoc dai; unwaith y bydd y gronfa wrth gefn wedi'i gostwng i lefel y cyllid y mae angen i'r Cyngor ei gynnal, gall y Cyngor wedyn arfer ei hawl i fenthyca yn erbyn y CRT i barhau â'i gynlluniau adeiladu tai.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Mummery, Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau ei fod yn falch o weld bod y ffigur ar gyfer ôl-ddyledion rhent yn mynd i'r cyfeiriad cywir er gwaethaf y pandemig, a'i fod yn edrych ymlaen at barhau i ddatblygu tai newydd i'r dyfodol gan ddefnyddio dulliau arloesol i gynorthwyo'r rhai mewn angen a'r rhai sy'n prynu tai am y tro cyntaf.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, er nad oedd y Panel wedi craffu'n ffurfiol ar gyllideb y CRT, ei fod wedi trafod cyfraddau casglu a'r goblygiadau i'r gyllideb refeniw.

DRAFT

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2021.**

## 9. RHEOLIADAU HYGYRCHEDD CERBYDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2000

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) a Chyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ynghylch effaith Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000 (PSVAR) ar werthu seddi gwag ar gludiant ysgol a choleg i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried. Mae'r adroddiad yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu mynd i'r afael ag effaith y rheoliadau ar ei ddarpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Dywedodd y Cynghorydd R.G.Parry, OBE, FRAgs, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod PSVAR, o 1 Ionawr 2020, yn berthnasol i bob bws gyda dros 22 sedd ac yn ei gwneud yn ofynnol i gerbydau fod yn hygyrch i bobl anabl. Cynigiodd yr Adran Drafnidiaeth dystysgrif eithrio i eithrio cerbydau o'r rheoliadau hynny tan 1 Ionawr, 2022; mae gan yr Awdurdod dystysgrif eithrio ar gyfer ei fysiau ysgol sy'n gwerthu dros 20% o'r seddi sydd ar gael tan ddiwedd mis Gorffennaf a thystysgrif eithrio tan ddiwedd 2021 ar gyfer y gweddill. Ar gyfartaledd amcangyfrifir bod yr incwm a gynhyrchir drwy docynnau bws tua £66,000 y flwyddyn (yn seiliedig ar y blynyddoedd rhwng 2014/15 a 2019/20). Mae ymholiadau a wnaed gyda rhai o'r gweithredwyr bysiau ysgol ar Ynys Môn yn dangos y byddai'n costio rhwng £5,000 a £7,000 y flwyddyn fesul contract i fodloni'r rheoliadau; byddai'n rhaid trosglwyddo'r gost hon i'r Awdurdod ar gyfer pob contract a ddyfynnir. Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, byddai tendro'r 54 contract presennol ar Ynys Môn yn creu cost flynyddol ychwanegol o rhwng £270,000 a £378,000. Fodd bynnag, byddai peidio â chodi ffi yn golygu y gellir ymestyn y trefniadau presennol gyda gweithredwyr bysiau tan fis Hydref 2022 pan fyddai angen ail-dendro beth bynnag oherwydd hyd y contractau presennol. Gan na fyddai taliad yn newid dwylo, ni fyddai'r rheoliadau'n berthnasol.

Tynnodd yr Aelod Portffolio sylw at y ffaith y gallai peidio â chodi ffi olygu y byddai myfyrwyr ychwanegol o bosibl yn dymuno defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o nifer y seddi ar fysiau a nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd ar Ynys Môn. Mae'r Awdurdod yn bwriadu rheoleiddio'r sefyllfa drwy sicrhau bod pob disgybl cymwys yn cael tocyn bws y byddai'n gorfod ei ddangos er mwyn teithio. I'r perwyl hwn mae'r Awdurdod yn ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno system tocynnau bws.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) mai'r meddylfryd i ddechrau ledled Cymru a Lloegr oedd na fyddai contractau bysiau ysgol caeedig yn dod o fewn cwmpas y PSVAR ond yn ystod haf 2019 cadarnhaodd yr Adran Drafnidiaeth y byddai'r rheoliadau'n gymwys i unrhyw wasanaeth lle telir am deithio, boed hynny'n uniongyrchol i'r gyrrwr neu drwy'r Awdurdod Lleol – mae gan yr Awdurdod dystysgrif eithrio tan fis Ionawr, 2022. Ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig, mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn darparu cludiant mewn tacsi o gartref y disgybl i fuarth y sefydliad addysgol y mae'r disgybl yn ei fynychu rhag effeithio ar ei allu i gael mynediad at addysg. Bydd y cynnig yn weithredol am flwyddyn ac ar ôl hynny caiff ei adolygu; rhagwelir y bydd sefyllfa drafnidiaeth wedi sefydlogi erbyn hynny, bydd prisiau'n fwy cystadleuol a bydd y farchnad mewn gwell sefyllfa i wneud y ddarpariaeth briodol.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr opsiynau wedi cael eu hystyried gan is-grŵp ac ystyrid mai'r trefniant arfaethedig oedd yr opswn gorau o dan yr amgylchiadau. Byddai cyflwyno system tocynnau bws yn sicrhau manteision o ran caniatáu i'r Awdurdod wybod yn union pa ddisgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth o safbwynt iechyd a diogelwch.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, ar ôl pwyso a mesur yr opsiynau o safbwynt ariannol, mai'r cynnig fel y'i cyflwynwyd yw'r ffordd fwyaf ymarferol o ymdrin ag effaith y rheoliadau ar gludiant o'r cartref i'r ysgol tan fis Hydref 2022.

**Penderfynwyd –**

- **Nad yw'r Awdurdod yn codi ffi teithio ar ddisgyblion anstatudol a myfyrwyr Addysg Bellach Môn am y flwyddyn academaidd 2021/22.**
- **Fod yr Awdurdod yn cyfyngu'r hawl dim ond i'r pellter statudol ar gyfer 2021/22.**
- **Fod y Cyngor yn buddsoddi mewn system electroneg er mwyn rheoli pa ddysgwyr sydd yn gymwys ar gyfer teithio ar fws ysgol fel yn rhan FF yr adroddiad; mae'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno i ariannu'r cerdiau mewn egwyddor ac yna i gynllun gael ei ddatblygu yn ystod blwyddyn ysgol 2021/22.**

## 10. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd.**

## 11. CYNLLUN ADFYWIO (HEN SAFLE YSGOL A LLYFRGELL, CAERGYBI)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd oedd yn nodi'r sefyllfa a'r cynnydd presennol o ran ail-ddatblygu hen safle'r ysgol a'r llyfrgell, Caergybi i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor Gwaith fod hen safle Ysgol y Parc a'r Llyfrgell yn ymestyn i 4.1 erw ar gyrion Canol Tref Caergybi. Cwblhawyd y gwaith o ddymchwel hen adeiladau'r ysgol a'r llyfrgell yn haf 2020, mae'r safle bellach yn adfeiliedig a ffensys o'i gwmpas i'w ddiogelu. Ar ôl sicrhau cyllid Buddsoddi mewn Adfywio a Dargedir gan Lywodraeth Cymru, comisiynwyd ymgynghorwyr allanol gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i baratoi uwchgynllun cychwynnol ar gyfer y safle er mwyn nodi opsiynau posibl ar gyfer ei ailddatblygu'n llawn gan ganolbwyntio ar greu swyddi, cyfleoedd, mewnfuddsoddi ac adfywio safle pwysig yng nghanol trefi. Mae'r broses hon wedi'i gohirio gan bandemig Covid 19; felly mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed hyd yma ac yn nodi'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â datblygu'r gweithgareddau datblygu ychwanegol pellach a nodwyd yn yr adroddiad.

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried yr adroddiad ac wedi cytuno â'r argymhellion ar gyfer symud ymlaen.

**Penderfynwyd bwrw ymlaen yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

**Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2021**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau)<br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)<br>Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)<br>Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)<br>Liz Fletcher (Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol y Gorllewin – Plant, BIPBC)<br>Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Rhys H Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)<br>Ned Michael (Pennaeth Gwasanaethau Tai)<br>Huw Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol),<br>Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr Lles Addysg)<br>Saul Ainsworth (Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu)<br>Llinos Edwards (Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal)<br>Mairwen Hughes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br>Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg Plant Sy'n Derbyn Gofal)<br>Dawn Owen a Nia Hardaker (Swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol)<br>Keith Walters (Rheolwr Tîm Lleoli Plant) |

---

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 3 MATERION YN CODI

- **Cynlluniau Llwybr (Pathway Plans)**

Cafwyd gwybodaeth gan y Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol am y cynnydd o ran ansawdd y Cynlluniau Llwybr gan gynnwys y ddarpariaeth a'r cynnwys y Cynlluniau. Nodwyd y canlynol yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar 16 Mawrth 2021: '*Cynlluniau Llwybr Ôl-16 oed: teimla'r Swyddogion Adolygu Annibynnol fod angen gwella'r ymarfer yn y maes yma, gan gyd-gynhyrchu*

*efo'r person ifanc, a chynnwys gwybodaeth ynghylch cryfderau, sgiliau i'w hyrwyddo, cyfleoedd, cynlluniau wrth gefn, tasgau gweithredu ac amserlen.'*

Cyfeiriodd y Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol at y gofyniad sydd wedi ei nodi yn Rhan 6 yng Nghod Ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nodir y canlynol ym Mharagraff 53 a 54 yn y Ddeddf:-

*'Paragraff 53 - Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal ar fin troi'n 16 oed, mae'n* ***rhaid*** *i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr i gynorthwyo'r person ifanc i bontio i fyd oedolion a gadael gofal. Bydd y cynllun llwybr yn adeiladu ar gynllun gofal a chymorth Rhan 6 presennol y plentyn, a fydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun llwybr.'*

*'Paragraff 54 – Bydd y cynllun llwybr yn cynnwys y camau gweithredu sydd eu hangen gan yr awdurdod lleol, gofalwr y person ifanc, y person ifanc, y rhiant a phartïon eraill a nodir i helpu'r person ifanc i bontio'n llwyddiannus o'r sector gofal. Bydd y cynllun llwybr yn parhau ar ôl i'r person ifanc droi'n 18 oed. Hefyd, dylai proses asesu a chynllunio'r llwybr benderfynu a chofnodi'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd angen eu darparu i'r person ifanc wrth iddo baratoi i adael gofal, ac ar ôl iddo adael gofal.'*

Cyfeiriodd y Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol at Baragraff 440 (a) o'r Ddeddf a oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Nododd bod sampl o 20 o Gynlluniau Llwybr wedi eu cynnwys allan o 24 cynllun llwybr cymwys ar gyfer pobl ifanc. Roedd dau dempled yn wag oherwydd bod y bobl ifanc wedi gwrthod ymwneud â'r Gweithiwr Cymdeithasol wrth eu paratoi.

Cyfeiriodd hefyd at y cryfderau a'r materion i'w datblygu:-

**Cryfderau:-**

- Ystyriwyd bod cyfanswm o 10 yn Gynlluniau Llwybr yn drylwyr a manwl;
- Roedd tystiolaeth o gyd-gynhyrchu â'r bobl ifanc ym mhob achos fwy neu lai;
- Gwnaed ymdrech i gynnwys 'llais' y person ifanc e.e. trwy gynnwys eu geiriau eu hunain ym mhob un o'r cynlluniau;
- Roedd tystiolaeth bod 12 o'r Cynlluniau Llwybr yn cael eu diweddaru'n rheolaidd;
- Roedd un cynllun yn datgan yn glir beth fyddai'r ymateb gwahanol gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ddibynnol ar ba drywydd y byddai'r person ifanc yn ei ddilyn;
- Roedd safbwynt y bobl ifanc wedi ei gynnwys ym mhob un o'r Cynlluniau Llwybr;
- Yn achos dau o'r cynlluniau, dywedwyd nad oedd y person ifanc yn hoffi cyfrannu at Adolygiadau LAC ond bod safbwynt yr unigolyn i'w glywed drwy'r Cynllun Llwybr;
- Roedd barn y rhieni wedi ei gynnwys yn achos 6 o'r Cynlluniau Llwybr.

**Materion i'w datblygu:**

- Ychydig o dystiolaeth sydd o gynllunio wrth gefn
- Mewn rhai o'r Cynlluniau, cafodd ambell adran ei diweddaru ond nid eraill e.e. ceir sylwadau mewn un adran am berson ifanc yn yr ysgol, ond mewn darn arall ceir cyfeiriad at y person ifanc yn dilyn cwrs coleg. Efallai mai canlyniad templedi anhylaw ac ailadroddus yw hyn. Serch hynny, mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch proses gwarantu ansawdd a chadarnhad rheolwyr o'r cynlluniau.
- Mae llawer o'r blychau yn wag ym mhob un o'r Cynlluniau Llwybr gan nad yw pob cwestiwn yn cael ei ateb. Mae hyn yn neilltuol o wir am y cwestiwn "lle

ydych chi eisiau bod / pa mor bwysig yw hyn i chi?”

- Ar brydiau, ceir cyfeiriadau at feithrin sgiliau byw yn annibynnol, ond ychydig o fanylion sydd yn cael eu darparu ynghylch pa sgiliau yw’r rhain a pha rai y dylid eu blaenoriaethu.
- Mae rhai o’r Gweithwyr Cymdeithasol wedi dweud fod diffyg parodrwydd pobl ifanc i ymwneud â’r broses yn ffactor mewn methu cynhyrchu cynlluniau mwy manwl. Gellir gofyn a yw’r gwaith cymdeithasol ei hun yn ddigon creadigol, ac yn rhoi digon o ystyriaeth i’r anawsterau y mae rhai o’r bobl ifanc wedi eu hwynebu.
- Mae’n bwysig i Gynlluniau Llwybr gael eu paratoi yn amserol.
- Dywedodd rhai o’r Gweithwyr Cymdeithasol fod pobl ifanc 16 mlwydd oed yn cael eu llethu gan yr adran sydd yn sôn am fyw yn annibynnol ar ôl troi yn 18 oed.
- Dim ond dau berson ifanc o fewn y sampl sydd yn hoff o’r sgôr a roddir o 1 i 10 (hynny yw mynegi eu teimladau ar sut mae’r gwahanol agweddau yn mynd).
- Mewn dau achos, dywedodd y Gweithwyr Cymdeithasol fod dewis yr amser priodol i wneud y cynllun yn ffactor. Gwrthododd un person ifanc ymwneud â’r broses y llynedd, ond erbyn hyn roedd yn dra awyddus. Efallai fod angen ystyriaeth bellach ar hyn: nid pob person ifanc sydd yn barod pan ddaw’r adeg i lunio Cynllun Llwybr.
- Nid yw’r templed Cynllun Llwybr yn cynnwys lle i nodi enw'r sawl sydd yn gofalu am y person ifanc. O’r herwydd caiff hyn ei gofnodi yn aml efo cyfeiriad y lleoliad, gan arwain at enwau cyntaf yn aml yn unig yn cael eu cofnodi.

Dywedodd y Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol ei fod wedi derbyn sylwadau gan y Gwasanaethau Arbenigol Plant a oedd yn nodi nad ydi’r cynlluniau llwybr mewn fformat hawdd i’w ddarllen ar gyfer plant gydag anableddau dysgu (ac anawsterau dysgu) ac nad yw rhoi sgôr yn ddefnyddiol-gyfeillgar ar gyfer plant gydag anabledd dysgu, anhawster rhifedd, a bod y dull sgorio o bosib yn ddiystyr os nad oes ganddynt ddealltwriaeth o rifau.

Dywedodd hefyd bod y Swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol o’r farn bod cynnydd cyson yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wrth lunio Cynllun Llwybr ar gyfer pobl ifanc gymwys. Daethant hefyd i’r casgliad fod y cynlluniau wedi datblygu mewn manylder dros amser. Rhaid cofio effaith y pandemig sydd wedi cyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol i drafod dyheadau’r bobl ifanc wyneb yn wyneb.

Bu i’r Panel ddiolch i’r Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol am yr adroddiad a chodi’r materion canlynol:-

- Holodd y Cadeirydd pryd y byddai’r cynlluniau llwybr yn cael eu diwygio a phryd y byddai argymhellion yr adroddiad yn cael eu rhoi ar waith.

  Atebodd y Cyfarwyddodd Gwasanaethau Cymdeithasol bod y gwaith o addasu’r ffurflenni wedi cael ei amlygu yn amserlen y Tîm ac y byddai hyn yn digwydd yn ystod Chwarter 3. Fel y nodwyd gan y Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol mae’r ffurflenni wedi cael eu cynhyrchu yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth. Ceir cyfraniad manwl gan y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro yn Chwarter 3 ond bydd rhaid cwblhau gwaith sylweddol i gwtogi’r ffurflenni hyn i gynnwys yr wybodaeth allweddol.

- Dywedwyd bod yn rhaid ystyried bod datblygiad pob person ifanc, yn enwedig rhwng 15 a 18 oed, yn wahanol. Codwyd cwestiynau ynglŷn â pha un ai a ydi’r cynllun llwybr yn addas ar gyfer y grŵp oedran penodol hwn.

Dywedodd y Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol bod y mater hwn wedi ei godi a bod Gweithwyr Cymdeithasol wedi datgan bod 2 unigolyn cymwys wedi gwrthod bod yn rhan o'r broses llunio cynllun llwybr ar yr adeg ond wedi 12 mis eu bod nawr wedi cytuno i lenwi'r cynllun llwybr. Cytunodd bod dyheadau pobl ifanc yn newid a bod yn rhaid ystyried eu dymuniadau. Mae'r templedi wedi cael eu datblygu i gynnwys yr holl ofynion deddfwriaethol ond mae'n amlwg bod y templedi yn rhy hir. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod bwriad i adolygu'r holl ffurflenni priodol yn ystod Chwarter 3 ond wrth gwtogi'r gwaith papur bydd yn rhaid pwyso a mesur yn erbyn y gofynion deddfwriaethol rhag ofn i'r Awdurdod wynebu achos cyfreithiol;

- Cyfeiriwyd at y sylwadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Arbennig Plant, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ac sydd yn nodi y byddai rhai pobl ifanc gydag anableddau dysgu ac anawsterau rhifedd yn cael trafferth llenwi'r templedi/ Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc yma ar ôl cyrraedd 18 oed.

Fe ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol trwy ddweud bod y Gwasanaeth Arbenigol Plant yn gweithio'n agos gyda'r bobl ifanc a'u teuluoedd mewn perthynas ag anawsterau dysgu a rhifedd. Mae rhai o'r bobl ifanc yn mynd i Ganolfan y Bont ac eraill mewn ysgolion prif lif; mae gan y Gwasanaeth Arbenigol Plant arfau arbennig i gyfathrebu â'r bobl ifanc yma. Dywedodd y Nyrs Plant Sy'n Derbyn Gofal bod hyfforddiant i ofalwyr hefyd yn angenrheidiol er mwyn cwblhau'r cynlluniau llwybr er mwyn monitro 'llais' a gofynion y bobl ifanc.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Y dylid ail-ystyried y templed mewn cyd-gynhyrchiant â phobl ifanc;**
- **Y dylai'r templed gynnwys lle i gofnodi enwau'r gofalwyr;**
- **Y dylid diweddaru'r Cynlluniau Llwybr yn flynyddol, neu pan fo unrhyw newid**
- **sylweddol i'r cynllun e.e. dechrau mewn coleg;**
- **Y dylid cofnodi safbwynt pawb sydd â Chyfrifoldeb Rhiant dros y person ifanc, a barn ymarferwyr eraill, yn gyson;**
- **Y dylid sicrhau fod Cynlluniau Llwybr bob amser yn cael eu llunio yn amserol.**

- **Addasu'r Polisi Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) mewn perthynas â dull 'dim niwed'.**

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu bod a wnelo'r mater hwn â'r rhwystrau a wynebir gan Ofalwyr Maeth yr Awdurdod pan fydd y Gorchymyn Gofal yn cael ei derfynu a Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn cael ei roi mewn grym. Nododd yn dilyn trafodaethau â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod penderfyniad wedi cael ei wneud i ystyried polisi dull 'dim niwed' gan y byddai'n annog pobl i ymgeisio am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Disgwylir y bydd y polisi dull 'dim niwed' yn cael ei adolygu a'i addasu yn ystod y misoedd nesaf.

**Cytunwyd i dderbyn a nodi'r diweddariad.**

- **Gwella ansawdd asesiadau**

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro - Diogelu bod y Panel wedi codi cwestiwn yn ystod ei gyfarfod diwethaf am y modd y mae'r Gwasanaeth yn bwriadu mynd i'r afael ag ansawdd asesiadau mewn perthynas â Rhan 6 o'r templed Gofal a Chymorth. Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu cynnwys y ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nododd hefyd bod y Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi sicrhau ansawdd y cynllun fesul achos unigol. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y cynhelir archwiliad gan ymarferwyr mewnol ac y wedi ei gynnwys yn rhaglen waith y Gwasanaeth.

**Cytunwyd i dderbyn a nodi'r diweddariad.**

## 4 LLESIANT EMOSIYNOL PLANT SY'N DERBYN GOFAL AMDANYNT YN YSTOD AC WEDI'R PANDEMIG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu ar lesiant emosiynol plant sy'n derbyn gofal yn ystod ac wedi'r pandemig.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu bod effaith y pandemig ar y boblogaeth gyffredinol wedi bod yn sylweddol ac wedi cwmpasu ystod eang o faterion, gan gynnwys iechyd meddwl ac emosiynol unigolion. Mae'r effaith ar y plant y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanynt fel rhiant corfforaethol wedi bod yn sylweddol. Ar wahân i'r plant sydd wedi eu lleoli â rhieni, mae'r plant y gofalir amdanynt yn barod wedi eu gwahanu oddi wrth rieni/gofalwyr ac o bosibl anwyliaid eraill, yn enwedig brodyr a chwiorydd. Mae cau ysgolion wedi effeithio ar blant y gofalir amdanynt ymhellach ac wedi cynyddu'r teimlad o unigrwydd i rai. Fodd bynnag, mae nifer o'r plant wedi elwa o gymorth gan y Cyngor i fynychu'r Hwb Gofal ac erbyn hyn mae 26 o ysgolion yn ysgolion ysgol sy'n 'wybodus am drawma'. Mae plant mewn ysgolion uwchradd yn elwa o gael cwnselydd ysgol ac mae rhai cymorthyddion addysgu wedi elwa o hyfforddiant i ddod yn Ymarferwyr Cynorthwyol Cefnogi Llythrennedd Emosiynol, hyfforddiant a ddarparwyd gan seicolegydd addysg.

Ar ddiwedd Ebrill 2021, roedd 157 o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod. Mae plant iau, er eu bod yn medru dangos arwyddion o ansefydlogrwydd emosiynol, yn fwy tebygol o fod angen rhiantu cyson a meithriniol (e.e. mewn gofal maeth) yn y lle cyntaf, yn hytrach na gwasanaethau iechyd meddwl neu emosiynol arbenigol/ wedi ei dargedu. Nid yw'r adroddiad hwn yn ystyried plant o dan wyth oed ar y sail eu bod yn llai tebygol o gael eu cyfeirio am wasanaethau arbenigol neu wedi'u targedu. Anfonwyd holiadur i bob gweithiwr cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb dros y 100 plentyn dros 8 oed; derbyniwyd 62 ymateb a chysylltwyd â gwasanaethau perthnasol a gofynnwyd iddynt ystyried natur darpariaeth eu gwasanaeth yn ystod y pandemig. **Dangosodd 30 (48%) o'r plant a'r bobl ifanc yn y grŵp hwn, arwyddion o drallod emosiynol a oedd angen ymyrraeth arbenigol neu wedi ei dargedu. Mae tystiolaeth fod pob un o'r 30 o blant wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac mae tystiolaeth glir fod o leiaf 6 o'r plant a'r bobl ifanc wedi profi cynnydd mewn symptomau o drallod emosiynol oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd arnynt yn ystod y pandemig**.

Nodwyd hefyd bod asiantaethau amrywiol wedi addasu'n dda wrth ddarparu gwasanaethau drwy ddulliau cyfathrebu rhithiol. Fodd bynnag, adroddwyd bod datblygu a chynnal perthynas gyda'r bobl ifanc wedi bod yn anodd oherwydd bod pobl sydd wedi dioddef trallod yn elwa o gyswllt wyneb yn wyneb.

Bu i'r Panel ddiolch i'r Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu am yr adroddiad a chodwyd y materion canlynol:-

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â pha un ai y dylid poeni mai dim ond 62% wnaeth ymateb i'r holiadur a anfonwyd i fonitro lles y plant y gofalir amdanynt yn ystod y pandemig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol na ellir gorfodi'r plant i lenwi holiaduron ond pwysleisiodd bod cyswllt rheolaidd â'r bobl ifanc;

- Cyfeiriwyd at y 26 ysgol sy'n ysgolion 'gwybodus am drawma' a holwyd pa un ai a ydi'r ysgolion hyn ym mhob rhan o'r ynys.

  Ymatebodd yr Uwch Reolwr Llesiant - Addysg bod staff yn y 26 ysgol wedi cwblhau cwrs diploma 10 diwrnod. Nododd mai dim ond nifer gyfyngedig o bobl gaiff fynychu'r cyrsiau hyn. Mae tua 500 o athrawon a chynorthwywyr addysg wedi mynychu cwrs hanner diwrnod. Nodwyd hefyd bod 5 Rhiant Maeth wedi mynychu'r cwrs a bod hyn wedi eu helpu i ddeall iechyd ac iechyd meddwl y bobl ifanc yn well.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mai ei ddyhead ef yw sicrhau statws 'Ynys Wybodus am Drawma' ar gyfer Ynys Môn ac roedd yn croesawu'r ffaith bod 26 o ysgolion a 500 o athrawon a chynorthwywyr addysg wedi cwblhau'r' cwrs. Nododd y bydd cwrs tebyg yn cael ei ychwanegu i'r Rhaglen Hyfforddi ar gyfer Aelodau Etholedig yn y dyfodol.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod canolfannau gofal addysg wedi cael eu sefydlu ledled yr ynys pan orfodwyd yr ysgolion i gau oherwydd y pandemig a bod pob plentyn bregus wedi cael cynnig lle yn un o'r canolfannau hyn.

- Cyfeiriodd yr Arweinydd at y plant dan 8 oed sydd yng ngofal yr Awdurdod a holodd sut y mae'r gwasanaeth yn canfod amgylchiadau'r plant yma a'r gwasanaethau y maent eu hangen.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu Dros Dro bod plant dan 8 angen sefydlogrwydd a'i bod hi'n bwysig bod Rhieni Maeth yr Awdurdod yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod yn rhaid cofio nad ydi pob plentyn sy'n derbyn gofal angen cefnogaeth asiantaethau allanol a bod modd eu cefnogi drwy'r gwasanaethau cyffredinol. Mae gweithgareddau chwarae, celf a chrefft a chwaraeon wedi bod ar gael.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a derbyn diweddariad mewn chwe mis i ddiweddaru'r Panel ar y gweithgareddau sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal**

## 5 ADRODDIADAU GWASANAETH

- **Cynnydd Addysg disgyblion sydd yng ngofal Awdurdod Ynys Môn**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Llesiant Addysg bod yr adroddiad yn ymwneud â'r flwyddyn addysgol 2020/21. Nodwyd bod 136 o'r disgyblion sy'n derbyn gofal rhwng 3-16 oed, sef yr oedran addysg statudol, a bod 22 dros 16. Mae 95 plentyn mewn gofal yn derbyn addysg mewn ysgolion ledled Ynys Môn tra bo 41 wedi eu lleoli y tu allan i'r sir. Yn ystod y pandemig cafodd disgyblion mewn gofal fynediad at hybiau gofal oddi mewn i'r ysgolion. Defnyddiodd yr ysgolion amrywiaeth o ymyraethau i gefnogi disgyblion a oedd yn gwrthod ymgysylltu a dychwelyd drwy weithio gyda phartneriaethau i gyflwyno cynlluniau unigol. Mae'r grant bwrsari i blant sy'n derbyn gofal wedi galluogi ysgolion i gael mynediad at y cynllun asesu BOXALL eleni. Mae hwn yn adnodd sydd yn caniatáu i ysgolion fesur anghenion emosiynol disgybl a chynnig ymyraethau sydd yn cyd-fynd â'i anghenion. Mae'r Adran Dysgu a'r Adran Plant a Theuluoedd wedi cychwyn peilot cynllun CAP (cynllun

addysg personol) ar-lein. Os bydd y cynllun peilot yn rhedeg yn esmwyth bydd CAP ar-lein yn weithredol ym mhob ysgol o fis Medi ymlaen. Mantais CAP electroneg i'r Adran Dysgu ydi bod gennym nawr ffordd llawer fwy effeithiol o dracio cynnydd a chyflenwad plant mewn gofal. Mae ysgolion yn parhau i gymhwyso eu dealltwriaeth o drawma cynnar drwy ddilyn cwrs diploma Ysgol Wybodus i Drawma Mae mynediad at liniaduron a Chromebooks wedi bod yn bwysig iawn dros y flwyddyn ddiwethaf i bob disgybl.

Adroddwyd hefyd bod y rhan fwyaf o blant mewn gofal ym Mlwyddyn 11 wedi derbyn lleoliad addysg bellach mewn coleg, derbyn prentisiaeth neu'n dychwelyd i'r chweched. Mae canran fach iawn yn ei chael hi'n anodd cynllunio ar gyfer y cam nesaf er bod tiwtoriaid ac arbenigwyr eraill yn cynnig cymorth dwys iddynt.

Bu i'r Panel ystyried yr adroddiad a chodi'r pwyntiau canlynol:-

- Roedd y Panel yn awyddus i fynegi'n glir bod ganddynt gyfrifoldeb Rhiantu Corfforaethol a'u bod angen sicrwydd bod yr holl blant sy'n derbyn gofal yn cyrraedd eu llawn botensial ac ar y trywydd iawn o safbwynt eu hanghenion addysgol.

  Ymatebodd yr Uwch Reolwr Llesiant Addysg y bydd hi'n haws mesur a monitro cynnydd ac anghenion y plentyn mewn perthynas â'i oed a'i allu ac i wneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd eu targedau personol unwaith y bydd y CAP ar waith yn yr ysgolion,

- Cyfeiriwyd at y 41 plentyn sydd wedi eu lleoli y tu allan i'r sicr ac mae angen sicrwydd bod y plant yma'n cael yr un cyfleoedd â'r plant ar yr ynys.

  Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol trwy ddweud bod modd cyflwyno adroddiad i'r Panel hwn pan fydd yn cwrdd eto mewn perthynas â data am y disgyblion sydd wedi eu lleoli y tu allan i'r sir. Nododd bod rhaid adrodd wrth Lywodraeth Cymru pob chwarter ynglŷn â phlant mewn gofal sydd wedi eu lleoli y tu allan i'r sir a bod angen caniatâd i leoli plant y tu allan i Gymru.

  **Cytunwyd i nodi'r adroddiad ac i dderbyn data am y plant mewn gofal sydd wedi eu lleoli y tu allan i'r sir erbyn y cyfarfod o'r Panel hwn ym mis Rhagfyr**

- **Adroddiad Rheolwr y Tîm Lleoli Plant**

  Cyflwynwyd adroddiad y Tîm Amddiffyn Plant i'w ystyried gan y Panel.

  Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ddata yn ymwneud â natur y lleoliadau plant sy'n derbyn gofal rhwng 2018 i 2021 i'r Panel:-

  - Roedd 160 o blant a phobl ifanc mewn gofal ddiwedd mis Mawrth 2021 o gymharu â 158 a oedd mewn gofal fis Mawrth y llynedd 2020**.**
  - Bu gostyngiad nodedig yn y defnydd o asiantaethau allanol;
  - Mae'r math o leoliadau a gynigir i blant a phobl ifanc gan yr Awdurdod wedi newid

  Mae'r ffactorau sydd wedi helpu i gyflawni hyn yn cynnwys paru mwy priodol; mae Cartrefi Clyd wedi derbyn lleoliadau yn ystod y 12 i 18 mis diwethaf; Gofalwyr Maeth Arbenigol yn ymuno– er enghraifft Gofalwyr Maeth Mam a Phlentyn a chynnydd yn nifer y Gofalwyr Maeth sy'n cael eu hasesu a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod. **Ym mis Mawrth 2021 roedd 108 o unigolion a oedd wedi cofrestru fel Gofalwyr**

**Maeth a mwy o bobl ifanc yn aros gyda'u teuluoedd cysylltiedig. Mae 36 aelwyd maeth prif lif a 28 aelwyd maethu personau cysylltiedig.**

Ymhellach i hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd y Gwasanaeth Plant ac Oedolion yn cael Arolwg Sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod yr wythnos yn cychwyn 14 Mehefin 221 ac y bydd y Tîm Lleoli Plant yn cyfrannu i'r arolwg hwn. Nodwyd bod staff wedi gadael y Tîm Lleoli Plant ar ôl cael eu penodi i swyddi eraill neu adael yr Awdurdod. Felly bydd model staffio'r Tîm Lleoli Plant yn newid er mwyn sicrhau sefydlogrwydd o fewn y Tîm. Bydd y model staffio newydd yn cynnwys Arweinydd Ymarfer, 5 gweithiwr cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn, Swyddog Recriwtio a Lleoli a Dau Weithiwr Cymorth.

Mae Rheolwyr y Timau Maethu Rhanbarthol o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn parhau i gwrdd yn rheolaidd er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd o ran recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth. Mae'r ymgyrch recriwtio genedlaethol 'Maethu Cymru' yn parhau ac mae'n debygol o arwain at ymholiadau gan ddarpar ofalwyr Maeth a fydd, gyda lwc, yn arwain at asesiadau llawn a darparu mwy o Rieni Maeth.

Bu i'r Panel ystyried yr adroddiad a nodi'r pwyntiau isod:-

- Roedd y Panel yn dymuno llongyfarch y Tîm Lleoli Plant am eu gwaith i ddenu Gofalwyr Maeth. Holwyd ynglŷn â'r gallu i ddenu Gofalwyr Maeth sy'n siarad Cymraeg. Roedd y Panel o'r farn ei bod hi'n hanfodol bwysig lleoli Cymraeg eu hiaith â Gofalwyr Maeth sydd yn gallu siarad Cymraeg.

  Cynghorwyd y Panel bod yr Awdurdod wedi llwyddo i ddenu teuluoedd Cymraeg i ddod yn Ofalwyr Maeth ac y bydd yn ymdrechu i gefnogi ac annog Gofalwyr Maeth sydd yn dymuno dysgu Cymraeg. Hyderwn y bydd yr Ymgyrch Genedlaethol yn helpu i ddenu siaradwyr Cymraeg i ddod yn Ofalwyr Maeth.

**Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad.**

## 6 CYFARFOD NESAF

Nodwyd y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel am 10:00yb, dydd Mawrth 7 Medi 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm

**MRS ANNWEN MORGAN**
**CADEIRYDD**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 12 Gorffennaf 2021 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>01248 752520<br>JHuwJones@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Medi 2021 – Ebrill 2022;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

**-**

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe’i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Medi 2021 – Ebrill 2022. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2021 – Ebrill 2022

Diweddarwyd 1 Gorffennaf 2021

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2021 – Ebrill 2022

Diweddarwyd 1 Gorffennaf 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Medi 2021** | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 2 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>13 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 3 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2021 – Ebrill 2022

Diweddarwyd 1 Gorffennaf 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 6 | **Adolygiad Ariannol y Tymor Canolig** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 7 | **Ymgynghoriad ar lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail-gartrefi** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>9 Medi 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| 8 | **Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2020-2030 – Ystad Mân-ddaliadau** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 – i'w gadarnhau | |

Tudalen 22

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2021 – Ebrill 2022

Diweddarwyd 1 Gorffennaf 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol**<br><br>Cymeradwyo Strategaeth ddiwygiedig | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Medi 2021 | |
| | | | | **Hydref 2021** | | | |
| 10 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2021 | |
| | | | | **Tachwedd 2021** | | | |
| 11 | **Cyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>28 Hydref 2021<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>1 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Tachwedd 2021 | |

Tudalen 23

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2021 – Ebrill 2022

Diweddarwyd 1 Gorffennaf 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 12 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 13 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>16 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 14 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Tachwedd 2021 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 15 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2021 – Ebrill 2022

Diweddarwyd 1 Gorffennaf 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| 17 | **Sail y Dreth Gyngor 2022/23**<br><br>Pennu sail y dreth ar gyfer 2022/23 | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2021 | |
| | **Rhagfyr 2021** | | | | | | |
| 18 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| 19 | **Cynllun Rheoli AHNE 2021-2025** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |

Tudalen 25

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Medi 2021 – Ebrill 2022

Diweddarwyd 1 Gorffennaf 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ionawr 2022** | | | | | | |
| 20 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2022 | |
| | **Chwefror 2022** | | | | | | |
| 21 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 22 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2021 – Ebrill 2022

Diweddarwyd 1 Gorffennaf 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 24 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | Cyngor<br>22 Chwefror 2022 |
| | | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Medi 2021 – Ebrill 2022

Diweddarwyd 1 Gorffennaf 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mawrth 2022** | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| 27 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| | | | | **Ebrill 2022** | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2022 | |

Tudalen 28

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **12 GORFFENNAF 2021** |
| **Pwnc:** | **CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2020/21 A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN W. WILLIAMS** |
| **Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:** Ffôn: E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad / argymhellion a Rheswm / rhesymau**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2020/21 a'r Fantolen ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021.

Darperir gwybodaeth fwy manwl am falansau cyffredinol y Cyngor a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac mae'r adroddiad yn rhoi manylion am sut y bwriedir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau yn 2021/22 ac yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn nodi lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol y wynebir gan y Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymiadau cyllido presennol a wnaed ac mae'n cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnydd y cyllid, e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant. Gall lefel y risg a wynebir gan y Cyngor newid a chedwir golwg ar lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig a'u hadolygu dros y misoedd nesaf.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio eto ac y gallant newid o'r herwydd. Ar ôl cwblhau'r archwiliad cyflwynir adroddiad ar y Datganiad o Gyfrifon terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor llawn.

Argymhellion:-

**1.** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol (heb eu harchwilio) ar gyfer 2020/21 (cyhoeddir y Datganiad o Gyfrifon llawn ar gyfer 2020/21 ar y ddolen a ganlyn: https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyllid/Datganiad-or-cyfrifon/2020-2021/Datganiad-or-Cyfrifon-drafft-2020-i-2021.pdf

**2.** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran y balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'i fod yn cymeradwyo creu'r cronfeydd wrth gefn newydd a nodir yn Atodiad 4 (cyfanswm o £5,181,646).

**3.** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran balansau ysgolion.

**4.** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo cynyddu isafswm balans y Gronfa Gyffredinol i £9m. Adolygir y swm eto wrth osod cyllideb refeniw 2022/23.

5. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo creu Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau, gwerth cyfanswm o £1,376m (yn unol ag Atodiad 1, Table 3).

6. Bod y Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi defnyddio hyd at £3.471m (£1.217m o falans y Gronfa Gyffredinol a £2.254m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig ni ymrwymwyd) i'w ddefnyddio i gyllido prosiectau penodol sydd wedi'u cynllunio i gwrdd â'r risgiau a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r holl brosiectau newydd cyn iddynt gychwyn.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau wedi cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith yn unol â phenderfyniad y Cyngor ynghylch cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor ar 9 Mawrth 2021.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Dyluniwyd y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau i fynd i'r afael â rhai risgiau a materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ymgymryd â phrosiectau fydd yn ei gynorthwyo i gwrdd ag anghenion hirdymor yr Ynys a'i phreswylwyr. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?** | Ydi - bydd mynd i'r afael â'r risgiau yn awr a lliniaru'r risgiau hynny'n atal costau yn y dyfodol. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod â'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.** | Na |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini a effeithir yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut.** | Na |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a amddiffynnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y grwpiau rheini a amddiffynnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y grwpiau yna cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect. |
| 6 | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Nid yw'r penderfyniad y gofynnir amdano yn yr adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Byddai unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cyllid yn ystyried yr effaith ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol cyn gwneud penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen ag unrhyw brosiect. |
| 8 | **Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.** | Dim effaith ar yr iaith Gymraeg. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r UDA wedi ystyried yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Ymgorfforwyd sylwadau aelodau'r UDA yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Roedd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am ddrafftio'r adroddiad. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd unrhyw sylwadau a wnaed ynghyd â holl sylwadau aelodau'r UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol** | Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar faterion AD. |
| 5 | **Eiddo** | Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Gwasanaeth mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar eiddo'r Cyngor. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ymgynghorwyd â'r Pennaeth TG mewn perthynas â chynigion sy'n cael effaith ar wasanaeth TG y Cyngor neu systemau TG. |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y datganiad o gyfrifon drafft gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2021. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |

**F – Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad ar y prif ddatganiadau ariannol, balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn cyffredinol
- Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2020/21
- Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021
- Atodiad 4 – Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2021

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Adroddiad Alldro Cyllideb Refeniw – Pwyllgor Gwaith 21 Mehefin 2021

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Mae'r adroddiad yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 ac mae'n cyflwyno crynodeb o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig. Mae'r adroddiad yn nodi lefelau'r balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, y lefelau sydd eu hangen i gwrdd ag unrhyw risgiau ariannol y wynebir gan y Cyngor, i gwrdd ag unrhyw ymrwymiadau cyllido presennol a wnaed ac mae'n cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnydd y cyllid, e.e. cyfyngiadau a osodir gan amodau grant. Yn dilyn o'r barn yma, mae'r adroddiad yn adnabod yr uchafswm posibl sydd ar gael o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig a allai cael eu ailddyrannu yn 2021/22 i gyllido prosiectau penodol sydd wedi'u cynllunio i gwrdd â risgiau a heriau penodol sy'n wynebu'r Cyngor, neu i wella asedau presenol neu i gyllido creu asedau newydd i'r Cyngor.

## 2. CEFNDIR

**2.1** Mae Rheoliad 10 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) fel y diwygiwyd nhw gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif swyddog ariannol lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon a thystio ei fod yn cyflwyno darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor ddim hwyrach na'r 31 Mai yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Yna mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo a chyhoeddi ei ddatganiadau ariannol archwiliedig erbyn y 31 Gorffennaf yn union ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

**2.2** Fodd bynnag, ar gyfer 2020/21, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y gallai'r pandemig fod wedi cael effaith ar adnoddau staff awdurdodau lleol ac mae'r amserlen wedi cael ei hymestyn, gan ganiatáu hyd at 31 Awst 2021 i Gynghorau lofnodi eu Datganiad o Gyfrifon drafft a hyd at 30 Tachwedd 2021 i gyhoeddi eu datganiadau ariannol archwiliedig.

**2.3** Llofnodwyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2020/21 gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar 15 Mehefin 2021 ac mae'r gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi dechrau. Y bwriad yw y bydd y cyfrifon yn cael eu cwblhau yn ystod yr haf ac y bydd y cyfrifon archwiliedig terfynol yn cael eu cymeradwyo erbyn 30 Medi 2021.

## 3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2020/21

**3.1** Caiff y drafft o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer 2020/21 ei gyflwyno yn Atodiad 2.

**3.2** Mae'r datganiad yn crynhoi'r gost o ddarparu gwasanaethau yn 2020/21 yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'r CIES yn cynnwys costau cyfrifo statudol megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn na chodir amdanynt yn erbyn y Dreth Gyngor, ac felly maent yn cael eu canslo allan cyn penderfynu ar y sefyllfa derfynol mewn perthynas â balansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, balans y cyfrif CRT a balansau ysgolion. Felly, nid oes modd tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng y CIES a'r adroddiadau alldro a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2021.

**3.3** Mae'r CIES yn dangos mai £127.318m oedd cost net y gwasanaethau gyda gwarged o £10.213m ar ddarparu gwasanaethau. Yna, gwneir addasiadau ar gyfer ailbrisio asedau ac ail-fesur y rhwymedigaeth pensiwn, a rhydd hynny gost net derfynol o £24.231m ar gyfer y flwyddyn. Yna gwneir addasiadau, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod, i benderfynu ar y symudiad i gronfeydd wrth gefn a'r balansau. Manylir ar yr addasiadau yn nodyn 7 y Datganiad o Gyfrifon drafft.

**Tabl 1**
**Cysoni'r CIES i'r Cyfraniad i neu o'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r Balansau ar gyfer 2020/21**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cost yn unol â'r CIES | | 24.231 |
| Canslo allan y gwarged ar Ailbrisio Asedau ac Ail-fesur y Rhwymedigaeth Pensiwn | (34.444) | |
| Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Cyllido o dan y Rheoliadau | (4,041) | |
| | | (38,485) |
| **Cyfraniad (i) / o Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau** | | **(14,254)** |

**3.4** Dangosir y symudiad yng nghronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Crynodeb o'r Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor fel ar 31 Mawrth 2021**

| | Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor £'m | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Cyngor £'m | Cronfa Wrth Gefn y CRT £'m | Balansau Ysgolion £'m | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'m | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y mae modd eu defnyddio £'m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans Agoriadol fel ar 1 Ebrill 20** | **7.060** | **8.760** | **8.597** | **0.197** | **1.330** | **25.944** |
| Tanwariant Net 2020/21 ( yn unol â'r Adroddiadau Alldro – Pwyllgor Gwaith Mehefin 21) | 4.204 | - | 1.145 | - | - | 5.349 |
| Trosglwyddiadau Net i / (o) Gronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn | 0.329 | 5.319 | - | 3.819 | (0.562) | 8.905 |
| **Balans Cau ar 31 Mawrth 21** | **11.593** | **14.079** | **9.742** | **4.016** | **0.768** | **40.198** |

## 4. MANTOLEN DDRAFFT FEL AG YR OEDD AR 31 MAWRTH 2021

**4.1** Mae Atodiad 3 yn cyflwyno'r fantolen ddrafft fel ar yr oedd ar 31 Mawrth 2021.

**4.2** Bu gostyngiad yng ngwerth asedau net y Cyngor o £188.286m i £164.056m yn ystod y flwyddyn. Bu cynnydd o £15.065m yng ngwerth asedau hirdymor y Cyngor yn bennaf oherwydd gwariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau a chyfarpar y Cyngor. Roedd cynnydd o £9.509m mewn asedau cyfredol tra bod gostyngiad o £2.686m yn y rhwymedigaethau cyfredol, yn bennaf oherwydd gostyngiad o £14.679m mewn benthyca tymor byr sy'n cael ei wrthbwyso gan gynnydd o £10.527m mewn credydwyr tymor byr.

**4.3** Nid oedd y cynnydd yng ngwerth asedau hirdymor ac asedau cyfredol net yn ddigon i gwrdd â'r cynnydd o £51.490m yn y rhwymedigaethau hirdymor. Roedd y mwyafrif o'r newid mewn rhwymedigaethau hirdymor o ganlyniad i gynnydd o £51.742m yn y rhwymedigaethau pensiwn. Roedd cynnydd o £83.463m yn asedau'r cynllun ond roedd cynnydd o £135.204m yn rhwymedigaethau'r cynllun. Amcangyfrif gan Actwari'r Cynllun yw rhwymedigaethau'r cynllun yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau mewn perthynas â chyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog ac ati, ac mae gwerthoedd yn y dyfodol yn cael eu gostwng er mwyn penderfynu ar y gwerth presennol.

**4.4** Roedd cynnydd o £5.693m i £28.738m yn malans arian parod y Cyngor. Mae cost darparu gwasanaethau, y symudiad mewn asedau cyfredol net (dyledwyr, credydwyr ac ati), gwariant cyfalaf a lefel benthyca hirdymor yn cael effaith ar falans arian parod y Cyngor. Manylir ar symudiadau unigol yr eitemau hyn yn y datganiad llif arian a'r nodiadau cysylltiedig.

## 5. BALANS Y GRONFA GYFFREDINOL

**5.1** Roedd Balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2021 yn £11.593m, sydd yn cyfateb i 7.86% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi pennu isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer Balans y Gronfa Gyffredinol a byddai hyn yn cyfateb i £7.37m. O'r herwydd, mae Balans y Gronfa Gyffredinol £4.223m yn uwch na'r lleiafswm.

**5.2** Nid yw'n glir pa effaith a gaiff y pandemig ar y galw am wasanaethau'r Cyngor yn 2021/22 er ei bod yn debygol y bydd y galw yn uwch na'r arfer. Yn ogystal, mae'r cyfyngiadau parhaus a'r gofyn i gynnal pellter cymdeithasol yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i gynhyrchu incwm ar gyfer rhai gwasanaethau, yn bennaf mewn perthynas â pharcio ceir a hamdden. Er bod Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth ariannol ar hyn o bryd i gwrdd â chostau ychwanegol ac incwm a gollwyd, efallai y daw'r cymorth hwn i ben yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Oherwydd hyn, mae risg sylweddol y bydd y Cyngor yn gorwario ar ei gyllideb refeniw yn 2021/22. Felly, ystyrir ei bod yn synhwyrol cynyddu lleiafswm balans y gronfa gyffredinol yn 2021/22 ac efallai yn 2022/23 hyd nes bydd effeithiau'r pandemig yn fwy eglur. Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw yr ystyrir bod lleiafswm o £9m (6.1% o gyllideb refeniw net 2021/22) yn ddigonol i liniaru'r risgiau hyn.

**5.3** Cyn y pandemig, roedd y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo mewn egwyddor trosglwyddo cyfran o'r balansau cyffredinol i greu cronfeydd wrth gefn gwasanaethau. Uchafswm y gronfa wrth gefn ar gyfer pob gwasanaeth fyddai 2.5% o gyllideb refeniw net y Gwasanaeth neu £75,000, pa un bynnag yw'r uchaf, a byddai'r cyfraniad blynyddol i gronfa wrth gefn y gwasanaeth neu o'r gronfa yn gysylltiedig â pherfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn h.y. os yw Gwasanaeth yn tanwario yn ystod y flwyddyn yna caniateir iddynt gadw'r tanwariant hyd at lefel y cap a defnyddio'r arian ar gyfer prosiectau gwasanaeth penodol. Fodd bynnag, os yw'r Gwasanaeth yn gorwario yn ystod unrhyw flwyddyn, byddai'r gorwariant yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y Gwasanaeth, er y byddai eitemau eithriadol megis cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau, yn cael eu heithrio o'r cyfrifiad ac yn parhau i gael eu cyllido o'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol.

**5.4** Byddai cyflwyno cronfeydd wrth gefn ar gyfer Gwasanaethau yn rhoi cymhelliad i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod gwariant yn aros o fewn eu cyllideb a byddai'n eu gwneud nhw'n fwy atebol am orwariant gan y byddai'n rhaid ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth neu o gyllidebau refeniw yn y dyfodol.

**5.5** Ar sail alldro 2020/21 a gweithredu'r cap ar lefel cronfeydd wrth gefn, byddai cronfa wrth gefn bob gwasanaeth fel a ganlyn:-

**Tabl 3**
**Lefel Arfaethedig Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau**

| Gwasanaeth | Lefel Arfaethedig y Gronfa Wrth Gefn £ | % o Gyllideb Refeniw Net 2020/21 |
|---|---|---|
| Dysgu (yn cynnwys Diwylliant ond heb gynnwys Ysgolion) | 148,600 | 2.50% |
| Gwasanaethau Oedolion | 177,270 | 0.65% |
| Gwasanaethau Plant | 274,280 | 2.50% |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 381,050 | 2.50% |
| Tai | 36,730 | 3.14% |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (yn cynnwys Morwrol a Hamdden) | 103,290 | 2.50% |
| Trawsnewid (yn cynnwys AD a TGCh) | 124,970 | 2.50% |
| Busnes y Cyngor | 52,770 | 3.27% |
| Adnoddau | 77,070 | 2.43% |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Arfaethedig Gwasanaethau** | **1,376,030** | |

**5.6** Cynigir bod cronfeydd wrth gefn Gwasanaethau'n cael eu defnyddio i :-

1. fynd i'r afael â materion yn ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth;
2. gwella prosesau busnes;
3. cyfarfod â galw ychwanegol am wasanaethau yn 2021/22;
4. cynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol.

**5.7** Ar ôl cymryd i ystyriaeth yr angen i gynnal lefel sylfaenol Balans y Gronfa Gyffredinol ar £9m a defnyddio £1.376m fel cronfeydd wrth gefn Gwasanaethau, byddai hyd yn gadael £1.217m i'w ryddhau i'w ddefnyddio ar brosiectau unwaith ac am byth. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo rhyddhau'r swm hwn i gyllido prosiectau penodol.

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

**6.1** Mae gan y Cyngor Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig er mwyn lliniaru risgiau posibl yn y dyfodol, cwrdd â chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau, cyllido prosiectau cyfalaf yn y dyfodol, cyllido gwelliannau mewn prosesau busnes a darparu gwasanaethau, nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb refeniw flynyddol, ac i ddal grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu gwario, ynghyd â chyfraniadau eraill. Dangosir y cronfeydd wrth gefn newydd a grëwyd yn 2020/21 yn Tabl 4 a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith roi cymeradwyaeth ffurfiol i greu'r cronfeydd wrth gefn newydd hyn sydd werth cyfanswm o £5,181,646. Mae Atodiad 4 yn cynnwys rhestr lawn o'r holl Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig ond maent yn cael eu crynhoi o dan y gwahanol gategorïau yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 4**
**Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Newydd a Grëwyd yn ystod 2020/21**

| Enw'r Cronfa wrth Gefn | Cyfanswm y Gronfa wrth Gefn £ | Rheswm am greu Gronfa wrth Gefn Clustnodedig | Pwrpas y Cronfa wrth Gefn |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant – Cynnydd yn y Galw | 200,000 | Mynd i'r afael â risgiau posibl y dyfodol | Darparu cyllid ychwanegol be bai cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, uwchben y nifer y caniateir amdanynt yn y gyllideb refeniw. |
| Dyfarniad Tâl 2021/22 | 485,850 | I gyllido costau posibl y dyfodol | Bellach, mae'n debygol bydd y dyfarniad tâl yn uwch na'r 1% y caniateir amdano yn y gyllideb refeniw 2021/22. Bydd y gronfa wrth gefn yn cyllido'r costau ychwanegol. |
| Ad-daliad Ffyrlo | 399,114 | I gyllido costau'r dyfodol y gwyddys amdanynt | Defnyddir y gronfa wrth gefn i gwrdd y gost ad-daliad cytunedig i'r Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru. |
| Addysg - Symiau Cyfyngedig | 129,425 | Dim ond at ddiben y cytunwyd arno y gellir ei ddefnyddio | Mae'r cyllid yn cael ei ddal wrth gefn nes y gellir ei ddefnyddio'n unol â'r cytundeb. |
| Covid - Adferiad | 565,420 | Mynd i'r afael â risgiau posibl y dyfodol ac i wella prosesau busnes | Fe ddefnyddir i gyllido prosiectau penodol i ddelio ag adferiad o Covid, gan gynnwys gweithredu ffordd newydd o weithio. |
| Grant Ysgolion Bach a Gwledig | 33,244 | Cyfyngir y defnydd gan amodau'r grant | Clustnodwyd i'w ddefnyddio yn 2021/22, yn unol â gofynion y cynnig grant. |
| Diogelwch Covid yn Ysgolion | 103,426 | Cyfyngir y defnydd gan amodau'r grant | Clustnodwyd i'w ddefnyddio yn 2021/22, yn unol â gofynion y cynnig grant. |
| Grant Coridor Gwyrdd | 85,000 | Cyfyngir y defnydd gan amodau'r grant | Clustnodwyd i'w ddefnyddio yn 2021/22, yn unol â gofynion y cynnig grant. |
| Grant Storm | 186,316 | Cyfyngir y defnydd gan amodau'r grant | Clustnodwyd i'w ddefnyddio yn 2021/22, yn unol â gofynion y cynnig grant. |
| Grant Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | 14,261 | Cyfyngir y defnydd gan amodau'r grant | Clustnodwyd i'w ddefnyddio yn 2021/22, yn unol â gofynion y cynnig grant. |
| Grant Iechyd Cyhoeddus Cymru – Beiciau Seiclo Dan Do | 17,000 | Cyfyngir y defnydd gan amodau'r grant | Clustnodwyd i'w ddefnyddio yn 2021/22, yn unol â gofynion y cynnig grant. |
| Gwywiad Onnen – Grant Cydgysylltydd | 24,775 | Cyfyngir y defnydd gan amodau'r grant | Clustnodwyd i'w ddefnyddio yn 2021/22, yn unol â gofynion y cynnig grant. |
| Grant Diwygiadau Etholiadol | 21,000 | Cyfyngir y defnydd gan amodau'r grant | Clustnodwyd i'w ddefnyddio yn 2021/22, yn unol â gofynion y cynnig grant. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffi Weinyddol Grant Busnes Covid | 319,801 | I gyllido costau posibl y dyfodol | I gyllido adnoddau ychwanegol i ddelio ag ôl-groniad o waith a gododd gan fod angen adnoddau staffio i ddelio â grantiau busnes yn 2020/21. |
| Taliadau Hunan Ynysu | 25,781 | I gyllido costau'r dyfodol y gwyddus amdanynt | I gyllido swydd ychwanegol i ddelio â thaliadau hunan ynysu. Cyfyngir y cyllid i'r pwrpas yma. |
| Trawsnewid Digidol | 581,304 | Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru | Y defnydd i'w bennu yn ddiweddarach. Delir wrth gefn nes cwblheir y cynlluniau. |
| Cefnogaeth i Arbedion | 581,304 | Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru | Y defnydd i'w bennu yn ddiweddarach. Delir wrth gefn nes cwblheir y cynlluniau. |
| Cyllid Caledi Covid – Casglu'r Dreth Gyngor | 768,625 | Mynd i'r afael â risgiau posibl y dyfodol | Bydd yn cwrdd â'r cynnydd a ragwelir yn lefel dyledion y Dreth Gyngor i'w dileu fel rhai na ellir eu casglu. Delir wrth gefn a fe'i rhyddheir i'r cyfrif refeniw yn ôl y gofyn. |
| Gwaith Archeolegol yn Wylfa | 625,000 | I gyllido costau'r dyfodol y gwyddys amdanynt | Cyfyngir y defnydd gan y cytundeb rhwng y Cyngor a Horizon Nuclear Power Wylfa Cyf. |
| Astudiaeth Dichonoldeb – Ysgol Uwchradd Caergybi | 15,000 | I gyllido costau'r dyfodol y gwyddus amdanynt | I gyllido'r cost o asesiad ychwanegol ynglyn â chyflwr y to. |
| **CYFANSWM** | **5,181,646** | | |

**6.2** Mae Atodiad 4 yn nodi'r ymrwymiadau parhaus ar gyfer pob cronfa wrth gefn a glustnodwyd unigol ac mae'n nodi cronfeydd wrth gefn y gellir eu rhyddhau i gyllido gwariant unwaith ac am byth. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo defnyddio £2.254m o gronfeydd wrth gefn heb eu hymrwymo ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

**Tabl 5**
**Crynodeb o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig fel ar 31 Mawrth 2021**

| | Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2021 £ | Cyfraniadau I / (O) yn ystod 2020/21 £ | Balans ar 31 Mawrth 2021 £ |
|---|---|---|---|
| Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Parhaus | 1,979,995 | 265,647 | 2,245,642 |
| Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth Penodol | 1,244,040 | 197,524 | 1,441,564 |
| Cyllido Gwariant Cyfalaf yn y Dyfodol | 1,730,071 | 393,236 | 2,123,307 |
| Gwella Prosesau Busnes | 673,328 | 365,063 | 1,038,391 |
| Cyllidebau Hapddigwyddiadau heb eu defnyddio y mae eu hangen ar gyfer y dyfodol | 382,515 | 330,562 | 713,077 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Dal Grantiau Cyfyngedig | 1,289,957 | 719,684 | 2,009,641 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig Eraill | 648,811 | 180 | 648,991 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Dal Grantiau heb eu Cyfyngu | 0 | 2,276,815 | 2,276,815 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol | 811,438 | 770,981 | 1,582,419 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD** | **8,760,155** | **5,319,692** | **14,079,847** |

## 7. BALANSAU YSGOLION

**7.1** Mae lefel balansau Ysgolion wedi cynyddu o £0.197m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £4.016m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae nifer yr ysgolion sydd â diffyg wedi gostwng o 13 i 3 (1 ysgol gynradd, 1 uwchradd ac un ysgol arbennig). Mae Tabl 5 isod yn crynhoi'r balansau fesul sector:-

**Tabl 6**
**Crynodeb o Falansau Ysgolion**

| Sector | Balans ar 1 Ebrill 2021 £'000 | Symudiad yn ystod y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---:|---:|---:|
| Cynradd | 842 | 1,933 | 2,775 |
| Sefydledig | 132 | 191 | 323 |
| Uwchradd | (693) | 1,670 | 977 |
| Arbennig | (84) | 24 | (60) |
| **CYFANSWM** | **197** | **3,818** | **4,015** |

**7.2** Mae'r cynnydd ym malansau ysgolion yn sylweddol ac mae'n adlewyrchu patrwm y mae awdurdodau lleol eraill yn adrodd yn ei gylch. Y rhesymau am y cynnydd yw:-

**1.** Mae Llywodraeth Cymru'n darparu arian grant ychwanegol i ysgolion yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Bydd yr arian yn caniatáu ysgolion i helpu disgyblion ddal i fyny â'u haddysg yn ystod 2021/22 ac, felly, bydd ysgolion yn defnyddio'r grantiau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**2.** Derbyniodd ysgolion eu cyllidebau datganoledig cyn i'r cyfyngiadau'r cyfnod clo cyntaf gael eu cyflwyno ac o'r herwydd roeddent yn cyllido'r costau a wynebir gan ysgolion yn ystod blwyddyn ysgol arferol. Roedd gostyngiad yn y costau a gafwyd gan ysgolion oherwydd y cyfnodau pan oedd ysgolion ar gau (athrawon llanw, ffioedd arholiad, costau ynni ysgolion, deunyddiau addysgol ac ati). Penderfynwyd peidio ag adennill unrhyw gyllidebau dros ben gan ysgolion ac felly roedd ysgolion wedi tanwario'n sylweddol yn ystod 2020/21, gyda'r tanwariant wedyn yn cael ei drosglwyddo i falansau ysgolion. Bydd yr arian ar gael i ysgolion ei ddefnyddio yn ôl yr angen yn ystod 2020/21.

## 8. BALANS Y CYFRIF REFENIW TAI

**8.1** Balans agoriadol y Cyfrif CRT ar 1 Ebrill 2020 oedd £8.597m. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd gwarged o £8.390m ar weithgareddau refeniw a gwariwyd £7.245m (heb gynnwys grantiau) ar waith cyfalaf a phrynu / datblygu eiddo newydd. Rhydd hyn warged net o £1.145m gan gynyddu balans y Cyfrif CRT i £9.742m. Mae'r balans hwn ar gael i gyllido buddsoddiad yn stoc y CRT yn y dyfodol.

**ATODIAD 2**

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CHYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2021

| 2020/21 | | | Gwasanaethau | Nodyn | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | | | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 |
| 68,950 | (16,017) | 52,933 | Dysgu Gydol Oes | | 73,291 | (15,907) | 57,384 |
| 43,082 | (14,175) | 28,907 | Gwasanaethau Oedolion | | 40,699 | (11,431) | 29,268 |
| 14,914 | (4,141) | 10,773 | Gwasanaethau Plant | | 11,753 | (1,072) | 10,681 |
| 7,372 | (6,091) | 1,281 | Tai | | 5,983 | (4,098) | 1,885 |
| 28,175 | (9,055) | 19,120 | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | 26,793 | (6,390) | 20,403 |
| 13,330 | (8,414) | 4,916 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | | 12,291 | (6,317) | 5,974 |
| 5,754 | (416) | 5,338 | Trawsnewid | | 5,666 | (261) | 5,405 |
| 33,939 | (25,642) | 8,297 | Adnoddau | | 26,947 | (17,679) | 9,268 |
| 1,962 | (333) | 1,629 | Busnes y Cyngor | | 2,245 | (412) | 1,833 |
| 2,146 | (1,792) | 354 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 1,936 | (332) | 1,604 |
| 522 | - | 522 | Rheolaeth Corfforaethol | | 482 | - | 482 |
| 7 | - | 7 | Costau heb eu ddosbarthu | | 418 | - | 418 |
| 12,321 | (19,080) | (6,759) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 12,591 | (18,717) | (6,126) |
| **232,474** | **(105,156)** | **127,318** | **Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau** | | **221,095** | **(82,616)** | **138,479** |
| | | 24,541 | Gwariant gweithredu arall | 12 | | | 23,105 |
| | | 9,333 | Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi | 13a | | | 8,945 |
| | | (171,405) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | 14 | | | (163,380) |
| | | **(10,213)** | **Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **7,149** |
| | | (10,039) | Gwarged ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol | 11c | | | (13,487) |
| | | 44,483 | Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net | 11ch & 41 | | | (19,492) |
| | | **34,444** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(32,979)** |
| | | | | | | | |
| | | **24,231** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(25,830)** |

ATODIAD 3

## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2021

| | Nodyn | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 15 | 431,645 | 414,585 |
| Asedau Treftadaeth | 17 | 2,265 | 3,640 |
| Eiddo Buddsoddi | 18 | 5,619 | 6,189 |
| Asedau Anniriaethol | 19 | 506 | 501 |
| Dyledwyr tymor hir | 24 | 111 | 166 |
| **Asedau tymor hir** | | **440,146** | **425,081** |
| | | | |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | 21 | 461 | 763 |
| Rhestrau stoc | 23 | 339 | 333 |
| Dyledwyr tymor byr | 24 | 36,716 | 32,606 |
| Arian a chywerthoedd arian | 25 | 28,740 | 23,045 |
| **Asedau Cyfredol** | | **66,256** | **56,747** |
| | | | |
| Benthyca tymor byr | 44 | (2,158) | (16,837) |
| Credydwyr tymor byr | 26 | (30,956) | (20,429) |
| Darpariaethau tymor byr | 27 | (363) | (413) |
| Derbyniadau grantiau cyfalaf ymlaen llaw | 37 | (3,509) | (1,993) |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(36,986)** | **(39,672)** |
| | | | |
| Credydwyr tymor hir | 26 | (156) | (159) |
| Darpariaethau tymor hir | 27 | (4,684) | (4,767) |
| Benthyca tymor hir | 44 | (124,258) | (124,424) |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 41 | (176,262) | (124,520) |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **(305,360)** | **(253,870)** |
| | | | |
| **Asedau net** | | **164,056** | **188,286** |
| | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio | MIRS | 40,198 | 25,944 |
| Cronfeydd wrth gefn nad na ellir eu defnyddio | 11 | 123,858 | 162,342 |
| | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | | **164,056** | **188,286** |

## CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG AR 31 MAWRTH 2021

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020 £ | Symudiad yn y Flwyddyn £ | Balans 31 Mawrth 2021 £ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £ | Ar Gael i'w Ddefnyddio £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Risg Gorfforaethol Barhaus | Yswiriant | I dalu am golledion heb eu hyswirio a gormodedd polisi. | Na | 1,250,000 | 0 | 1,250,000 | 1,250,000 | 0 |
| Dysgu | Risg Parhaus i'r Gwasanaeth | Cynllun Salwch Ysgolion Cynradd | Talu cost salwch mewn ysgolion cynradd. Mae pob ysgol sy'n cymryd rhan yn talu premiwm i'r gronfa wrth gefn. | Na | 129,857 | 0 | 129,857 | 129,857 | 0 |
| Eiddo | Risg Parhaus i'r Gwasanaeth | Cynllun Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw Ysgolion Cynradd | Delir balans y cyllid nas defnyddiwyd i gwrdd â chostau uwch posibl yn y dyfodol. | Na | 0 | 25,647 | 25,647 | 25,647 | 0 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Risg Parhaus i'r Gwasanaeth | Cynnal a Chadw'r Gaeaf | I gyllido costau graeanu / llifogydd gormodol yn ystod tywydd garw'r gaeaf. | Na | 54,480 | 40,000 | 94,480 | 94,480 | 0 |
| Gwasanaethau Plant | Risg Parhaus i'r Gwasanaeth | Contractau Staffio Gofal Cymdeithasol | I gyllido costau ychwanegol asiantaethau staffio os oes angen adnoddau staffio ychwanegol ar gyfer cynnydd yn y nifer. | Na | 271,714 | 0 | 271,714 | 271,714 | 0 |
| Gwasanaethau Dysgu a Phlant | Risg Parhaus i'r Gwasanaeth | Cronfa wrth Gefn Cyllido ar y Cyd | Yn cwmpasu'r posibilrwydd o golli incwm gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n cyllido ar y cyd. Ni ellir ei gynnwys fel rhan o'r ddarpariaeth dyledion drwg. | Na | 180,795 | 0 | 180,795 | 180,795 | 0 |
| Gwasanaethau Plant | Risg Parhaus i'r Gwasanaeth | Galw Cynyddol am y Gwasanaethau Plant | Darparu cyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant pe bai cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn unrhyw flwyddyn. | Yndi | 0 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 0 |

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020 £ | Symudiad yn y Flwyddyn £ | Balans 31 Mawrth 2021 £ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £ | Ar Gael i'w Ddefnyddio £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu | Risg Parhaus i'r Gwasanaeth | Gwarchodfa Cau Ysgolion | I gyllido y gost o adeiladau gwag / costau sefydlu ysgolion newydd. | Na | 93,149 | 0 | 93,149 | 93,149 | 0 |
| **CYFANSWM Y RISGIAU CORFFORAETHOL A GWASANAETH PARHAUS** | | | | | **1,979,995** | **265,647** | **2,245,642** | **2,245,642** | **0** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Risg Gwasanaeth Penodol | Parc Adfer | I gyllido unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o brosiect Parc Adfer. Trosglwyddwyd y balans yn y flwyddyn i Gronfa wrth Gefn Adfer Covid (£250k) ac i'r Gronfa Wrth Gefn Cyfraniadau Refeniw heb eu cymhwyso (£661k). | Na | 911,190 | (911,190) | 0 | 0 | 0 |
| Dysgu | Risg Gwasanaeth Penodol | Rhesymoli Ysgolion | Cwrdd â chostau ychwanegol sy'n deillio o foderneiddio ysgolion, gan gynnwys costau diswyddo. | Na | 35,756 | 266,190 | 301,946 | 301,946 | 0 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Risg Gwasanaeth Penodol | Cynllun Datblygu Lleol | Cyllido costau ychwanegol o gynhyrchu'r cynllun datblygu nesaf. | Na | 167,517 | (14,820) | 152,697 | 152,697 | 0 |
| Corfforaethol | Risg Corfforaethol Penodol | Cyflog Cyfartal | Cyllido cost unrhyw geisiadau sy'n weddill, gan gynnwys ffioedd cyfreithiol a ffioedd proffesiynol eraill. | Na | 50,000 | (2,988) | 47,012 | 47,012 | 0 |
| Corfforaethol | Risg Corfforaethol Penodol | Dyfarniad Tâl | Cwrdd â chost y dyfarniad tâl uwchlaw'r swm y caniateir ar ei gyfer yng nghyllideb 2021/22. | Yndi | 0 | 485,850 | 485,850 | 485,850 | 0 |
| Dysgu | Risg Gwasanaeth Penodol | Ad-daliad Ffyrlo | Cwrdd â chost ad-daliad y cytunwyd arno i Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru sy'n deillio o ffyrlo staff arlwyo. | Yndi | 0 | 399,114 | 399,114 | 399,114 | 0 |

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020<br>£ | Symudiad yn y Flwyddyn<br>£ | Balans 31 Mawrth 2021<br>£ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol<br>£ | Ar Gael i'w Ddefnyddio<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Risg Gwasanaeth Penodol | Costau Cyfreithiol Cynllunio | Cwrdd â chost ffioedd cyfreithiol ar apêl cynllunio. Mae'r achos bellach wedi cau ac mae'r balans wedi'i drosglwyddo'n ôl i falans y gronfa gyffredinol, | Na | 22,375 | (22,375) | 0 | 0 | 0 |
| Dysgu | Risg Gwasanaeth Penodol | Melin Llynnon | Cyllido cost gwaith adfer i'r Felin. | Na | 57,202 | (2,257) | 54,945 | 54,945 | 0 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD RISG CORFFORAETHOL A GWASANAETH PENODOL** | | | | | **1,244,040** | **197,524** | **1,441,564** | **1,441,564** | **0** |
| Corfforaethol | Gwariant Cyfalaf y Dyfodol | Cyfraniadau Refeniw heb eu cymhwyso | Fe'i defnyddir fel ffynhonnell cyllid cyfalaf yn ôl yr angen. | Na | 842,917 | 363,811 | 1,206,728 | 1,206,728 | 0 |
| Dysgu | Gwariant Cyfalaf y Dyfodol | Addysg – Symiau cyfyngedig | Symiau clustnodedig gan ddatblygwyr. Fe'i defnyddir yn unol â'r cytundeb. | Yndi | 0 | 129,425 | 129,425 | 129,425 | 0 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Gwariant Cyfalaf y Dyfodol | Cyfraniad Datblygwr – Priffyrdd | Symiau clustnodedig gan ddatblygwyr. Fe'i defnyddir yn unol â'r cytundeb. | Na | 25,000 | 0 | 25,000 | 25,000 | 0 |
| Rheoleiddio a Dat Econ | Gwariant Cyfalaf y Dyfodol | Ailbeintio Pier Biwmares | Cyllido'n rhannol y gost o ailbeintio'r pier. | Na | 100,000 | (100,000) | 0 | 0 | 0 |
| Rheoleiddio ac Dat Econ | Gwariant Cyfalaf y Dyfodol | Hamdden (Hawliad TAW) | Cyllido buddsoddiad cyfalaf mewn Canolfannau Hamdden yn y dyfodol. | Na | 762,154 | 0 | 762,154 | 762,154 | 0 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD GWARIANT CYFALAF Y DYFODOL WRTH GEFN** | | | | | **1,730,071** | **393,236** | **2,123,307** | **2,123,307** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| Corfforaethol | Gwelliannau i'r Broses Fusnes | Cost Newid | Cronfa wrth gefn gyffredinol sydd wedi cyllido prosesau gwella busnes. | Na | 231,828 | 0 | 231,828 | 0 | 231,828 |
| Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Gwelliannau i'r Broses Fusnes | Trawsnewid Gwasanaethau | Cyllid ar gyfer prosiectau trawsnewidiol yn gwasanaethau cymdeithasol. | Na | 32,525 | 0 | 32,525 | 0 | 32,525 |

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020 £ | Symudiad yn y Flwyddyn £ | Balans 31 Mawrth 2021 £ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £ | Ar Gael i'w Ddefnyddio £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Gwelliannau i'r Broses Fusnes | Uwchraddio'r system Refeniw a Budd-daliadau | Gwelliannau cyllido i systemau casglu incwm corfforaethol. | Na | 24,762 | 0 | 24,762 | 24,762 | 0 |
| Corfforaethol | Gwelliannau i'r Broses Fusnes | Buddsoddi i Arbed | Balans y £1m a ddyrannwyd yn 2016/17 i gyllido prosiectau penodol. Balans nas defnyddiwyd - CRM £47k, System Gynllunio £8k, Systemau arian parod £25k, Gwefan Oriel £11k, Staff TG dros dro £47k, System Diogelu'r Cyhoedd £45k. | Na | 312,118 | (128,262) | 183,856 | 138,856 | 45,000 |
| Corfforaethol | Gwelliannau i'r Broses Fusnes | Adfer Covid | £115k o gyllidebau teithio nas defnyddiwyd yn 2020/21, £250k o Barc Adfer, £200k o Cyfraniadau Refeniw heb eu cymhwyso. | Yndi | 0 | 565,420 | 565,420 | 0 | 565,420 |
| Dysgu | Gwelliannau i'r Broses Fusnes | Prydau Ysgol am Ddim | Balans grant oedd i'w ddefnyddio i wella'r system incwm prydau ysgol. Nid oes ei angen mwyach ac mae'r balans wedi'i drosglwyddo i falansau'r Gronfa Gyffredinol. | Na | 72,095 | (72,095) | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD GWELLA BUSNES WRTH GEFN** | | | | | **673,328** | **365,063** | **1,038,391** | **163,618** | **874,773** |
| | | | | | | | | | |
| Tai | Cyllidebau Wrth Gefn nas defnyddiwyd | Tai Fforddiadwy | Balans y premiwm ail gartref a chartrefi gwag nad defnyddiwyd. | Na | 250,643 | 203,024 | 453,667 | 453,667 | 0 |

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020 £ | Symudiad yn y Flwyddyn £ | Balans 31 Mawrth 2021 £ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £ | Ar Gael i'w Ddefnyddio £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Cyllidebau Wrth Gefn nas defnyddiwyd | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig | Balans y cyllidebau corfforaethol nas defnyddiwyd sy'n ofynnol fel cyfraniad i brosiect STEM a Bid Twf Gogledd Cymru. | Na | 131,872 | 127,538 | 259,410 | 259,410 | 0 |
| **CYFANSWM CYLLIDEBAU WRTH GEFN NAS DEFNYDDIWYD** | | | | | **382,515** | **330,562** | **713,077** | **713,077** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Cronfa wrth Gefn Gwastraff / Ailgylchu | Disodlwyd y gyllideb graidd gan Grant Economi Cylchol. Rhoddwyd yr arbedion cyllideb craidd wrth gefn i dalu am brosiectau gwyrdd. | Na | 250,000 | 250,000 | 500,000 | 0 | 500,000 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Priffordd Maes Awyr | Grant Maes Awyr Môn nad defnyddiwyd. | Na | 40,433 | 29,085 | 69,518 | 69,518 | 0 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Cronfa wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd - Grant Llifogydd | Grant llifogydd nas defnyddiwyd - gellir ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol neu i gyllido costau refeniw. Angen holi'r Gwasanaeth. | Na | 36,473 | 0 | 36,473 | 36,473 | 0 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Cronfa wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Llwybr yr Arfordir | Grant nas defnyddiwyd. Nid oes ei angen mwyach. Balans wedi'i drosglwyddo i falansau cyffredinol. | Na | 7,575 | (7,575) | 0 | 0 | 0 |
| Trawsnewid | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | SCWDP | Grant nas defnyddiwyd. | Na | 28,249 | (22,653) | 5,596 | 5,596 | 0 |

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020 £ | Symudiad yn y Flwyddyn £ | Balans 31 Mawrth 2021 £ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £ | Ar Gael i'w Ddefnyddio £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Gweinyddu Cefnogi Pobl | Grant nas defnyddiwyd sy'n cyllido costau staffio ychwanegol cefnogi pobl nad ydynt yn dod o dan y grant. | Na | 705,827 | (146,338) | 559,489 | 559,489 | 0 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Isadeiledd Safleoedd Bysiau | Grant nas defnyddiwyd. | Na | 48,657 | 37,014 | 85,671 | 85,671 | 0 |
| Dysgu | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Grantiau Ysgolion Bach a Gwledig | Grant nas defnyddiwyd - i'w ddefnyddio'n 2021/22. | Yndi | 0 | 33,244 | 33,244 | 33,244 | 0 |
| Dysgu | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Diogelwch Covid mewn Ysgolion | Grant nas defnyddiwyd - i'w ddefnyddio'n 2021/22. | Yndi | 0 | 103,426 | 103,426 | 103,426 | 0 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Coridor Gwyrdd | Grant nas defnyddiwyd - i'w ddefnyddio'n 2021/22. | Yndi | 0 | 85,000 | 85,000 | 85,000 | 0 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Grant Storm | Grant nas defnyddiwyd - i'w ddefnyddio'n 2021/22. | Yndi | 0 | 186,316 | 186,316 | 186,316 | 0 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Grant Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Grant nas defnyddiwyd - i'w ddefnyddio'n 2021/22. | Yndi | 0 | 14,261 | 14,261 | 14,261 | 0 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Grant Iechyd Cyhoeddus Cymru - Beiciau Seiclo Dan Do | Grant nas defnyddiwyd - i'w ddefnyddio'n 2021/22. | Yndi | 0 | 17,000 | 17,000 | 17,000 | 0 |

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020 £ | Symudiad yn y Flwyddyn £ | Balans 31 Mawrth 2021 £ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £ | Ar Gael i'w Ddefnyddio £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Cydlynydd Clefyd Coed Ynn | Grant nas defnyddiwyd - i'w ddefnyddio'n 2021/22. | Yndi | 0 | 24,775 | 24,775 | 24,775 | 0 |
| Busnes y Cyngor | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | Diwygio | Grant nas defnyddiwyd - i'w ddefnyddio'n 2021/22. | Yndi | 0 | 21,000 | 21,000 | 21,000 | 0 |
| Dysgu | Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig ar gyfer Dal Grant | TRAC | Grant nas defnyddiwyd. | Na | 172,743 | 95,129 | 267,872 | 267,872 | 0 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG AR GYFER DAL GRANT** | | | | | **1,289,957** | **719,684** | **2,009,641** | **1,509,641** | **500,000** |
| | | | | | | | | | |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd Cyfyngedig Arall | Incwm y Broses Ailgylchu | Amod y SWMG bod incwm o ailgylchu yn cael ei ddefnyddio i gyllido costau / prosiectau ailgylchu. Dyma falans yr incwm nas defnyddiwyd. Mae angen i'r gwasanaeth benderfynu sut i'w ddefnyddio. | Na | 635,130 | 0 | 635,130 | 635,130 | 0 |
| Dysgu | Cronfeydd Cyfyngedig Arall | Amgueddfa - Cronfa Prynu | Rhoddion i'r Oriel i brynu eitemau newydd. Ddim ar gael i gyllido gwariant y Cyngor. | Na | 7,121 | 180 | 7,301 | 7,301 | 0 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd Cyfyngedig Arall | Ffioedd Corff Cymeradwyo Cynaliadwy (SAB) | Ffioedd o geisiadau cynllunio i'w ddefnyddio i gyllido costau yn y dyfodol mewn perthynas â'r ceisiadau. | Na | 6,560 | 0 | 6,560 | 6,560 | 0 |
| **CYFANSWM GRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG ARALL** | | | | | **648,811** | **180** | **648,991** | **648,991** | **0** |

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020<br>£ | Symudiad yn y Flwyddyn<br>£ | Balans 31 Mawrth 2021<br>£ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol<br>£ | Ar Gael i'w Ddefnyddio<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau a Rheoleiddio ac Dat Econ | Cronfeydd Wrth Gefn Anghyfyngedig Dal Grant | Ffi Gweinyddu Grant Busines Covid | Balans Grant gan Lywodraeth Cymru i dalu'r costau ychwanegol o brosesu Grantiau Busnes Covid. Defnyddir i gyllido adnoddau ychwanegol i ddelio ag ôl-groniad o waith. | Yndi | 0 | 319,801 | 319,801 | 319,801 | 0 |
| Adnoddau | Cronfeydd Wrth Gefn Anghyfyngedig Dal Grant | Ffi Gweinyddu Taliadau Hunanynysu | Grant gan Lywodraeth Cymru i dalu am gost prosesu taliadau hunanynysu. Ar hyn o bryd mae'n cyllido aelod ychwanegol o staff. | Yndi | 0 | 25,781 | 25,781 | 25,781 | 0 |
| Corfforaethol | Cronfeydd Wrth Gefn Anghyfyngedig Dal Grant | Trawsnewid Digidol | Grant gan Lywodraeth Cymru i gyllido prosiectau i wella trawsnewid digidol. | Yndi | 0 | 581,304 | 581,304 | 300,000 | 281,304 |
| Corfforaethol | Cronfeydd Wrth Gefn Anghyfyngedig Dal Grant | Cefnogaeth ar gyfer Arbedion | Grant gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyllido unrhyw ddiffygion yn y gyllideb sy'n deillio o'r anawsterau a wynebir gan Gynghorau yn 2020/21 i weithredu arbedion cyllidebol arfaethedig. | Yndi | 0 | 581,304 | 581,304 | 0 | 581,304 |
| Corfforaethol | Cronfeydd Wrth Gefn Anghyfyngedig Dal Grant | Cronfa Caledi Covid - Casglu'r Dreth Gyngor | Grant gan Lywodraeth Cymru i dalu am golled yn incwm y Dreth Gyngor oherwydd cynnydd posibl yng ngwerth dyledion sy'n gorfod cael eu dileu o ganlyniad i Covid. | Yndi | 0 | 768,625 | 768,625 | 768,625 | 0 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN ANGHYFYNGEDIG DAL GRANT** | | | | | **0** | **2,276,815** | **2,276,815** | **1,414,207** | **862,608** |

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020 £ | Symudiad yn y Flwyddyn £ | Balans 31 Mawrth 2021 £ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol £ | Ar Gael i'w Ddefnyddio £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol | Cronfa wrth Gefn Trwyddedau | I gyllido meddalwedd trwyddedu newydd ond ni nodwyd unrhyw feddalwedd priodol. | Na | 16,570 | 0 | 16,570 | 0 | 16,570 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol | Cronfa wrth Gefn Ynys Ynni | I gyllido asesu a chefnogi unrhyw ddatblygiadau Ynys Ynni yn y dyfodol. | Na | 85,936 | 93,951 | 179,887 | 179,887 | 0 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol | Cronfa wrth Gefn Datblygiadau Mawr | Dyma balans y cyllid derbyniwyd mewn perthynas ag amser Prif Swyddogion drwy'r PPA. | Na | 197,352 | (20,000) | 177,352 | 177,352 | 0 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol | Datblygiadau Mawr – Ffioedd Cynllunio | Dyma'r ffioedd cynllunio ychwanegol o ddatblygiadau mawr, a fyddai wedi cyllido'r gost o ddelio â'r ceisiadau yn y dyfodol. | Na | 392,456 | 0 | 392,456 | 392,456 | 0 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol | Gwaith Archeolegol yn Wylfa | Cyfraniad terfynol gan Horizon i gyllido gwaith yn y dyfodol. | Yndi | 0 | 625,000 | 625,000 | 625,000 | 0 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol | Astudiaeth Ddichonoldeb – Ysgol Uwchradd Caergybi | I gyllido'r gost o asesiad pellach o cyflwr y to yn Ysgol Uwchradd Caergybi. | Yndi | 0 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 0 |

| Gwasanaeth | Categori | Cronfa Wrth Gefn | Disgrifiad | Newydd yn 2020/21 | Balans 1 Ebrill 2020<br><br>£ | Symudiad yn y Flwyddyn<br><br>£ | Balans 31 Mawrth 2021<br><br>£ | Ymroddedig / Gofynnol ar gyfer Risgiau Posibl yn y Dyfodol<br>£ | Ar Gael i'w Ddefnyddio<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol | Model Rhagfynegi Dŵr Ymdrochi | Talu am y gost o gynnal a chadw'r offer monitro. | Na | 9,725 | 0 | 9,725 | 9,725 | 0 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Prosiectau Penodol yn y Dyfodol | Gallu a Chapasiti Cynllunio | Mae'n rhaid ailfuddsoddi canran o ffioedd cynllunio i mewn i'r gwasanaeth cynllunio. | Na | 109,399 | 57,030 | 166,429 | 166,429 | 0 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD AR GYFER PROSIECTAU PENODOL YN Y DYFODOL** | | | | | **811,438** | **770,981** | **1,582,419** | **1,565,849** | **16,570** |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG** | | | | | **8,760,155** | **5,319,692** | **14,079,847** | **11,825,896** | **2,253,951** |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **12 Gorffennaf 2021** |
| Pwnc / Testun: | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Llinos Medi** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Iola Richards, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Oedolion** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Emma Edwards**<br>**01248 751887**<br>**emmaedwards@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Derbyn a gwneud awgrymiadau ar yr adroddiad drafft terfynol a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd am y perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Unwaith eto mae trosolwg o'n hymateb COVID-19 wedi'i gynnwys. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r ffocws ar gyfer gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Sylwch y bydd yr adroddiad terfynol, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn dilyn fformat cyfarwydd i flynyddoedd blaenorol, fel y'i dyluniwyd gan ein Dylunydd Graffig a'n Swyddog Marchnata Digidol.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Sylwch os gwelwch yn dda fod yr adroddiad yn ofyniad statudol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac felly mae'n ofyniad gorfodol.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gadarnhau bod yr adroddiad yn adlewyrchiad cywir o effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2020/21.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| **Ydyw** |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| **Ydyw** |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â nifer o brosiectau cyfredol ac yn y dyfodol a fydd yn cefnogi'r cyngor yn ei waith i ddiogelu dinasyddion Ynys Môn yn unol ag amcanion y Cyngor. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Mae pennawd pennod benodol mewn perthynas ag atebolrwydd ariannol tuag at ddiwedd yr adroddiad. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Rydym wedi mynd i'r afael â'n gwaith partneriaeth a rhoi sylwadau arno trwy gydol yr adroddiad. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Rydym wedi cynnwys yr adborth gan Ddinasyddion Ynys Môn trwy gydol yr Adroddiad. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Amherthnasol - Bydd adroddiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cymeradwywyd gan yr UDA ar ddydd Llun 21 Mehefin 2021. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Bydd yr Adroddiad yn cael ei ystyried gan Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 8 Gorffennaf 2021. |
| 9 | Aelodau Lleol | Bydd yr Adroddiad yn cael ei rannu yn ei fformat terfynol gyda'r Cyngor Llawn - dyddiad i’w drefnu. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| ACRF 110521 EJE Eng V0.16 (1) - Cymr |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Gellir gweld adroddiadau blaenorol ar Wefan y Cyngor. |

**DRAFFT V0.16**
**11/06/21**

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-20

DRAFT

# Cynnwys


- Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Grynodeb o'r Perfformiad
- Y Sefyllfa Ddiweddaraf ynghylch COVID-19
- Sut mae pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?
- Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y dymuna pobl eu cyflawni
- Safon Ansawdd 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles emosiynol ac iechyd corfforol a meddyliol pobl
- Safon Ansawdd 3 – Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
- Safon Ansawdd 4 – Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
- Safon Ansawdd 5 -Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach
- Safon Ansawdd 6- Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael lles economaidd gwell, bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u gofynion.
- Ein gweithlu a sut y Cefnogwn eu Rolau Proffesiynol
- Ein hadnoddau Ariannol a Sut y Cynlluniwn am y Dyfodol
- Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd


Rhydd y ddogfen hon grynodeb o'n hunanasesiad blynyddol. Credwn ei bod yn amlinellu rhai o'n cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â thynnu sylw at yr heriau y mae angen rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

Croesawn unrhyw sylw ar fformat a chynnwys yr adroddiad hwn er mwyn cynorthwyo ein taith gwella.

DRAFT

<table>
<tr><th colspan="6">Ein Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-20</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfanswm Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw<br><br>£37,733,230</td><td colspan="2">Cyllideb y Gwasanaethau Oedolion yw<br>£26,771,630</td><td colspan="2">Cyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>yw £10,961,600</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfanswm y cyllid grant<br><br>£6.8m</td><td colspan="2">Rydym yn cyflogi 683 o bobl</td><td colspan="2">Mae 83% o’n gweithwyr yn siarad Cymraeg (L3 neu uwch)</td></tr>
<tr><th colspan="6">Pwy ydym wedi’u Helpu a’u Cefnogi</th></tr>
<tr><td colspan="3">3,084 cysylltiad ag Oedolion</td><td colspan="3">3,843 cysylltiad â Phlant a’u Teuluoedd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae 823 o<br>oedolion yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth</td><td colspan="2">Mae 897 o<br>oedolion yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth</td><td colspan="2">Mae TBC o<br>blant yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae 200 o blant unigol yn derbyn Gofal</td><td colspan="2">Mae 162 o blant unigol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (68 ar ddiwedd y flwyddyn. 77 yw cyfartaledd nifer y plant ar y gofrestr trwy gydol y flwyddyn)</td><td colspan="2">372 o ofalwyr<br>wedi’u hasesu yn ystod y flwyddyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">61 o Ofalwyr Maeth mewn 35 o Gartrefi</td><td colspan="2">285 o ddefnyddwyr System Gwybodaeth Gofal Cyfathrebu Cymru (yr WCCIS)</td><td colspan="2">93 o Ofalwyr Ifanc yn cael cefnogaeth Gweithredu dros Blant</td></tr>
</table>

DRAFT

**Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Grynodeb o'r Perfformiad**

Croeso i fy ail adroddiad yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn.

Heb amheuaeth mae'n rhaid i 2020/21 fod wedi bod yn un o'r blynyddoedd mwyaf heriol i fod yn gweithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd pandemig Covid-19 ledled y byd. Rwy'n hynod falch o waith tîm fy staff, ynghyd â chydweithwyr mewnol eraill o'n Hawdurdod, a'n sefydliadau partner wrth ymateb i'r heriau beunyddiol y maent wedi'u hwynebu i gadw pobl Ynys Môn yn ddiogel yn ystod y cyfnod hwn. Hoffwn ddiolch o galon i bawb sy'n ymwneud â'r ymateb i'r pandemig ar Ynys Môn.

Roedd ymdrechion aruthrol ein gweithwyr gofal rheng flaen yn ein cartrefi gofal a'n timau gofal cartref, mewn lleoliadau mewnol ac allanol, yn rhyfeddol ac rwy'n falch o fyfyrio ar lawer o straeon cadarnhaol ynghylch eu hymroddiad a'u hymrwymiad i'w gweithleoedd a'u cleientiaid yn ystod y cyfnod annisgwyl hwn. Roeddynt yn aml yn gweithio shifftiau estynedig ac yn mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau gofynnol.

Wrth ymateb I'r argyfwng Covid, mae'n bleser gennyf gadarnhau ein bod wedi parhau â'n taith gwella. Wrth i chi ddarllen trwy'r adroddiad, fe welwch enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda'n cydweithwyr Addysg ac ysgolion lleol a hefyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ogystal ag arferion gwaith arloesol a ddatblygwyd yn bennaf oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Mae'n braf, hefyd, cael nodi bod ein sefyllfa ariannol wedi gwella llawer yn ystod 2020/21, gyda'r ddau wasanaeth yn tanwario ar y gyllideb - cyfanswm o £891K. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y flwyddyn wedi bod yn unigryw, oherwydd amryw grantiau ychwanegol a dderbyniwyd. Mae modd gweld rhagor o fanylion am ein Hadnoddau Ariannol tua diwedd fy adroddiad.

Unwaith eto, diolch o galon i bawb a weithiodd yn anhygoel o galed yn ystod 2021/21 ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi i gyd wrth i ni symud i mewn i 2021/22.

Diolch

**Fôn Roberts,**
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

DRAFT



DRAFT

## Pandemig Coronafeirws-19 (COVID-19)

Mae pandemig COVID-19 ledled y byd wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gweithio ers diwedd mis Chwefror 2020, gyda chynlluniau Rheoli Parhad Busnes a Chorfforaethol yn eu lle yn dilyn canllawiau cenedlaethol ac oherwydd effaith COVID-19 ganol mis Mawrth 2020. Ers hynny rydym wedi bod trwy nifer o gyfnodau clo cenedlaethol yn ystod 2020-2021 i gynorthwyo i reoli ymlediad Covid-19 a chyfyngu arno.

Ymgymerodd y Cyngor â'r tasgau a ganlyn:

- Defnyddio pwerau a chyllidebau stad o argyfwng
- Parhau gyda'r Tîm Rheoli Ymateb i Argyfyngau, wrth reoli busnes yn ôl yr arfer a pharatoi ar gyfer cam llacio'r cyfnodau clo a'r cam adfer
- Paratoi Adroddiadau Dyddiol ac Wythnosol ar y Sefyllfa yn crynhoi penderfyniadau, materion a risgiau allweddol
- Cyfathrebu'n ddyddiol yn fewnol gyda'r Aelodau a'r staff ac yn allanol trwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol
- Adolygu cofrestr risg ffurfiol COVID-19 a'i diweddaru bob wythnos

Defnyddiwyd pwerau dirprwyedig brys oedd yn ei gwneud yn bosib i'r Cyngor wneud penderfyniadau hanfodol. Arweiniodd hyn at fwyafrif Staff y Cyngor yn gweithio o gartref lle bo hynny'n bosibl, cau adeilad ein Cyngor i ymwelwyr, cau ein canolfannau dydd anabledd dysgu, gwahardd ymwelwyr nad oedd yn hanfodol rhag mynd i gartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio a gostyngiad yn ein gwasanaethau.

Yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 rydym wedi parhau i:

- Gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Darparwyr a chydweithwyr yn Nhîm Cydnerthu Gogledd Cymru, yn ogystal â llawer o rai eraill.
- Parhau i gadw storfa PPE Covid-19 i reoli PPE a ddanfonir gan Lywodraeth Cymru ar draws yr ynys ac a reolir o fewn adnoddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cefnogi'r broses cyfeirio profion COVID cenedlaethol.
- Addasu a defnyddio arferion gwaith arloesol i addasu i'r cyfnod pandemig er mwyn hwyluso cyswllt, asesiadau ac adolygiadau, gan sicrhau y cyflawnir ein dyletswyddau diogelu.
- Parhau i gydymffurfio ag achosion Llys a Chynllunio Gofal.
- Parhau i recriwtio Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol.
- Mae'r Cyngor wedi cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chyflwyno'r Brechlyn Rhanbarthol ledled y Sir, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

DRAFT




Ar hyn o bryd mae 36 o Dimau Cymorth Ardal ar Ynys Môn gyda 466 o wirfoddolwyr gweithredol. Mae’r ffigurau wythnosol diweddaraf yn dangos eu bod wedi cyflawni cyfanswm o 564 ‘tro da’ â 595 o bobl.

Ers dechrau'r pandemig Covid-19 mae'r Timau Cymorth Ardal yn amcangyfrif eu bod wedi gwneud 10,056 ‘tro da’ â 1,680 o bobl

DRAFT

## Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

Yr agenda Lles yw canolbwynt ein holl waith - rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan weithio gyda theuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau gwell canlyniadau i bawb. Rydym yn parhau i ymdrechu i gael rhagoriaeth

Unwaith eto, yn y ddogfen hon, byddwn yn adrodd yn erbyn pedair egwyddor y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - lles, pobl (llais a rheolaeth), partneriaeth, ac integreiddio ac atal.

Er gwaethaf pandemig Covid-19 a’r heriau ariannol bythol gynyddol a wynebwyd, rydym wedi parhau i wneud cynnydd yn 2019-20, er yn arafach oherwydd pwysau’r pandemig.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod â chyswllt rheolaidd â chydweithwyr **Arolygiaeth Gofal Cymru,** yr ydym wedi gweithio'n agos gyda nhw trwy gydol y pandemig, i sicrhau lles a diogelwch dinasyddion Ynys Môn. Ar ben hynny, rydym wedi bod yn paratoi am arolwg gan yr Arolygiaeth ar draws y gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o'u hamserlen gynlluniedig, rhywbeth sy’n debygol o ddigwydd yn chwarter un, blwyddyn ariannol 2021-22.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelsom Fframwaith Perfformiad ac Adrodd Gwasanaethau Cymdeithasol newydd Llywodraeth Cymru. Yn arwain at weithredu'r set ddata ddiwygiedig, mae ein staff perfformiad wedi bod yn gweithio gyda'r Is-grŵp Adrodd Cenedlaethol, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, i ddatblygu Mesurau Perfformiad newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Daeth y mesurau hyn i rym yn gynnar yn 2020, er na chwblhawyd y Canllawiau oherwydd dechrau Covid-19. Mae Ynys Môn, fel llawer o gynghorau eraill, wedi addasu i'r mesurau newydd hyn, gan wneud newidiadau sylweddol, fel bod modd casglu data o ffurflenni a modiwlau yn ein system Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Mae'r mesurau newydd wedi'u rhannu'n saith is-bwnc megis Cysylltiadau, Cynlluniau, Diogelu ac eraill. Mae'r newidiadau hyn wedi cynyddu galw sylweddol ar y Gwasanaeth gyda nifer gynyddol o fetrigau o'i gymharu â'r model blaenorol. Bydd y gwaith a gwblhawyd wrth ddyfeisio'r metrigau newydd, ynghyd â chasglu, yn rhoi i randdeiliaid ddarlun llawer manylach o'r galw gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Gymuned a'r effaith y maent yn ei chael arni.

**Cwynion, sylwadau cadarnhaol a negyddol -** Rydym wedi parhau i weithredu Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol trwy gydol cyfnod y pandemig.

Rydym wedi parhau i roi pwyslais ar ddatrys pryderon yn gyflym lle bo hynny'n bosibl. Mae nifer y cwynion Cam 1 ffurfiol a gofnodwyd (24) yn ystod y flwyddyn wedi bod yn is nag y bu am y deg mlynedd blaenorol. Mae nifer gyffredinol y sylwadau / pryderon negyddol a gofnodwyd (50) hefyd wedi bod yn is na'r flwyddyn flaenorol. Bu i ni ymdrin â chwe chŵyn Cam 2 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd), nifer gyffredinol isaf y cwynion Cam 2 mewn tair blynedd. Mae adroddiad cwynion blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol, ‘Gwrando ar
Gwynion a Dysgu ohonynt’, yn cynnwys manylion pellach am yr adborth negyddol a chadarnhaol a gafwyd.

DRAFT

Rydym wedi parhau i dderbyn nifer fawr o sylwadau cadarnhaol (200 wedi'u cofnodi yn ystod y flwyddyn) am wasanaethau a ddarperir, gan ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill.

**Mwy Na Geiriau –** Yn ystod 2020-21 rydym wedi:

- Cynnal cyflwyniadau ynghylch gweithredu'r Safonau Cymraeg, a chyfathrebu a gofal cwsmer (gan gynnwys y gofyn i gynnig yn rhagweithiol wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl gwsmeriaid) wedi'u cyflwyno mewn cynadleddau staff.
- Mae gwaith codi ymwybyddiaeth o 'Mwy na Geiriau' a Safonau'r Iaith Gymraeg yn parhau i fod yn elfen ofynnol o holl sesiynau cynefino staff adrannol.
- Anfon nodyn atgoffa ysgrifenedig at bob aelod o staff ar y system e-bost yn eu hatgoffa o bwysigrwydd ateb ffonau yn ddwyieithog.
- Datblygu ffyrdd o fonitro gwaith cofnodi'r Cynnig Gweithredol a dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth trwy olrhain ystadegau o'r system cofnodi achosion electronig, er mwyn monitro perfformiad mewn perthynas â chofnodi hyn.
- Parhau i annog staff sy'n dysgu Cymraeg i gymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol er mwyn datblygu eu sgiliau iaith

Roedd dyraniad **Cronfa Gofal Integredig** Llywodraeth Cymru ar gyfer Ynys Môn dros £3m yn ystod y flwyddyn, ac wrth i chi ddarllen yr adroddiad hwn, dewch ar draws enghreifftiau o sut rydym wedi defnyddio'r arian i ddatblygu mentrau newydd ac integreiddio ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol gyda sefydliadau partner eraill, er budd trigolion yr Ynys. Yn ogystal, cawsom oddeutu £500,000 o'r cynllun **Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu**. Defnyddiwyd yr arian i gefnogi unigolion yn y gymuned trwy gynyddu capasiti ein gwasanaeth/gweithiwr cam-drin domestig oherwydd y cynnydd uchel mewn cyfeiriadau; i sefydlu gwasanaeth prydau bwyd - prosiect "Neges" oedd mewn partneriaeth â rhai bwytai lleol i wneud yn siŵr bod pob unigolyn bregus yn ein cymunedau'n gallu cael pryd poeth pob dydd. Defnyddiwyd cyllid arall er mwyn i unigolion hŷn gael cymorth wrth gael at eu HYB cymunedol yn rhithwir.

Mae'r **rhaglen Llunio Lle**, mewn partneriaeth â Medrwn Môn, wedi parhau trwy gydol y pandemig. Rhaglen ymgysylltu â'r gymuned yw hon sy'n rhoi cyfleoedd i'r gymuned nodi eu blaenoriaethau cymunedol, mapio asedau lleol a datblygu gweledigaeth gymunedol. Gyda chymorth Medrwn Môn rydym yn sefydlu cynghreiriau lleol yn y gymuned i yrru'r weledigaeth leol yn ei blaen. Rydym wedi llwyddo i wneud cryn dipyn o fapio yn ystod y pandemig ac wedi defnyddio *zoom* i ennyn diddordeb grwpiau o bobl mewn ardaloedd penodol. Rydym wedi llwyddo i gyrraedd y pwynt lle rydyn ni bron yn barod i dynnu cynghreiriau at ei gilydd yn Llifon, Aethwy a Lligwy. Rydym hefyd wedi sefydlu Cynlluniau Tro Da yn y meysydd hyn.

Ailbroffiliwyd arian yr Ymddiriedolaeth Elusennol ar gyfer Llunio Lle i sefydlu'r **Cynlluniau Tro Da** fel modelau 'interim' neu amgen i gynghreiriau, gan ein bod yn gwybod y byddai mapio/ymgysylltu'n anos yn ystod y pandemig.

Gellir gweld diweddariadau am y Cynllun Tro Da yn eu cynllun, yma: GTS NEWSLETTER (20) .pdf - Google Drive. Mae'r Cynlluniau Tro Da bellach yn cael cymorth ein Swyddog Cymorth Gwirfoddoli a Swyddog Cymuned a Lles y Trydydd Sector i sicrhau eu bod yn gynaliadwy.

DRAFT

Mewn partneriaeth ag **Age Cymru Gwynedd a Môn,** rydym wedi parhau i gynnal cyfarfodydd Cyngor y Bobl Hŷn bob pythefnos. Roedd hyn yn gyfle i raeadru gwybodaeth i'n fforwm ac i bobl hŷn roi adborth. Mae aelodau o Gyngor y Bobl Hŷn yn eistedd ar **Gynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA)** gan roi llais Môn i'r agenda cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn. Mae Cyngor y Bobl Hŷn yn arwain ar ymgyrch leol i godi ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn. Dechreuodd hyn gyda chynhadledd rithwir ac, ar hyn o bryd, mae’n gweithio ar gynllun gweithredu lleol i godi ymwybyddiaeth yn ein cymunedau.

Yn ystod Ebrill a Mai 2020, penderfynodd y Tîm Grant Cymorth Tai greu holiaduron ar-lein i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael cymorth ac i staff sy'n gweithio gyda'r darparwyr Grant Cymorth Tai, Adran Dai CSYM, y Trydydd Sector a sefydliadau Gwirfoddol. Pwrpas yr holiadur oedd rhoi cyfle i unigolion roi adborth ar eu profiad o fod dan gyfyngiadau’r cyfnod clo; yr hyn oedd yn fwyaf heriol iddynt ac unrhyw bethau cadarnhaol y gallent fod wedi'u profi. Daeth yr holiadur hwn yn fyw ar y 3ydd o Fehefin 2020 ac roedd ar gael i'w gwblhau hyd at 30 Mehefin 2020. Rhannwyd y ddolen i’r arolwg hwn hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol, trwy wefannau Facebook a Twitter y Cyngor. Dros y cyfnod hwn, gwelodd 320 o bobl yr holiadur hwn, gyda 207 yn cymryd yr amser i'w gwblhau.
Mae'r canfyddiadau i’w gweld yn yr adroddiad isod a chânt eu defnyddio’n sail i gynllunio ymlaen llaw.

Report Covid 19
service user questio

**Paratoi Bil Plant (Diddymu Amddiffyn Cosb Resymol) (Cymru)** - pwrpas y Bil yw diddymu amddiffyniad cyfraith gwlad o gosb resymol fel nad oes modd yng Nghymru i rieni na'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* ymosod ar blentyn na’i guro.

Roedd yr amddiffyniad yn berthnasol mewn perthynas â'r gyfraith droseddol a’r gyfraith sifil. Dan y gyfraith droseddol, roedd yn berthnasol mewn perthynas â throseddau cyfraith gwlad o ymosod a churo; a than gyfraith sifil, mewn perthynas â chamwedd tresmasu yn erbyn y person.

Mae'r Bil yn bwriadu cefnogi hawliau plant trwy wahardd defnyddio cosb gorfforol, trwy gael gwared ar yr amddiffyniad hwn. Effaith arfaethedig y Bil, ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chymorth i rieni, oedd sicrhau gostyngiad pellach yn y defnydd a wneir o oddefgarwch cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.

Daw'r Bil i rym ym mis Ebrill 2022 ac rydym yn llwyr gefnogi gweithredu'r bil a byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i gyfleu'r neges hon i rieni, gweithwyr proffesiynol ac yn bwysicach fyth, i blant a phobl ifanc ar gyfer pan fyddir yn barod i'w weithredu.

DRAFT

Astudiaeth Achos:
Rownd Derfynol Genedlaethol - Gwobrau Gofal Prydain Fawr 2020
**Gwobr:** Rhoi Pobl yn Gyntaf / Personoli.
**Prosiect:** Ailfodelu Gwasanaethau Gofal Cartref.

Cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ledled y DU yw Gwobrau Gofal Prydain Fawr ac maent yn ddathliad o ragoriaeth ar draws y sector gofal. Pwrpas y gwobrau yw talu teyrnged i'r unigolion neu'r timau hynny sydd wedi dangos rhagoriaeth eithriadol yn eu maes gwaith.

Yn dilyn llwyddiant yn y rowndiau terfynol rhanbarthol ym mis Tachwedd 2019, gwahoddwyd tîm Trawsnewid y Gwasanaeth Gofal Cartref i gynrychioli eu rhanbarth (Cymru) yn y rowndiau terfynol cenedlaethol ym mis Mawrth 2020. Yn anffodus, oherwydd y sefyllfa bresennol gyda'r pandemig, nid yn unig y gohiriwyd y digwyddiad tan 31 Hydref 2020 ond cafodd, hefyd, ei newid i fod yn un rhithwir.

Rydym wrth ein boddau o gael dweud, o grŵp o ddeg yn y rownd derfynol ranbarthol, y cyhoeddwyd mai'r tîm oedd enillwyr y wobr bwysig hon, gyda'r beirniaid yn nodi, “Mae'r sefydliad yn arloesol, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, mae'n dosturiol ac yn ddeallgar. Maen nhw'n gwrando ar bobl ac yn wirioneddol glywed yr hyn maen nhw'n ei ddweud. Maen nhw bob amser yn rhoi pobl yn gyntaf ac o flaen eu gofal eu hunain.”

Roedd Sara Jones, y Rheolwr Comisiynu yn bresennol ar gyfer y digwyddiad rhithwir a dywedodd, “Roedd yn syndod mawr bod y tîm wedi'i gyhoeddi yn enillydd gan fod safon y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol mor uchel. Rwyf mor falch bod gwaith caled a phenderfyniad y tîm a'i bartneriaid i bersonoli gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer pob unigolyn a gefnogwn wedi'i gydnabod fel hyn.
Dymuna Iola Richardson, Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, ddiolch i staff yr adran ac i aelodau'r cyngor am eu holl gefnogaeth ac i ddinasyddion Ynys Môn am weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i sicrhau cael gwneud y gwelliannau i'r gwasanaeth.

Gellir dod o hyd i'r holl enillwyr a manylion pellach yn https://www.care-awards.co.uk/national-winners-great-british-care-awards-2020-announced/

Mae modd gweld y rhaglen ac ynddi'r holl weithwyr a gyrhaeddodd y rownd derfynol, yma. https://www.care-awards.co.uk/wp-content/uploads/2020/10/GBCA-2020-Finals.pdf

Cyrhaeddodd y tîm hefyd y rownd derfynol Rhaglen Gwobr Rhagoriaeth Cyfleoedd mewn Caffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru mewn dau gategori, prosiect Caffael y flwyddyn a phrosiect y flwyddyn Datblygu'r Farchnad, ym mis Mehefin 2020.

DRAFT

## Safon Ansawdd 1
## Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y dymuna pobl eu cyflawni

### *Oedolion*

Mae sefydlu a datblygu **timau adnoddau cymunedol** (TAC) ledled Ynys Môn yn parhau i fod yn flaenoriaeth gwasanaeth. Dros y 12 mis diwethaf mae Gwasanaethau Oedolion wedi ailstrwythuro i dair bro TAC dynodedig ac wedi dechrau gweithio'n rhithwir gydag Asiantaethau iechyd a phartneriaid i yrru'r agenda integreiddio ymlaen. Cafwyd cynnydd gyda sefydlu cyfarfodydd amlddisgyblaethol wythnosol i drafod achosion cymhleth. Mae gostyngiad yn nyraniad y cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhaglen Drawsnewid wedi arwain at adolygu strwythur y prosiect ac, er mwyn gyrru'r Prosiect yn ei flaen yn 2021/22, mae Ynys Môn wedi sicrhau ei fod yn fewnol.

Mae **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** wrth wraidd yr agenda atal yng Nghymru. Yn wyneb sefydlu'r Timau Adnoddau Cymunedol, mae hyn wedi rhoi cyfle i'r Gwasanaethau Oedolion adolygu'r pwyntiau mynediad cyfredol a gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth er mwyn symleiddio mynediad i ddinasyddion Ynys Môn. Ar hyn o bryd, mae gan wasanaethau oedolion un pwynt mynediad gyda gwybodaeth, hefyd, ar gael trwy Bartneriaid y Trydydd Sector - Medrwn Môn. Yn ystod y Pandemig fe'i gwnaed yn haws cael at adnoddau a gwybodaeth gymunedol gyda gwybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol ac oddi wrth asiantaethau partner y trydydd sector.

Cyflwynwyd y model **Rhyddhau i Adfer yna Asesu** gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 i sicrhau nad yw pobl yn aros yn yr ysbyty pan nad oes angen gwneud hynny. Er mwyn cyflawni hyn, sefydlwyd Hyb Rhyddhau mewn partneriaeth rhwng yr Awdurdodau Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, lle bu Nyrsys a Gweithwyr Cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cleifion yn cael eu cefnogi allan o'r ysbyty cyn gynted ag y byddent yn feddygol iach. Wrth symud ymlaen, bydd y timau adnoddau Cymunedol yn chwarae rhan ganolog yn y llif effeithiol ac effeithlon o'r ysbyty yn ôl i'r gymuned.

**Cronfa Gofal Integredig (ICF)** - yn ystod y flwyddyn, mae Ynys Môn wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'u partneriaid i ddatblygu ystod o brosiectau a gwasanaethau a fyddai'n cyrraedd angen ein cymunedau - angen sydd wedi'i addasu oherwydd pandemig covid-19. Mae enghreifftiau o'r gwaith wedi'u hintegreiddio yn y prosiectau a ffurfiwyd wrth symud ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r ddau brosiect isod yn rhagflas o'r gwaith a gwblhawyd.

Mae **Bwyd Da Môn** yn Gwmni Budd Cymunedol a sefydlwyd fel menter gwastraff bwyd/rhannu bwyd gyda'r nod o fynd i'r afael â thlodi bwyd, sicrhau bod modd cael at fwy o gynnyrch ffres, gwella sgiliau coginio cymunedol, a sicrhau bod mentrau bwyta'n iach yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn cwrdd ag anghenion a nodwyd yn lleol.

Mae canolbwynt cymunedol wedi'i ddatblygu o amgylch y cysyniad o siop nid er elw, fydd yn ailddosbarthu cynnyrch o ystod o archfarchnadoedd a chynhyrchwyr bwyd eraill. Bydd y siop yn glwb bwyd yn seiliedig ar aelodaeth, a'i nod yw cyflenwi cynnyrch ffres yn bennaf. Nod y prosiectau yw rhoi gwerth am arian i deuluoedd a lleihau'r ddibyniaeth ar fanciau bwyd.



DRAFT

**Swyddog Cymorth Digidol** - Yn dilyn effeithiau COVID 19 wrth newid y ffordd y gall y byd gael at wasanaethau, bydd y prosiect hwn yn edrych ar sut ydym yn cefnogi cymunedau i ddod yn ddigon hyderus i gael at Wasanaethau Iechyd ar-lein a chreu gwell dealltwriaeth o sut y gall gweithredu'n ddigidol, mewn gwirionedd, roi cefnogaeth effeithlon ac effeithiol i'r agenda ymyrraeth gynnar trwy ei gwneud yn bosib i bobl gael gafael ar wybodaeth a chyngor ar adeg ac mewn lle sydd fwyaf addas iddynt.

Oherwydd COVID 19, gwelwyd gostyngiad syfrdanol yn nifer y bobl sy'n gallu cael at Wasanaethau Iechyd yn gorfforol, gyda llawer o apwyntiadau bellach yn cael eu cynnal dros y ffôn neu drwy apiau ar-lein. I lawer o bobl yn ein cymunedau, mae'r symudiad sydyn tuag at apwyntiadau ac ymgynghoriadau ar-lein wedi eu gadael yn teimlo'n fwy datgysylltiedig nag erioed, oherwydd rhwystrau megis dim rhyngrwyd neu ddyfeisiau i fynd ar-lein, sgiliau a hyder i ddefnyddio'r systemau newydd neu ddim cefnogaeth gan ffrindiau neu deulu i'w rhoi ar ben ffordd gyda'r dechnoleg.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi'i hymestyn am flwyddyn ychwanegol i 21-22 ac mae hyn wedi arwain at ymestyn y rhan fwyaf o brosiectau gwerthfawr sydd wedi bod yn rhedeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r holl brosiectau hyn wedi'u hintegreiddio yn y gymuned sy'n cyfrannu at ATAL ac yn arfogi unigolion i allu aros gartref yn eu cymunedau cyhyd ag y bo modd ac ymestyn gweithgareddau a chyfleoedd cymunedol ar draws holl grwpiau'r gronfa gofal integredig

Ar y 1af o Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei God Ymarfer Rhan 10 diwygiedig (Eiriolaeth). Mae modd gweld copi yn https://gov.wales/advocacy-services-code-practice. Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y Cod Ymarfer newydd yn rhan annatod o arfer beunyddiol ac rydym yn falch o gadarnhau ein bod yn rhan o'r Trefniant Rhanbarthol ar gyfer Eiriolaeth Annibynnol Broffesiynol i blant. Yn ystod y flwyddyn hon, cafodd cyfanswm o 99 o blant a phobl ifanc Eiriolaeth Seiliedig ar Faterion oedd yn cynnwys 211 o faterion. Daeth cyfanswm o 29 o gyfeiriadau Cynnig Gweithredol i law'r darparwr yn ystod y flwyddyn hon.

Mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion, mae gennym gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru yn ei ddarparu ac rydym yn hyrwyddo'r arfer hwn fel rhan o'n harfer beunyddiol. Yn ystod chwe mis olaf y flwyddyn, gwnaeth Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru 98 o gysylltiadau.

Mae'r **Strategaeth Cyfleoedd Diwrnod Anabledd Dysgu** wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor a chafwyd cytundeb am ymgynghoriad llawn ar ddatblygu darpariaeth gymunedol (yn seiliedig ar ganlyniadau unigol) ledled yr ynys. Yn anffodus, oherwydd yr ymateb i COVID-19 a'r cyfyngiadau lleol ar deithio a chyswllt wyneb yn wyneb, ni fu'n bosibl cynnal yr ymgynghoriad. Mae grŵp llywio'r prosiect wedi parhau i gwrdd a thrwy ddefnyddio'r grant Cronfa Gofal Integredig, sefydlwyd swydd datblygu adnoddau cymunedol newydd. Cafwyd cryn dipyn o gynnydd o ran nodi adnoddau cymunedol yn ardal Caergybi a chynigir ymestyn y gwaith hwn i weddill yr ynys yn ystod y flwyddyn. Mae rhaglen o weithgareddau a chyfleoedd wedi'i chyd-gynhyrchu gyda phobl ag anableddau dysgu. Cynigir, hefyd, gryfhau ein trefniadau comisiynu gyda darparwyr allanol i sicrhau bod darpariaeth yn y dyfodol yn cwrdd â chanlyniadau unigol ac yn hyrwyddo dilyniant ac annibyniaeth trwy'r gefnogaeth a gynigir.

DRAFT

**Cyllideb Gyfun** - mae gwaith wedi parhau i symud ymlaen i ddatblygu cyllideb gyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer rhoi gofal a chymorth a llety i bobl ag anableddau dysgu sydd ag anghenion cymhleth. Mae cytundeb Adran 33 wedi'i ddatblygu ac mae cynllun gweithredu lleol wedi'i sefydlu. Y nod yw sicrhau y nodir anghenion pobl yn gynnar ac y cânt eu diwallu mewn modd amserol a goresgyn rhwystrau arferol i ddarpariaeth (gan gynnwys cyllid) trwy arferion integredig a gwneud penderfyniadau. Mae'r prosiect hwn wedi elwa ar gefnogaeth y rhaglen Trawsnewid Anabledd Dysgu Rhanbarthol.

**Plant a Theuluoedd**

Gan weithio gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn, mae **Voices for Care** wedi cynyddu aelodaeth y grŵp lleol yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan fynd o 0 i 4 ac maent, bellach, yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Er bod Covid-19 wedi cael effaith ar hyn, mae cyfarfod yn rhithwir wedi bod yn fodd i bobl ifanc a leolir y tu allan i Ynys Môn ddod i'r cyfarfodydd, ond mae yna frwdfrydedd i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, unwaith y caniateir inni wneud hynny'n ddiogel. Mae dau ddigwyddiad allgymorth wedi'u cynnal, y ddau ohonynt yn llwyddiannus yn recriwtio aelodau newydd a chynnal aelodau cyfredol. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd Voices from Care yn gweithio gyda'n pobl ifanc, sydd wedi cynnig prosiect i roi gwybodaeth am y grŵp, recriwtio aelodau newydd o bosibl, a chaniatáu i boblogaeth Ynys Môn ehangach, sydd â phrofiad o ofal, gael eu mewnbwn ar hunaniaeth y grŵp.

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y prosiect Un Drws Ffrynt yn Ynys Môn fyddai creu un pwynt mynediad am gefnogaeth gyda'r sbectrwm cyfan o anghenion ar gyfer teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cam-drin domestig, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, tai a diogelu plant neu oedolion, a llawer mwy, hefyd. Rhagwelwn y byddai hyn yn cael ei wneud fesul cam, dros gyfnod o amser. Byddai cam cychwynnol y prosiect yn canolbwyntio ar gyfeiriadau a wneir at Deulu Môn, yr Hyb gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer gwasanaeth plant a theuluoedd Ynys Môn.

Nodau Un Drws Ffrynt:

- nodi risgiau ac anghenion ar y cyfle cyntaf o fewn teuluoedd sy'n mynd drwy gam-drin domestig
- cefnogi oedolion a phlant bregus i gael ymateb cyflym ac effeithiol i roi sylw i'r anghenion yn eu teulu cyn cwrdd â'r trothwyon diogelu
- lliniaru effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar blant a phobl ifanc a lleihau nifer yr achosion o'r profiadau hyn yn y dyfodol
- Lleihau cyfradd y cyfeiriadau at y gwasanaeth
- Lleihau nifer y troseddau y rhoddir gwybod amdanynt sy'n ymwneud â cham-drin domestig ar yr ynys
- Datblygu gwasanaethau cyfredol a newydd yn seiliedig ar anghenion a risgiau.
- Datblygu llwybrau ar gyfer gwasanaethau sy'n dibynnu ar angen a risg.

Yn ystod 2020-21, mae cyfanswm o 154 o blant wedi'u trafod yn y cyfarfodydd un drws ffrynt yn ystod y flwyddyn. Mae aelodaeth y cyfarfod wedi cynyddu ac mae bellach yn cynnwys darparwyr iechyd meddwl y trydydd sector PARABL, GORWEL, Heddlu Gogledd Cymru, Addysg, gwasanaethau cymorth tai, a gwasanaethau iechyd. Cynhelir archwiliad a gwerthusiad o'r prosiect un drws ffrynt ym mis Ebrill a mis Mai 2021.

Ffurfiwyd yr **Hyb Cymorth Cynnar** mewn ymateb i'r gwaith a gwblhawyd yn y “rhaglen Gweithredu Cynnar Gyda'n Gilydd” ar yr ymateb amlasiantaethol i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gofynion deddfwriaethol a rheoliadol eraill sy'n anelu at ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol o ansawdd gwell, sy'n sicrhau canlyniadau da i bawb yn Ynys Môn. Yn bennaf, mae'r rhain yn ymwneud â:

- Gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) i sicrhau bod modd i deuluoedd gael at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth berthnasol cymaint â phosibl yn eu cymunedau er mwyn adeiladu lles a gwytnwch.
- Ymateb parhaus Cyngor Sir Ynys Môn (Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau) i bedwar o 12 o argymhellion Arolwg Gwasanaethau Plant (2015) Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â sicrhau bod ymyrraeth gynnar, fwy integredig ar gael i blant a theuluoedd trwy weithio’n agosach mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth yn well.

Mae aelodaeth a phresenoldeb asiantaethau yn yr Hyb yn parhau i fod yn gryf. Mae cyfanswm o 275 o blant wedi’u trafod yn yr Hyb yn ystod 2020/21. Mae pob un o'r plant hynny a'u teuluoedd wedi cael cynnig gwasanaethau cymorth.

Mae’r **Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau** wedi bod yn mynd i’r Hyb Cymorth Cynnar sydd bob pythefnos (a gynhelir fel cyfarfod rhithwir *Teams*), Cyfarfodydd *Teams* Cydlynwyr Ardal Lleol Medrwn Môn a Chyfarfodydd Staff Medrwn Môn.

Ers i COVID-19 ddod i’r amlwg, mae’r Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau wedi parhau i gefnogi'r rhai a gyfeiriwyd atom trwy gyswllt ffôn, cyfarfodydd *Zoom* ac e-bost gan sicrhau bod y teuluoedd yn gallu cael at adnoddau priodol yn ystod yr amser anodd hwn. Derbynnir cyfeiriadau trwy'r Hyb Cymorth Cynnar a Gwasanaeth Cyswllt Cymunedol Môn.

- Rhannu adnoddau ar-lein perthnasol â defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfnod clo (Gweithgareddau rhithwir, adnoddau hyfforddi, celf a chrefft ar-lein ac adnoddau iechyd meddwl).
- Wedi rheoli a dosbarthu'r Grant Cymunedol Plant a Theuluoedd a'r Gronfa Cadw'n Actif ar gyfer grwpiau cymunedol ledled yr ynys.
- Gweithio mewn partneriaeth - Swyddogion Lles, Timau Cymorth Lleol, banciau bwyd lleol, meddygfeydd, Menter Môn, Gwasanaethau Ieuenctid, Gweithredu dros Blant, Tîm o Amgylch y Teulu, Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd. Aethpwyd i sesiynau Cwrdd â'r Timau gydag Adran Tai Ynys Môn, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Gwasanaeth Tân.
- Gweithio ochr yn ochr â Menter Môn ac Age Cymru gyda'u Prosiect Ffrind drwy’r Post.
- Edrych i’r dyfodol - ynghyd â chydweithwyr, cyflwyno enghreifftiau da i'r prosiect o weithio o fewn y pum canllaw lles i greu catalog o gyfryngau ar gyfer y prosiect, ynghyd â’r Cydlynwyr Ardal Lleol, cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm Hunandrefnu i greu a chynhyrchu llyfryn astudiaeth achos newydd Medrwn Môn
- Gweithio ochr yn ochr ag Age Cymru i gynhyrchu fideos addysgiadol byr am ddefnyddio gwasanaethau lleol ar gyfer eu sianel *YouTube*.

DRAFT

At hyn, neilltuwyd dyletswyddau ychwanegol i'r Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau yn ystod yr amser hwn; cefnogi cydlynwyr grwpiau gwirfoddol ar draws yr ynys, a rheoli'r banc gwirfoddolwyr, darparu adnoddau a gwybodaeth berthnasol a hefyd gydlynu ceisiadau casglu presgripsiynau ledled yr ynys. Rydym wedi cydlynu a recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer y prosiectau a ganlyn -

- Cyflwyno’r brechlyn Covid yn Ysbyty Penrhos Stanley.
- Gyrwyr gwirfoddol sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl fynd am eu hapwyntiadau brechlyn.
- Gwasanaeth cyfeillio’r Groes Goch ac Age Cymru
- Ymateb Cymru 4x4 / derbynwyr galwadau gwirfoddol.

Mae'r Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau wedi gweithio gyda 43 o blant yn ystod y flwyddyn.

**Blaenoriaethau 2020-21:**

- Cyflawni ein hagenda integreiddio gyda phartneriaid iechyd a'r Trydydd sector yn ein Timau Ailalluogi Cymunedol mewn tri safle dynodedig ar yr ynys.
- Cwblhau gwaith aildendro a gweithredu'r Gwasanaeth Newydd, Byw â Chefnogaeth.
- Ymgynghori ynghylch ein Strategaeth Cyfleoedd Diwrnod Anableddau Dysgu Newydd, a’i mabwysiadu a’i gweithredu.
- Parhau i wreiddio a hyrwyddo gwaith y Cydlynwyr Teuluoedd a Chymunedau

| **SA1 – Pa wahaniaeth wnaethon ni?** |
|---|
| Roedd 96.02% o bobl yn byw'n annibynnol gartref ar ôl cael eu hailalluogi |
| Mae 87% o asesiadau Plant yn cael eu cwblhau cyn pen 42 diwrnod |
| Mae 99.56% o Benderfyniadau ein Rheolwyr Gwasanaethau Plant yn cael eu cwblhau o fewn 24 awr |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| Diolch am yr e-bost ac am yr holl gefnogaeth a help a roesoch i […]. Unwaith eto, diolch am eich holl gefnogaeth, mi oeddwn bob amser yn teimlo bod buddiannau gorau mam wrth galon eich penderfyniadau. Mi deimlais i hefyd fod eich ymatebion yn rhai pwyllog ac wedi’u hystyried. |
| Roedd aelod o'r teulu eisiau i mi drosglwyddo pa mor ddiolchgar oedd o’r gwasanaeth a gafodd gan y gweithiwr cymdeithasol, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Carelink mewn perthynas ag argyfwng diweddar, a’i fod wedi gwneud argraff arno. Dywedodd fod y modd y cynyddwyd gwasanaethau mor gyflym, a'r gefnogaeth a gafodd, a sut y gwnaeth hyn helpu ei fam i barhau i fyw gartref gyda'i dad, wedi gwneud argraff arno. |
| Mae [rhiant] yn dweud wrtha i fod pawb y mae hi wedi cwrdd â nhw wedi bod yn hyfryd ac nad dyna oedd hi wedi'i ddisgwyl pan gafodd wybod gyntaf y câi'r cyswllt ei oruchwylio |
| Roedd [plentyn] wedi cyflawni ei holl ganlyniadau, gwelsom gynnydd yn ei hyder, ei les emosiynol, a'i allu i reoli teimladau anodd. Mae'n glod enfawr i [gweithiwr cymdeithasol] o'ch tîm am y gwaith a gwblhaodd efo'r teulu tra bod yno bryderon diogelu. |

Diolch am ofyn [sut mae rhiant] Rwy'n ei werthfawrogi'n fawr!
Dim ond eisiau dweud eich bod wedi gwneud i mi deimlo mor gartrefol pan wnaethoch ymweld yr wythnos diwethaf. Roeddech chi’n help garw i mi yn rhoi rhif gwahanol wasanaethau i mi ac egluro pethau'n iawn ac ati. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod chi'n helpu cymaint, felly diolch eto!

DRAFT

## Safon Ansawdd 2

## Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

### *Oedolion*

Defnyddiwyd cyllid Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru i gefnogi nifer o brosiectau trwy gydol y flwyddyn a soniwyd am rai ohonynt yn gynharach yn y flwyddyn. Mae enghraifft arall o weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo cynhwysiant trwy ddefnyddio dulliau digideiddio i'w gweld yn yr astudiaeth achos isod:

ICF community HUB Liaison Post Q4 Rep

Mae rhagor o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth, defnyddio cyllid Cronfa Gofal Integredig a chanolbwyntio ar les i'w gweld yn ein Cynllun Tro Da Seiriol - gweler yr astudiaeth achos isod:

SGTS CASE STUDY.docx

Buom hefyd yn gweithio gydag Age Cymru a Swyddog Ymgysylltu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaldr i ddarparu **adnoddau fideo** fel bod modd i bobl gael gweld sut mae pethau wedi newid yn ein meddygfeydd, siopau ac adeiladau cymunedol lleol o ran mynediad, systemau un ffordd, gofynion i ddiheintio dwylo a gwisgo masgiau wyneb. Nod hyn yw helpu i godi hyder y rhai nad ydyn nhw wedi gadael eu cartrefi ers y cyfnod clo trwy ddangos iddyn nhw sut mae'r adeiladau hyn yn edrych cyn iddyn nhw fentro allan eu hunain. Mae modd argraffu'r fideos hefyd i'w dangos i'r unigolion hynny nad oes modd iddynt gael at y rhyngrwyd. Mae modd gweld cyfres o'r fideos hyn ar sianel YouTube *Anglesey Get There Together*:
https://www.youtube.com/channel/UCiSihFCA5cNjnsj7Lyy_ssA/?reload=9
Rydym hefyd wedi datblygu fideo ar gyfer ein prosiect i roi gwybod i'r gymuned ehangach am ein gwaith:
https://drive.google.com/file/d/11eVGC1iSKujRIaApLnb4zJryII7PasCy/view?usp=sharing

Trwy gydol y pandemig mae'r Cydlynwyr Ardal Lleol hefyd wedi parhau i fynd i'r Timau Adnoddau Cymunedol newydd ar draws yr Ynys ac maent yn gweithio'n amlddisgyblaeth

(**Cynnwys o'r tabl yn y ddogfen Word isod i'w gynnwys)**

Adroddiad Comisiynydd Pobl 1.

DRAFT

Defnyddiwyd Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru i brynu adeilad yng nghanol y dref yn Llangefni, i gefnogi Mencap Môn a rhoi iddynt Hyb yng nghanol Ynys Môn, fel bod modd iddynt roi eu gweledigaeth ar waith - “byd lle mae pobl ag anabledd dysgu yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal, eu bod yn cael clust a chael eu cynnwys”. Oherwydd Covid-19, mae’r Hyb wedi bod ar gau yn ystod rhan helaeth o’r flwyddyn ond mae Mencap Môn wedi bod yn brysur yn cynnal sesiynau rhithwir ar gyfer ei aelodau a’r gobaith yw y bydd gweithgareddau’n ailddechrau cyn bo hir, unwaith y bydd cyfyngiadau’n caniatáu.




DRAFT

Mae'r tîm **Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Iechyd Meddwl** yn hwyluso ystod o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn cyfleoedd cymunedol a hamdden ac ennyn diddordeb ynddynt ac, felly, **wella lles**, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a hyrwyddo gwytnwch a chefnogaeth cymheiriaid. Yn ystod ymateb COVID-19. bu’n rhaid rhoi’r gorau i lawer o weithgareddau cymunedol a chyflwynodd y tîm ystod o gyfleoedd i bobl gadw mewn cysylltiad a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a dysgu ‘rhithwir’. Cysylltwyd yn rheolaidd ag unigolion a gefnogir a, lle bo angen, cyfeiriwyd at ffynonellau cymorth eraill. Datblygwyd pecynnau gwybodaeth brys a'u rhannu â phobl oedd yn byw mewn llety â chymorth er mwyn sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael bob amser.

**Plant a Theuluoedd**

Ffurfiolodd gynrychiolwyr awdurdodau lleol o Gynghorau Gwynedd a Môn weledigaeth ar y cyd i ddatblygu cerdyn **Adnabod Gofalwyr Ifanc** ar gyfer Gwynedd a Môn, a hynny mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant sydd â Chytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r ddau awdurdod i gyflwyno gwasanaethau i Ofalwyr Ifanc yn eu siroedd. Ymgymerwyd â'r datblygiad yn unol â'r consensws o'r adborth uniongyrchol gan ofalwyr ifanc y byddai'n well ganddynt gael cerdyn adnabod digidol, y buasem ni'n mynd at Ymddiriedolaeth y Gofalwyr a Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd y gallwn edrych ar yr opsiwn hwn fel rhan o'r cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc a gyflwynir ledled Cymru.

Bu i ni weithio ar y cyd â dylunydd graffig i gynhyrchu prototeip yr ymgynghorwyd â'n pobl ifanc yn ei gylch, cyn cytuno ar ddyluniad terfynol. Cynhaliwyd lansiad rhanbarthol ar yr 16eg o Fawrth, a byddwn yn treialu'r Ap mewn pedair ysgol yn nhymor Haf 2022, cyn ei lansio'n llawn ym mis Medi 2022.

Cymraeg: https://vimeo.com/520711287/7574591e6f
English: https://vimeo.com/520847863/21c214b1bb

**Blaenoriaethau 2020-21:**

- Parhau i weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i wella ymateb y gymuned i ymyrraeth gynnar
- Un Drws Ffrynt - gwreiddio hyn er mwyn rhoi'r gefnogaeth gywir i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig
- Agenda Atal - gwella hyn trwy barhau i ddatblygu Hyb Cymorth Cynnar
- Cydlynwyr Asedau Lleol Plant

| **SA2 - Pa wahaniaeth wnaethon ni?** |
|---|
| Roedd angen gofal preswyl ar **465** o oedolion ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn (o gymharu â 523 yn 2019/20, 518 yn 2018/19 a 573 yn 2017/18). |
| Roedd **327** o oedolion mewn gofal preswyl ar yr 31ain o Fawrth, 2019 (o gymharu â 316 yn 2019/20,375 ar 31/03/18 a 366 yn 31/03/17). |
| Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i 100% o Blant sy'n Derbyn Gofal, fel ag yn 2019/20 |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| Wedi gwneud sylw ar ba mor gadarnhaol ydi'r berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol a staff y Bwrdd Iechyd yn y Timau Anableddau Dysgu, oherwydd eu pwrpas cyffredin, i roi gofal a chefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu. |

| |
|---|
| Diolch yn fawr am yr holl gefnogaeth a sicrhau yr ymdriniwyd â phecyn gofalu ac apwyntiadau meddygol [defnyddiwr gwasanaeth]. Yn yr amser byr yr oeddech chi gyda'r gwasanaethau Oedolion mi gyflawnoch chi gymaint. Yn aelod o'r teulu, i'ch cael chi yno bob amser yn barod i wrando a chynorthwyo a bod â chymaint o amynedd i wrando ar ein holl bryderon, rydyn ni'n ddiolchgar iawn. Yn bersonol, rwy'n teimlo eich bod yn bendant wedi gwneud gwahaniaeth i ni fel teulu ac roedd cael rhywun mor garedig, mor werthfawr […] Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ffodus iawn i gael Gweithiwr Cymdeithasol mor wych. |
| Ni fedr geiriau wir fynegi pa mor ddiolchgar ydw i i chi i gyd am y gofal a'r sylw cystal a roesoch i [defnyddiwr gwasanaeth]. Fedra i ddweud dim, mond diolch yn fawr iawn i chi i gyd. |
| Mae wedi bod yn bleser bod yn deulu cleient, mae eich empathi, eich dealltwriaeth a'ch derbyniad wedi helpu i dorri trwy bethau a bod yn fodd i ni fel teulu ddechrau adfer yn sgil y problemau yr ydym wedi'u hwynebu hyd yma. Rydych chi wedi helpu i adfer fy ffydd yng nghymorth asiantaethau proffesiynol. |
| [Yn sgil cymorth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd] Mae llawer llai o ddadlau ar yr aelwyd. Os oes dadl, mae'r genod yn medru cerdded i ffwrdd – rhywbeth nad oedd yn digwydd o'r blaen. Maent i gyd yn siarad yn agored gyda'i gilydd ac yn fwy parchus tuag at ei gilydd. Mae yna newid cadarnhaol wedi bod. |

DRAFT

# Safon Ansawdd 3
# Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

### Trefniadau Diogelu Corfforaethol

Mae “diogelu” yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bawb yn y Cyngor. Mae'r Awdurdod Lleol wedi:

### Cyflawniadau cyffredinol

- Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol yn parhau i roi arweinyddiaeth a llywodraethiant i drefniadau diogelu corfforaethol y sefydliad.
- Yn ystod cyfnod Covid bu i ni ddatblygu'r ymgyrch “Llygaid a Chlustiau”, yn ymateb i'r gostyngiad yn lefel yr adroddiadau diogelu yn ystod camau cychwynnol y cyfyngiadau. Mae wedi canolbwyntio ar annog y cyhoedd i fod yn effro i gam-drin plant ac oedolion sydd mewn perygl, ac adrodd ar achosion.
- Yn rhan o'n hymateb i'r pandemig, buom yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner, grwpiau gweithredu gwirfoddol a chymunedol i hyrwyddo gwytnwch cymunedol a theuluol.
- Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhan hanfodol o'r broses ddiogelu i staff sy’n cymysgu â phlant neu oedolion bregus. Rydym wedi cryfhau ein trefniadau wrth fabwysiadu E-system swmp y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hyn yn helpu i atal oedi mewn cyflogaeth, yn dileu gwallau mewn data cymwysiadau datgelu ac yn lleihau gwaith gweinyddol.

### *Gwasanaethau Oedolion*

### Prif gyflawniadau

- Lansio Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Wedi parhau i gwrdd â’n rhwymedigaethau statudol yn ystod y pandemig. Bu i ni ychwanegu at gyflawniadau blaenorol ein Tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a chynnal asesiadau rhithwir i ddiogelu unigolion rhag cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdod cyfreithiol.
- Cynllunio ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid. Mae'r gwaith cwmpasu cychwynnol wedi'i gwblhau ac mae asesiad o’r effaith yn lleol, a fydd yn llywio'r cynllun ariannol, y gweithlu a’r gweithredol, ar y gweill.
- Gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau yr ydym yn eu comisiynu trwy gyfnod y pandemig, i sicrhau bod ansawdd y gofal yr oeddent yn ei roi trwy ofal cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal tymor hir, yn parhau'n ddiogel.



DRAFT

- Dengys gwaith gwerthuso ymarfer y gall y dinesydd fod yn hyderus bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill i gadw oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel
- Y bydd gweithwyr cymdeithasol yn ymateb yn amserol os oes pryderon ynghylch eu diogelwch.
- Bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill i roi cymorth i unigolion sy'n esgeuluso eu diogelwch a'u lles eu hunain.

**Gwasanaethau Plant**
**Prif Gyflawniadau**

- Lansio Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Mae dyletswyddau statudol wedi parhau i gael eu cyflawni. Mae staff wedi dangos eu bod yn gallu addasu a gweithio'n greadigol gyda theuluoedd.
- Mae gwaith amlasiantaethol wedi parhau, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir; mae hyn yn cynnwys Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant. Mae teuluoedd wedi croesawu rhai o'r newidiadau hyn.
- Bu gwaith cadarnhaol rhwng y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Dysgu i roi cymorth i blant bregus, gyda nifer o ysgolion yn rhoi cymorth i blant ddysgu gartref trwy roi gliniaduron a thaflenni gwaith i rieni.
- Mae data perfformiad yn dangos y gall plant a'u teuluoedd fod yn hyderus
    - bod penderfyniadau amserol i bob adroddiad lle mae amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso plant
    - nad oes rhestr aros ar gyfer neilltuo achosion lle mae angen ymholiadau diogelu
    - ceir ymateb cyflym a chynhwysfawr i adroddiadau diogelu, gyda gwaith asesu a rheoli risg amlwg.
- Gweithio'n galed i sicrhau bod plant â phrofiad o ofal wrth wraidd eu proses adolygu.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2019/20**

- Parhau i wreiddio Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Parhau i roi'r unigolyn wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Paratoi ar gyfer dyfodiad y Safonau Gwarchod Rhyddid.

| **SA3 - Pa wahaniaeth wnaethon ni?** |
|---|
| Cwblhawyd 92.31% o ymholiadau Amddiffyn Oedolion o fewn saith diwrnod (91.30% yn 2019/20) |
| Cwblhawyd 276 o asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ystod y flwyddyn (259 yn 2019/20) |

| |
|---|
| O’r plant hynny a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn, mae 8.14% wedi bod ar y gofrestr o’r blaen, dan unrhyw gategori yn y 12 mis diwethaf |
| 258 diwrnod (ar gyfartaledd) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn (224 yn 2019/20) |
| Cynhaliwyd 90.12% o'r holl Adolygiadau Amddiffyn Plant ar amser (94.27% yn 2019/20) |
| Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i 100% o Blant sy’n Derbyn Gofal |
| Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i 100% o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. |

DRAFT

## Safon Ansawdd 4

## Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

### *Oedolion*

Ar Ynys Môn, sefydlwyd Partneriaeth i roi cymorth i'r rhai bregus yn ein cymunedau yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig. Mae modd gweld y datganiad gweithio ar y cyd rhwng Cyngor Ynys Môn, Medrwn Môn a Menter Môn yma:

MEDRWN MÔN

https://www.mentermon.com/wp-content/themes/Mentermon/img/darkLogo.jpg

https://www.anglesey.gov.uk/en/newsroom/news/anglesey-committed-to-support-volunteers-who-help-the-islands-vulnerable?fbclid=IwAR2SEYwlV-iRq55E1bKqE-LIEtXHdEAZlgxhjMSmsCpK6anr1hJM1doNVEY

Datblygwyd canllawiau cymunedol Covid -19 a gwybodaeth bwysig arall, gweler y ddolen isod. Yn y ddolen, hefyd, ceir manylion cyswllt cydlynwyr cymunedol a chwmnïau dosbarthu bwyd.

https://www.mentermon.com/en/covid-19/

Mae'r bartneriaeth yn gweithredu tair ffrwd waith, sy'n cynnwys:

- Cyfeillio a lles (gan gynnwys y grŵp sy’n cysgodi)
- Ffrwd gwaith bwyd - yn cynnwys y banc bwyd a pharseli bwyd Neges
- Gwirfoddoli - gwirfoddolwyr arbenigol a chymunedol yn gweithio ledled yr Ynys.

Er gwaethaf y pandemig, mae **Prosiect Rhagnodi Cymdeithasol Linc Cymunedol Môn** wedi rhagori ar ei dargedau eleni. Ar ôl symud staff i weithio gartref ym mis Mawrth, gweithiodd y tîm yn dda gyda Chyngor Ynys Môn, Clwstwr Meddygon Teulu, a Menter Môn i sicrhau bod eu llwyth achosion cyfredol a chyfeiriadau newydd yn dal i allu derbyn

DRAFT

gwasanaethau hanfodol - gan gynnwys gwybodaeth (trwy roi taflenni trwy ddrysau'r rheini nad ydynt ar-lein), mynediad i fanciau bwyd, neges a meddyginiaethau a phresgripsiynau.

Mae gan **Gydlynwyr Ardal Lleol** lwyth achosion cyfeirio o hyd at 60 unigolyn yr un am y flwyddyn, fel arfer, ond, eleni, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n ddramatig oherwydd COVID ac erbyn hyn mae gennym 366 o bobl dros 25 oed yn agored i'r prosiect.

Gwelodd **Linc Môn** gynnydd mawr yn nifer y galwadau yn ystod y chwe mis cyntaf rhwng mis Mawrth a mis Medi, wrth i bobl gael trafferth gyda chyfyngiadau'r cyfnod clo. Gweithiodd swyddog Linc a Chydlynwyr Ardal Lleol i gefnogi'r Timau Cymorth Ardal a sefydlwyd yn lleol a phartneriaid i sicrhau bod pawb yn cael y cymorth a'r wybodaeth yr oedd eu hangen arnynt ar yr adeg iawn. Yn ystod y chwe mis rhwng mis Mawrth a mis Medi'r llynedd, cofnodwyd ffigurau Linc fel a ganlyn:

- 146 o gyfeiriadau newydd at **Gydlynwyr Ardal Lleol** - pobl nad ydynt eisoes ar ein llyfrau
- 1,800 o geisiadau i ddanfon presgripsiwn (cost £240 am wiriad 'DBS' a delir gan glwstwr meddygon teulu - dim costau gwirfoddolwyr)
- 8,426 o alwadau Cadw mewn Cysylltiad a wneir gan **Gydlynwyr Ardal Lleol** a Gwirfoddolwyr Tîm Cymorth Ardal
- 160 o gyfeiriadau at Fanc Bwyd / Neges
- 12,125 Tro Da â 1689 o bobl
- 36 tîm cymorth ardal gyda dros 850 o wirfoddolwyr
- 2 x llythyr cysgodi (Llywodraeth Cymru) a rhestr galwadau ffôn (tua 300000 o bobl) - roedd **Cydlynwyr Ardal Lleol** yn gallu cysylltu â phobl ar y rhestr gysgodi nad oedd Cyngor Ynys Môn yn gallu cael gafael arnynt. Gwaith partneriaeth oedd hwn i sicrhau nad oedd pobl yn mynd heb gymorth a pharseli bwyd ac i roi gwybod iddynt fod LINC hefyd ar gael, pe bai angen.

DRAFT

Yn ystod COVID roeddem hefyd yn gallu dod â sefydliadau cyfeirio newydd i mewn i'r prosiect ac rydym wedi cael nifer o sesiynau cwrdd â'r tîm gyda phartneriaid i egluro iddynt yn union sut mae'r prosiect yn gweithio. Rydym wedi cynnal sesiwn unigol gyda staff SPOA Cyngor Ynys Môn, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, gweithwyr cymdeithasol Cyngor Ynys Môn a fforwm Darparwyr Cymorth Tai Cyngor Ynys Môn (29 Sefydliad Trydydd Sector). O hyn, rydym wedi agor llwybr cyfeirio newydd ar gyfer gwaith ataliol gyda'r fforwm Darparwyr Cymorth Tai ac wedi derbyn 19 o gyfeiriadau ym mis Ionawr a mis Chwefror gan y fforwm hwnnw.

Mae Cydlynwyr Ardal Lleol hefyd wedi gweithio ar brosiect i sefydlu **hybiau Rhithwir**. Sicrhawyd cyllid ar gyfer prosiect ar y cyd ag AGE Cymru Gwynedd a Môn a Chyngor Ynys Môn i dreialu ffordd rithwir i bobl gael at weithgareddau a fyddai wedi bod yn digwydd yn ein Hybiau Cymunedol. Mae canran uchel o bobl ar ein rhestrau cyfeir

io nad ydynt yn gallu gadael y tŷ i ymuno mewn gweithgareddau yn eu pentref a'u trefi lleol. At hyn, roedd y cyfnod clo'n cyfyngu pobl rhag unrhyw fath o weithgaredd cymunedol. Bydd y

prosiect hwn yn rhoi ffordd newydd i ni eu cael i gymysgu â phobl a chael cyfle i fynd i weithgareddau a defnyddio adnoddau cymunedol lleol. Bydd, hefyd, yn rhyddhau amser i'r Cydlynwyr Ardal Lleol weithio gyda'r agenda ataliol - gan geisio dod â'r rhai sydd ar fin bod yn anactif i mewn i'r prosiect.

I CAN

Law yn llaw at iechyd meddwl

Together for mental health

DRAFT

**Prosiect Medraf** - yn ystod y pandemig, newidiodd canolbwynt y gwaith gofal heb ei drefnu, Medraf, o roi cymorth wyneb yn wyneb yn y tair adran Achosion Brys i roi cefnogaeth ffôn i unigolion y nodwyd bod angen y math hwn o gefnogaeth arnynt. Yn yr un modd, mae'r pandemig wedi cael effaith ar ofal sylfaenol Medraf, y gymuned Medraf a'r prosiectau gwaith Medraf ac nid ydynt wedi gallu datblygu yn ôl y disgwyl yn ystod y flwyddyn. Mae grŵp llywio rhaglen Medraf wedi'i sefydlu er mwyn adolygu'r prosiect Medraf yn ei gyfanrwydd a phenderfynu sut i gyflwyno'r model hwn yn y dyfodol.

**Tîm Gweithredu Lleol y Gorllewin** - yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ni chyfarfu'r tîm hwn oherwydd ymrwymiadau partneriaid wrth ymateb i'r pandemig. Mae Bwrdd Partneriaeth **Gyda'n Gilydd dros Iechyd Meddwl Gogledd Cymru** (T4MH), (ymateb rhanbarthol i'r Strategaeth Genedlaethol Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl), wedi nodi bod angen adolygu'r timau er mwyn sefydlu sut maent yn ffitio i mewn i wneud penderfyniadau lleol ac isranbarthol. Mae gweithdy adolygu ar gyfer tîm y gorllewin wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd Ebrill 2021.

**Cronfa Gyfun Anabledd Dysgu** - yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae gwaith ar lefel strategol wedi parhau i sefydlu'r gronfa gyfun trwy ddatblygu cytundeb Adran 33. Ar lefel weithredol, mae cynllun yn ei le i gyflwyno'r Gronfa Gyfun i ymarferwyr. Caiff effaith cyflwyno'r Gronfa Gyfun ei gwerthuso trwy'r tîm prosiect trawsnewid Rhanbarthol a'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (Oxford Brookes).

Mae Ynys Môn wedi sicrhau cyllid i ddatblygu model **Hyb Cymunedol Rhithwir** ar yr ynys. Cyn bo hir, wrth weithio gyda phartneriaid Medrwn Môn, Cynghrair Hyb Cymunedol, Cyngor Pobl Hŷn Ynys Môn a chanolfan Cydweithredol Cymru, byddir yn lansio canolbwynt cymunedol ar-lein mewn ymateb i gau hybiau cymunedol dros dro yn ystod argyfwng y coronafeirws.

Er y gallai rhai o'r cyfyngiadau gael eu codi dros yr wythnosau nesaf, rydym yn ofni mai llawer o'r bobl sy'n mynd i weithgareddau Hyb Cymunedol yw'r bobl sydd fwyaf mewn perygl ac, felly, y byddir yn gofyn iddynt gadw at bellter cymdeithasol, cysgodi a hunanynysu am y cyfnod hiraf. Gyda hyn mewn golwg, roeddem yn teimlo bod angen sicrhau bod y rhwystrau hyn sy'n atal rhyngweithio cymdeithasol a chymryd rhan yn cael eu goresgyn trwy sicrhau ffordd haws a fforddiadwy i gymdeithasu ar ei newydd wedd.

Byddwn yn gweithio i ddatblygu pecyn digidol a allai gyflwyno hyb cymunedol rhithwir. Byddai hyn yn fodd i bobl gymryd rhan yn eu gweithgaredd grŵp yn rhithwir a, hefyd, yn gyfle i gael sgyrsiau grŵp wyneb yn wyneb (yn ddigidol). Ymhlith y cynlluniau mae datblygu tudalen Facebook, gan gynnig syniadau dan amrywiaeth o themâu:

Pobl Hŷn - atebion i unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol tymor hir.
Celfyddydau a Diwylliant - pethau i'w gweld a'u gwneud ar-lein.
Iechyd Meddwl a Lles - gweithgaredd cadarnhaol.

Er mwyn cyflawni hyn, byddai angen i ni sicrhau bod gan bobl y dechnoleg angenrheidiol i ddefnyddio’r Hyb Rhithwir. Byddai angen i ni hefyd sicrhau bod modd i bobl nad ydynt ar y we ar hyn o bryd gysylltu â darparwr gwasanaeth ac, fel rhan o'r pecyn, byddwn yn datblygu canllawiau hawdd eu defnyddio, ynghyd â chymorth technegol gan Medrwn Môn a CO-OP Cymru.

Rydym hefyd yn gweld hwn fel cyfle i gryfhau a chynnal ein hymgysylltiad â phobl hŷn a gofalwyr a byddwn yn ei gwneud yn bosib i gyfarfodydd megis grwpiau cymorth gofalwyr, Cyngor Pobl Hŷn a Fforymau gadw cysylltiad a sicrhau bod eu lleisiau'n dal i gael eu clywed yn ystod y Pandemig.
Bydd y prosiect cychwynnol yn gweithio gyda phum Hyb Cymunedol ar wahân a chydag un o'n grwpiau gweithredu Covid19 Cymunedol mwy gweithredol.

Fel rhan o'r prosiect hwn, rydym hefyd wedi datblygu’r wefan CYMUNED. Bydd hon yn cael ei lansio yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn y wefan bydd dolenni i weithgareddau/fideos iechyd a lles, gwybodaeth a chyngor a chyfleoedd i leisio barn. Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid i brynu offer digidol hanfodol ar gyfer ein hybiau cymunedol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosib i’r hybiau gynnal sesiynau ffrydio byw o weithgareddau fel bod modd i bobl na allant ddod barhau i gymryd rhan. Dros amser, daw hyn i gynnwys cyfarfodydd Fforwm byw Pobl Hŷn.

**Cefnogi Pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr** - Cynyddodd yr Awdurdod Lleol y cyllid i gynorthwyo'r Gymdeithas Alzheimer i ail-ddylunio sesiynau Singing for the Brain a gynigir yn rhithwyr, ac mae hyn wedi bod yn achubiaeth i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

Er mis Medi 2020 rydym wedi:

- Cyflwyno 81 sesiwn Canu rithwir *Singing for the Brain* dros *Zoom*
- Adroddwyd bod 20 o bobl ar gyfartaledd, y mae dementia wedi cael effaith arnynt, yn mynd i bob sesiwn (rydym wedi nodi cyfartaledd gan y gall presenoldeb amrywio bob wythnos)
- Roedd hyn yn cynnwys cymysgedd o bobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr ac aelodau o'r teulu a gofalwyr a delir.

***Dyfyniad gan aelod***
***“Mae’n wych gweld pobl eraill heb orfod gadael y tŷ. Mae canu mor wych. Mae'r llyfr yn ddefnyddiol ond weithiau mae mam yn cofio'r geiriau beth bynnag. "***

***Plant a Theuluoedd***

Lansiwyd **Prosiect Adtrac** yn swyddogol ar yr 16eg o Ebrill 2018 a rhoddwyd y gorau i’w gyflwyno ar yr 31ain o Fawrth 2021 (rhai mewn cymorth gwaith yn parhau tan y 30ain o Ebrill a staff cyflwyno yn dal yn eu lle tan ddiwedd mis Mai).

Bydd elfennau o'r cymorth a roddir gan y prosiect Adtrac yn parhau o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid ond nid y gwasanaeth llawn. Bydd yn canolbwyntio ar helpu pobl ifanc i gymryd y camau cyntaf wrth symud tuag at addysg bellach neu gyflogaeth h.y. y rhai nad ydynt yn barod eto i fynd i'r Coleg, nad ydynt ar Raglenni Cyflogadwyedd neu i fynd i Gyflogaeth:

- Trwy gyllid Llywodraeth Cymru bydd rôl ymgysylltu’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn parhau i weithio gyda Gyrfaoedd Cymru a'r panel 16+ i nodi a mynd allan i'r gymuned, cysylltu â phobl ifanc haen 1/2 a cheisio ymgysylltu â nhw, eu cyfeirio at asiantaethau priodol a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Fodd bynnag, bydd y swydd hon nawr yn cael ei hadolygu i ddechrau gweithio gyda phobl ifanc yn gynharach ym mlwyddyn 10 ac 11 yn yr ysgolion.

- Yn amodol ar ddyfarnu grantiau cyllido Llywodraeth Cymru, bydd dwy swydd Gweithiwr Ieuenctid arall hefyd (Lles a Digartrefedd) fydd yn gweithio ochr yn ochr â Swyddog Ymgysylltu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, yn rhan o ddarpariaeth ôl-16 y Gwasanaeth Ieuenctid.

- Bydd pob un o'r tair swydd yn gweithio gyda'i gilydd i helpu i baratoi pobl ifanc ôl-16, sydd bellaf i ffwrdd o fynd i addysg neu gyflogaeth, i symud ymlaen i / ar hyd y llwybr cyflogadwyedd trwy: hyrwyddo lles emosiynol ac iechyd meddwl da; cefnogi unigolion i nodi / goresgyn eu rhwystrau; trefnu cymorth a chefnogi unigolion i gael at wasanaethau eraill ac ymgysylltu â nhw; helpu pobl ifanc gyda'u datblygiad personol i wella’u hunan-barch a’u lles; datblygu hyder, meithrin gwytnwch, cymhelliant a thueddfrydau ac agweddau cyflogadwyedd craidd fel eu bod yn barod i ymgysylltu'n effeithiol â darparwyr addysg bellach a chyflogaeth.

Mae AdTrac yn Dathlu
Cyfanswm y Canlyniadau rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021:
Cofrestrodd / ymgysylltodd 194 o bobl ifanc
Caffaelwyd dros 50 o gyrsiau hyfforddi pwrpasol
Enillodd 67 o bobl un neu fwy o gymwysterau
Cafodd 27 o bobl gyflogaeth 16+ awr
Dechreuodd 15 gyrsiau coleg

A


Tîm Adtrac – 12 mis o fodolaeth.

ADTRAC Project -
Inspire! Adult Learni

(Copi o'r dystysgrif - i'w defnyddio yn y cynllun dylunio terfynol)

**Blaenoriaethau ar gyfer 2020/21:**

- Cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol i hwyluso iddynt gomisiynu gwasanaethau eu hunain, rhywbeth sy'n hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol a lles.
- Hyrwyddo’r defnydd a wneir o dechnoleg gwybodaeth mewn Hybiau Cymunedol.
- Cynllunio Blaenoriaethau'r Gweithlu / cynllunio Dilyniant mewn Gwasanaethau Oedolion
- Cefnogi gofalwyr yn unol â’r Strategaeth Dementia Rhanbarthol.

DRAFT

| SA 4 - Pa wahaniaeth wnaethon ni? |
| --- |
| 99.84% o Oedolion yn cael eu gwasanaeth yn eu dewis iaith (99.03% yn 2019/20) |
| 61 o Ofalwyr Maeth Ynys Môn (52 yn 2019/20) |
| Cwblhawyd 195 allan o 269 pecyn gofal gyda phellter cadarnhaol a deithiwyd (canlyniadau) gan y Tîm Dechrau'n Deg. |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| Diolch am fy nghael i mewn i [ysgol uwchradd]. Mae'n golygu llawer. Diolch. |
| Mae o'n ymddiried ynddi. Mae'n hoffi cael cyswllt â hi oherwydd ei bod hi'n wybodus heb wthio na gwneud iddo deimlo ei fod yn cael ei farnu. Mae hi wedi helpu i fagu ei hyder. Mae hi'n gefnogaeth 'wych' iddo ar adeg yr oedd ei angen fwyaf arno. Mae hi'n medru gweld beth yw ei anghenion. |
| Roedd y gofal, yr ymrwymiad a'r cysondeb a ddangosoch iddo'n rhagorol. Mi wnaeth y cyrsiau a wnaeth efo chi godi ei hyder, ac roeddent yn ffactor allweddol iddo sicrhau cyflogaeth, un diwrnod yr wythnos i ddechrau ac, wrth i gyfyngiadau symud lacio, yn llawn amser (mewn perthynas â phrosiect ADRAC) |

DRAFT

## Safon Ansawdd 5

### *Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach*

***Oedolion***

**Taliadau Uniongyrchol Ynys Môn** 20/21 - Bu hon yn flwyddyn heriol iawn i'n holl wasanaethau. Ar adegau, mae hi wedi bod yn anodd ond mae hefyd wedi dangos pa mor hyblyg y gall Taliadau Uniongyrchol fod. Ers y pandemig (Mawrth 2020) mae Taliadau Uniongyrchol wedi cael eu defnyddio'n arloesol gan y cleientiaid / teuluoedd i barhau â'r cymorth sydd ei hangen arnynt. Wrth i hybiau / canolfannau cymunedol gau yn ystod y flwyddyn oherwydd y cyfnod clo a chyda llawer o gleientiaid yn cysgodi, mae cleientiaid wedi defnyddio eu Taliadau Uniongyrchol yn wahanol - er enghraifft i brynu dodrefn garddio / peiriannau ymarfer i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau yn lle hynny. O ystyried bod ychydig o gleientiaid wedi stopio / atal eu gwasanaeth oherwydd eu bod yn cysgodi, mae'r niferoedd wedi aros yn gyson trwy gydol y flwyddyn ac, ar hyn o bryd, mae gennym 220 o gleientiaid Taliad Uniongyrchol ar ddiwedd mis Mawrth 2021, i fyny o 209 ers y llynedd.

- Cyfanswm Gwariant Taliadau Uniongyrchol eleni yw - £1,904,456.10
- Arbedion rhagamcanol o gymharu â gwasanaeth a gomisiynwyd – £817,363.13

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i gynnig Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae hi wedi bod yn ffordd dda iawn o hyrwyddo'r gwasanaeth a dangos pa mor hyblyg y gall fod yn ystod yr amser anodd hwn. Roedd llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn poeni'n fawr am nifer y gwahanol ofalwyr a allai ymweld â nhw pe byddent yn derbyn gwasanaeth wedi'i gomisiynu. Dan Daliadau Uniongyrchol gallwch fod yn hyblyg a rheoli nifer y staff yr ydych yn eu cyflogi, gan leihau nifer y bobl y dewch i gysylltiad â nhw a lleddfu llawer o bryderon i'n defnyddwyr gwasanaeth.

Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â *Leonard Cheshire Disability* ar y prosiect, '*Together As One'* ond, oherwydd y pandemig, mae hyn wedi'i ohirio nes bod y cyfyngiadau'n llacio.

Mae **addasiada**u i amgylchedd y cartref - boed yn rheiliau cynnal syml neu ar raddfa fwy fel lifftiau grisiau - yn fodd i unigolion gyflawni eu canlyniadau a rheoli eu harferion beunyddiol gyda mwy o annibyniaeth a diogelwch. Mae hyn, wedyn, yn cael effaith gadarnhaol ac uniongyrchol ar ofalwyr - yn enwedig ar ofalwyr anffurfiol, trwy wella eu lles a'u diogelwch.

Mae'r pandemig a'r cyfyngiadau ar ymweld dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn sefyllfa arbennig o heriol mewn perthynas ag asesu a hwyluso addasiadau i'r cartref, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Roedd natur yr addasiadau yr aseswyd ar eu cyfer wedi'i chyfyngu i hwyluso mynediad i mewn ac allan o gartref unigolion, gofal personol hanfodol ac anghenion trosglwyddo a gallu cael

cyfleusterau hanfodol yn eu cartref.

Mae ein gweithdrefnau sgrinio ac asesu diwygiedig (gan gynnwys defnyddio asesiadau amgylcheddol o bell) wedi bod yn fodd i ni nodi yn gyson unigolion bregus yr oedd angen addasiadau hanfodol arnynt.

Dengys y data a ganlyn y gwaith asesu fu rhwng 01.04.20 a 31.03.21:

| | | |
|---|---|---|
| Mân Addasiadau | 485 o asesiadau a chyfeiriadau ymlaen at y Gwasanaeth Tai, Canolfan Byron a Gofal a Thrwsio | Ymhlith yr enghreifftiau mae canllawiau ychwanegol, rheiliau cynnal mewn ystafell ymolchi, rampiau syml a rheiliau llaw allanol |
| Addasiadau Mawr | 167 o asesiadau a chyfeiriadau ymlaen at Wasanaeth Tai am Grant Cyfleusterau i'r Anabl | Ymhlith yr enghreifftiau mae lifft grisiau, teclyn codi trac nenfwd, gwaith mynediad cymhleth, toiledau closomat |

Mae'r fenter **Cynllun Gartref o'r Ysbyty** dan arweiniad Gofal a Thrwsio yn hwyluso gwaith partneriaeth ac yn adnodd gwerthfawr wrth sicrhau bod unigolion yn gadael yr ysbyty ac yn mynd i gartref diogel mewn modd amserol. Mae'r cynllun yn fodd i staff y ward, swyddogion Gofal a Thrwsio a'r unigolyn / teulu gyfathrebu'n uniongyrchol â'i gilydd. Roedd yn rhaid cyflwyno arferion gwaith diwygiedig oherwydd Covid 19 oedd yn cyfyngu ar fynediad uniongyrchol i staff Gofal a Thrwsio ar safle ysbytai. Mae natur y gwaith yn cynnwys addasiadau a newidiadau bychain ond mae'r gwerth ychwanegol i'w weld yn y dull cyfannol y mae Gofal a Thrwsio yn ei ddefnyddio i sicrhau eu bod yn ystyried agweddau eraill e.e. cynllun diogelwch cartref / tasgberson a chynyddu incwm i'r eithaf. Maent mewn sefyllfa wych i gyfeirio ymlaen at wasanaethau ac asiantaethau priodol er mwyn cyflawni canlyniadau unigolyn ar adeg anfon gartref.

| | | |
|---|---|---|
| Nifer yr achosion – 116 | Cyfanswm cost y gwaith £18,394 | Gwerth ychwanegol yn dilyn cynyddu incwm i'r eithaf £23,907 |

***Plant a Theuluoedd***

Arhosodd **Clybiau Ieuenctid** ar gau o fis Mawrth ac roedd ysgolion hefyd ar gau am gyfnodau sylweddol gan ei gwneud yn amhosibl cyflwyno rhaglenni gwasanaeth ieuenctid arferol. Rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf, roedd Gweithwyr Ieuenctid yn dosbarthu pecynnau prydau ysgol am ddim, a rhoddodd gyfle iddynt, hefyd, wirio'n anffurfiol les teuluoedd bregus ar ran ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol. Danfonwyd cyfanswm o 3880 o brydau ysgol i gartrefi yn y cyfnod hwn. Wedi hyn, cynhyrchwyd dros 500 o Becynnau Gweithgaredd wythnosol i bobl ifanc bregus.

DRAFT

Yn ystod 20-21 mae staff y Gwasanaeth Ieuenctid wedi gwneud 9076 o gysylltiadau wyneb yn wyneb â phobl ifanc yn ystod y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â 2221 o gysylltiadau rhithwir. Roedd ymweliadau carreg drws hefyd wedi bod yn fodd i gysylltu â 1783 o rieni, sydd wedi sicrhau bod gan weithwyr bellach fwy o empathi â bywyd cartref y bobl ifanc ac wedi sefydlu perthynas â llawer o rieni. Parhaodd y gwaith i gefnogi pobl ifanc gyda'u Gwobr Dug Caeredin, gyda 4982 o gysylltiadau rhithwir yn sicrhau bod 42 o bobl ifanc yn cwblhau eu gwobr Arian a 66 eu gwobr Efydd - yr unig Awdurdod yng Nghymru sydd wedi llwyddo i gwblhau hirdeithiau Dug Caeredin, dan ganllawiau llym Covid a Llywodraeth Cymru. Wrth i'r cyfnod clo lacio, bu staff ieuenctid yn gweithio gyda'r heddlu i dargedu ardaloedd lle'r oedd pobl ifanc yn mynd ati i dorri cyfyngiadau Covid, gan roi arweiniad a chymorth i bobl ifanc gadw'n ddiogel, a rhybuddio rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwnaed 833 o gysylltiadau â phobl ifanc fel rhan o'r gwaith hwn.

***Blaenoriaethau ar gyfer 2020-21:***

- Datblygu ystod o opsiynau seibiant hyblyg ar gyfer Gofalwyr unigolion sydd â Dementia
- Llunio'r farchnad mewn perthynas â gofal Oedolion Hŷn
- Paratoi Asesiad diweddar o Anghenion y Boblogaeth Leol ac Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad fel rhan o waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Cyflwyno Cerdyn Adnabod i Ofalwyr Ifanc.

| **SA5 - Pa wahaniaeth wnaethon ni?** |
|---|
| 98.80% o oedolion sy'n ofalwyr y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u hanghenion trwy eu hawl eu hunain (98% yn 19/20) |
| Nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth tylluanod y nos yn ystod y flwyddyn - 327 (Galw Gofal 185, WAST 63, Cynlluniwyd 79)<br>(19/20 = cyfanswm o 346 Galw Gofal 254, WAST 57, Cynlluniwyd 35) |
| Nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth ail-alluogi yn ystod y flwyddyn - 352 (362 yn 19/20) |
| 23 o blant yn dychwelyd adref at y rhiant o fod yng ngofal yr Awdurdod Lleol |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| Mi gefais alwad ffôn gan ddynes hyfryd o Gyngor Ynys Môn, yn gwneud yn siŵr ein bod wedi cael ein llythyrau cysgodi, ein bod yn iawn ar gyfer cael danfon ein meddyginiaeth a chael bwyd a hanfodion ac yna rhoddodd rif ffôn cydlynwyr fy ardal i mi rhag ofn bod angen unrhyw beth arnaf neu i mi ffonio'r cyngor. Diolch o galon. Mi gododd yr un alwad ffôn honno fy ysbryd a rhoi hwb yr oedd mawr ei angen i mi. Roedd Cyngor Ynys Môn mor feddylgar. |
| Diolch i chi ydi hyn am eich neges garedig am ein mam. Mae'n gysur mawr i ni wybod fod y gymuned yn cadw llygad mor ofalgar arni. […] Diolch eto am ofalu amdani. Rydyn ni wir yn gwerthfawrogi popeth yr ydych chi'n ei wneud. |

| |
|---|
| Dymuna'r teulu fynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad i'r staff a gynorthwyodd eu tad - dywedodd fod y gwasanaeth yn "rhagorol" a bod y merched yn "wych".<br>(Mewn perthynas â staff Gofal Môn) |
| Dywedodd y rhiant fod [Gweithiwr Cymdeithasol] wedi bod yn hollol wych gydag o trwy'r broses adran 47 gyfan. Mae ganddo ffordd mor ddigynnwrf a chymwynasgar. |
| Diolchodd y rhiant i [Gweithiwr Cymdeithasol] am ei hamynedd a'i charedigrwydd wrth ddod i'w hadnabod hi a'i phlant fel pobl ac fel teulu. Dywedodd fod y ffaith ei bod yn teimlo y medr ymddiried ynddi ddigon i'w ffonio wedi gwneud gwahaniaeth mor sylweddol i'w bywyd, mae hi wedi llwyddo i ymgysylltu â'r cynlluniau Amddiffyn Plant…. Mae'n teimlo fod [y Gweithiwr Cymdeithasol] wedi dod â'i theulu at ei gilydd a'i helpu i fwynhau magu plant, teimlo'n hapus ac ymlacio ... Roedd eisiau mynegi ei diolch ... mae ei pherthynas â'i phlant wedi gwella ac mae ei pherthynas â'r holl weithwyr proffesiynol eraill wedi gwella. |

DRAFT

## Safon Ansawdd 6

## Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael lles economaidd gwell, bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion.

***Oedolion***

Mae gan y Cyngor Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Age Cymru Gwynedd a Môn ac mae sicrhau'r incwm mwyaf posibl yn un maes o'u gwasanaethau craidd a ddarperir ar yr ynys. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cefnogodd y sefydliad 56 o unigolion i gael credyd pensiwn, lwfans gweini, lwfans gofalwyr ac ati hyd at £182,122.72 mewn budd-daliadau a £23,035.72 mewn ôl-ddyledion. Cyfanswm o £205,158.44.

Mae **Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Iechyd Meddwl** yn darparu naw uned llety â chymorth ar draws yr ynys i bobl â phroblemau iechyd meddwl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Rhoddir cefnogaeth fel bod modd i unigolion ennill y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer byw'n annibynnol. Trwy gydol y cyfnod pandemig, er gwaethaf y cyfyngiadau lleol, mae pobl wedi cael cefnogaeth i symud ymlaen i denantiaethau parhaol gan osgoi unrhyw oedi a chreu ôl-groniadau. Mae'r galw am y gefnogaeth hon yn uchel ac mae'r model yn fodd i barhau â'r gefnogaeth pan fydd unigolion a gefnogir yn symud ymlaen i fyw'n annibynnol.

***Gwasanaethau Plant a Theuluoedd***

Ar hyn o bryd mae gennym ddau Gartref Grŵp Bach - o'r enw "Catrefi Clyd Môn" - sydd wedi'u cofrestru a chael eu traed danynt - Cartref Clyd Bryn Hwfa, sy'n gartref i un person ifanc a'r ail yw Cartref Clyd Llanfair, lle mae dau berson ifanc yn byw. Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion gofal cymhleth sydd wedi dioddef trawma plentyndod cynnar ac sy'n cael trafferth gydag anhwylderau ymlyniad.

Rydym yn bwriadu cofrestru cartref grŵp bach arbenigol arall erbyn canol 2021, a fydd yn gyfle i blant a gefnogir gan y gwasanaethau plant arbenigol gael seibiant. Rydym, hefyd, yn gobeithio cael trydydd cartref grŵp bach ar gyfer plant sy'n derbyn gofal cyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd hyn yn fodd i ni allu cynnig lle i ddau berson ifanc lleol arall, a fyddai, fel arall, mewn perygl o gael eu lleoli'r tu allan i'r Sir.

Eleni, mae Timau **Maethu** o bob un o'r 22 Awdurdod Lleol ledled Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth trwy fideo a cherdd arbennig, chwalu mythau ynghylch maethu, ac ar yr 20.05.21 rydym yn goleuo adeiladau / tirnodau ledled Cymru.

https://www.anglesey.gov.uk/en/newsroom/news/art-project-celebrating-local-authority-foster-carers-across-wales / https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/prosiect-celf-yn-dathlu-gofalwyr-maeth-awdurdodau-lleol-ledled-cymru

DRAFT

Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd gan y Tîm Lleoli Plant (**Gwasanaeth Maethu Ynys Môn**) gyfanswm o 64 o deuluoedd maeth, yn cynnwys:

- 36 o gartrefi maethu prif ffrwd
- 28 o aelwydydd cysylltiedig, (mae hyn yn cynnwys un wedi'i gofrestru dros dro dan Reoliad 26)

Un peth cadarnhaol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd ein bod wedi gallu parhau i recriwtio, asesu, cymeradwyo a chefnogi gofalwyr maeth yn Ynys Môn yn ystod y pandemig trwy ddefnyddio ffyrdd newydd o weithio megis ymweliadau cartref ‘rhithwir’ trwy fideo. Yn ystod 2020/21 bu i ni gymeradwyo:

- **9** o gartrefi maethu prif ffrwd (cyffredinol)
- **14** o aelwydydd cysylltiedig (teulu a ffrindiau), (mae hyn yn cynnwys dwy a aeth yn syth i Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig).

Ar gyfer Pythefnos Gofal Maeth y llynedd (11-24 Mai 2020) bu i ni oleuo adeilad y cyngor yn ein lliwiau corfforaethol i helpu i godi ymwybyddiaeth am faethu ac i ddathlu Gofalwyr Maeth anhygoel ein Hawdurdod Lleol, gweler y llun isod.



Gwasanaeth **Mabwysiadu** Gogledd Cymru

North Wales **Adoption** Service

Rydym yn parhau i gyfrannu at **Wasanaeth Mabwysiadu** rhanbarthol **Gogledd Cymru**. Yn ystod 2020-21, lleolwyd pump o blant o Ynys Môn gyda theuluoedd i'w mabwysiadu ac o'r pump hynny, mae un wedi dod yn destun gorchymyn mabwysiadu ac wedi, felly, ei fabwysiadu'n ffurfiol. Mae'n debygol y bydd y pedwar plentyn arall yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol yn ystod 2021-22.

Yn gadarnhaol, mae pum teulu o Ynys Môn ar hyn o bryd yn y broses o gael eu hasesu i fod yn fabwysiadwyr. Y tebygrwydd yw, os byddant yn llwyddiannus, na fydd plant Ynys Môn yn cael eu lleoli gyda'r teuluoedd hyn. Byddant, fodd bynnag, yn cyfrannu at y gronfa o fabwysiadwyr sy'n gallu rhoi lleoliadau i blant Cymru ledled Gogledd Cymru a thu hwnt.

**Gwasanaethau Tai**

Rhaglen grant ymyrraeth gynnar yw'r **Grant Cymorth Tai**, a reolir gan ein Hadran Dai, i gefnogi gweithgaredd, sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Mae bellach yn cwmpasu'r hyn a elwid gynt yn **Rhaglen Cefnogi Pobl**, Grant Atal Digartrefedd a Grant Rhentu Cymru dan yr un ymbarél, a elwir heddiw yn Grant Cymorth Tai. Cyfanswm y Grant a dderbyniwyd oedd £2,714,998.07. Neilltuwyd £2,500,134.42 ohono ar gyfer yr elfen Cefnogi Pobl. Neilltuwyd £208,654.65 ar gyfer Atal Digartrefedd a £6,209.00 ar gyfer **Rhentu Doeth Cymru**.

Mae Grant Cymorth Tai yn cynorthwyo pobl fregus i roi sylw i'r problemau y maent yn eu hwynebu, sydd weithiau'n niferus, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl, i enwi ond rhai. Yn anffodus, roedd nifer y bobl a gyflwynodd yn ddigartref a'r rhai oedd yn ailgyflwyno'n ddigartref yn ystod 2020/21 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae modd eu gweld fel a ganlyn.

| Blwyddyn | Cyfanswm y Cyflwyniadau | Cyflwyniadau Newydd | Pobl yn Ailgyflwyno |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 1126 | 799 | 327 |
| 2019/20 | 1057 | 910 | 147 |

| Pobl yn Cyflwyno o'r Newydd | |
|---|---|
| **Cyfnod** | **Cyfanswm** |
| Ebrill - Mehefin | 197 |
| Gorffennaf- Medi | 239 |
| Hydref - Rhag | 183 |
| Ion- Mawrth | 180 |
| Cyfanswm | 799 |

| Pobl yn Ailgyflwyno | |
|---|---|
| **Cyfnod** | **Cyfanswm** |
| Ebrill - Mehefin | 56 |
| Gorffennaf- Medi | 132 |
| Hydref - Rhag | 102 |
| Ion- Mawrth | 37 |
| Cyfanswm | 327 |

DRAFT

Nid effaith Pandemig Covid-19 yn unig yw'r rheswm dros y cynnydd yn nifer y bobl oedd yn cyflwyno’n ddigartref er ei bod, heb amheuaeth, wedi gwaethygu'r sefyllfa. Yn hanesyddol, mae Ynys Môn wedi cofnodi incwm is na chyfartaledd Cymru, ac mae cyfleoedd ar gyfer swyddi â chyflog da yn parhau i fod yn gymharol isel. At hyn, mae’r ddibyniaeth ar fudd-daliadau lles yn uwch na'r cyfartaledd, gyda diweithdra tymor hir yn rhwystr mawr. Yn anffodus, mae lefelau tlodi wedi cynyddu ac fel sy'n digwydd yn aml, mae anawsterau ariannol yn aml yn arwain at broblemau economaidd-gymdeithasol ehangach megis dyled, mwy o broblemau iechyd meddwl, cam-drin domestig, a theuluoedd yn torri i lawr, ymddygiad gwrthgymdeithasol yn troi’n weithgaredd troseddol, gan arwain, o bosibl, at gael eich taflu allan o’r cartref ac yn cyflwyno’n ddigartref. Rydym yn croesawu’r cynnydd sylweddol yn y Grant Cymorth Cysylltiedig â Thai o Ebrill 2021, a’r gobaith yw y bydd hwn yn fodd i ni liniaru’n effeithiol lefelau cynyddol o bobl yn cyflwyno a fyddai, heb ymyrraeth gynnar mor werthfawr, yn cynyddu pwysau galw a chostau ymhellach ar wasanaethau statudol megis Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Gwasanaethau Iechyd a Chyfiawnder Troseddol.

**Blaenoriaethau 2020-21:**

- Gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gofal Ychwanegol i'r de o'r Ynys.
- Adolygu'r Strategaeth Llety gyda'n Partneriaid Tai
- Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â thlodi.
- Cartrefi Clyd - agor un eiddo arall yn ystod 21/22
- Cynyddu mwy ar nifer Gofalwyr Maeth Ynys Môn a’u cadw

| **SA6 - Pa wahaniaeth wnaethon ni?** |
|---|
| Llwyddodd **99.84%** o oedolion i drafod eu problemau yn ystod eu hasesiad / hailasesiad yn eu dewis iaith |
| Roedd 57% o’r rhai oedd yn Gadael Gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ddwy flynedd ar ôl gadael gofal, o gymharu â 44% y llynedd |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| Toes dim diwedd ar ein hedmygedd o'ch ymroddiad [...] gwerthfawrogir popeth yr Ydych yn ei gyfrannu'n ddyddiol i fywydau'r preswylwyr a diolch amdano. (mewn perthynas â chartref preswyl dan berchnogaeth y Cyngor) |
| Diolch o galon am ofalu am [defnyddiwr gwasanaeth], yn enwedig trwy amseroedd ansicr Covid 19. |
| Er bod y rhiant yn credu mai cael ei chyfeirio at wasanaethau plant fyddai’r peth gwaethaf i ddigwydd iddi, roedd yn ddiolchgar i [y Gweithiwr Cymdeithasol] am ei wneud yn brofiad da. Roedd eisiau dweud bod y cyfathrebu wedi bod yn dda, bod y gwasanaeth yn brydlon a'i bod yn hapus â chanlyniad yr asesiad a'r cyngor a roddwyd. |
| Cerdyn gan blentyn: ‘Diolch am weithio efo fi. Rydych chi wedi bod yn gefnogaeth dda ac wedi helpu llawer arna i. Fedra i ddim diolch digon i chi. Dw i ddim yn credu bod y llythyr hwn yn ddigon, o gofio’r holl gymorth ‘rydych chi wedi’i roi i mi… ’ |

# Sut Ydym yn Gwneud yr hyn a Wnawn

## A) Ein Gweithlu, a sut ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

*“Mewn perthynas â’r Ddeddf, strategaeth gweithlu sy’n cefnogi dealltwriaeth a’r gallu i weithredu’r newidiadau, rolau newydd (e.e. mewn partneriaethau ffurfiol ac ar gyfer gwasanaethau CSYM), gofynion dysgu a datblygu”.*

Mae Uned Datblygu'r Gweithlu yn parhau i weinyddu grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) i roi cyfleoedd hyfforddi a datblygu i’r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol ehangach yn Ynys Môn.

Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wrth gynllunio cyfleoedd datblygu i’r gweithlu ac achubir ar bob cyfle i weithio mewn partneriaeth â'n Hawdurdodau Lleol cyfagos, y GIG ac Asiantaethau eraill er mwyn cyflawni'r cynllun. Mae’r meysydd blaenoriaeth allweddol a gefnogir fel y’u nodir yng Nghylchlythyr Blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cafodd methu cynnal digwyddiadau ystafell ddosbarth, sef yr unig ddull cyflwyno i'r Awdurdod, yn draddodiadol, effaith fawr ar y cynllun gwreiddiol a luniwyd ar gyfer 2020/2021. Profodd anawsterau o ran cynnal sesiynau wyneb yn wyneb e.e. rhaglenni sgiliau digidol; rhaglenni iechyd a diogelwch e.e. trin â llaw ac ati, i fod yn her ychwanegol.

**Nodir Meysydd Blaenoriaeth Diwygiedig a Heriau/Llwyddiannau Allweddol isod:**

- **Buddsoddi mewn Cronfa Ddysgu a phlatfform E-Ddysgu**. Pwyslais mawr er mwyn ymgysylltu a chyfathrebu â'r Gweithlu Gofal a grwpiau Partneriaeth ehangach i ledaenu gwybodaeth berthnasol ac amserol am hyfforddiant; rhannu gwybodaeth yn ymwneud â COVID e.e. fideos ar ddefnyddio PPE ac ati; diweddariadau Bwletin rheolaidd; Gwybodaeth am fentrau / cymorth Iechyd a Lles.

- **Arferion gwaith diwygiedig** - Mae mesurau pellhau cymdeithasol wedi ei gwneud yn angenrheidiol dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio gyda phobl a dibynnu’n gynyddol ar arfer sy'n seiliedig ar dechnoleg i gyfathrebu’n gyffredinol. Trefnwyd nifer o sesiynau ynghylch Cyfathrebu â Chleientiaid o Bellter er mwyn cynorthwyo Gweithwyr Cymdeithasol i gynnal cyswllt ystyrlon. Trefnwyd nifer o sesiynau Profedigaeth Cruse; amrywiol sesiynau Diogelu e.e. Trefnwyd sesiynau Cam-drin Domestig yn ogystal â chyrsiau deddfwriaethol megis “Gweithredu’n Gyfreithlon ac yn Foesegol” er mwyn arfogi’r gweithlu gyda’r sgil / wybodaeth angenrheidiol i barhau i weithio fel gweithwyr proffesiynol.

- **Lleoliadau Myfyrwyr** - Roedd heriau o ran cwrdd â'r gofynion wrth weithio o fewn cyfyngiadau Covid a gofynion asesiadau risg ychwanegol. Fodd bynnag, llwyddodd cyfanswm o 13 o fyfyrwyr i gwblhau eu lleoliadau.



DRAFT

Sicrhawyd bod Sesiynau Hyfforddi e.e. “Ymarfer Myfyriol a Chysylltiadau Myfyriol” a chymorth i ddatblygu gwytnwch ar gael iddynt.

- **Mentrau a Hyfforddiant Iechyd a Lles** – Mae Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl/Pryder, darpariaeth Iechyd Galwedigaethol Parabl / yn Fewnol ac ati wedi'u hyrwyddo a chafodd staff eu hannog i fynd i gael y cymorth sydd ar gael iddynt.

- **Gofalwyr Maeth** - rhaglen lawn o hyfforddiant wedi'i threfnu. Mwy o bwyslais ar ddefnyddio cyfleoedd hyfforddi ar-lein i gefnogi'r Fframwaith Hyfforddi Gofalwyr Maeth. Mae'n ymddangos bod mynediad hyblyg i hyfforddiant yn llwyddiannus iawn. Sicrhawyd bod modd cael at fodiwlau E-Ddysgu sydd wedi'u hanelu'n benodol at Ofalwyr Maeth, gyda chyfanswm o 35 o Unigolion Cyplau wedi'u cofrestru ar y platfform. Cwblhawyd cyfanswm o 128 modiwl, gyda 12 arall ar y gweill.

- **Sgiliau Digidol** - Yn naturiol ddigon, mae'r rhaglen a gynlluniwyd wedi'i gohirio. Mae hi wedi bod yn heriol ceisio defnyddio technoleg a’r ffaith nad oes gan bawb sgiliau digidol. Fodd bynnag, mae rhoi cymorth i staff y mae angen digwyddiadau hyfforddi arnynt trwy e.e. Zoom / MSTeams a'r llwyfan e-ddysgu, wedi bod yn faes blaenoriaeth allweddol.

- **Cefnogi Cofrestru** – Mae sesiynau penodol e.e. Gwerthoedd ac Egwyddorion; Colli Synhwyrau ac ati wedi’u cynnig yn llwyddiannus ar-lein. Ni fu modd i Aseswyr wneud llawer o arsylwadau mewn lleoliadau Gwaith. Fodd bynnag gwnaed trefniadau amgen e.e. trafodaethau/tystiolaethau gan Reolwyr/Dirprwy Reolwyr i sicrhau bod cynnydd wedi parhau. Mae llwyddiant deg aelod o staff wrth gwblhau eu cymwysterau eleni, er gwaethaf yr amgylchiadau anodd iawn y maent yn gweithio ynddynt, yn glod enfawr iddynt.

Yn sgil cynnal Gwiriad Allanol o Ganolfan Asesu Anterth yr Awdurdod ym mis Chwefror 2021, cadarnhawyd fod safonau uchel yr Awdurdod wedi’u cynnal a bod statws y Ganolfan wedi'i gadw. Rydym yn hynod falch o hyn.

- **Rhaglen Addysgwyr Ymarfer Gogledd Cymru** - Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gennym bedwar gweithiwr cymdeithasol cymwys a phrofiadol (yn cynrychioli Gwasanaethau Oedolion a Phlant) yn ceisio am y Wobr.
- **Gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso** - Penodwyd cyfanswm o naw Gweithiwr Cymdeithasol oedd newydd Gymhwyso, pump yn y Gwasanaethau Plant a phedwar yn y Gwasanaethau Oedolion. Roedd tri o'r rhain wedi llwyddo trwy Bartneriaeth Prifysgol Bangor, gydag un wedi cael cefnogaeth Cynllun Hyfforddeiaeth yr Awdurdod.

Bu i ni barhau i gefnogi Ymarferwyr oedd Newydd Gymhwyso trwy eu tair blynedd cyntaf o Ymarfer sy'n cynnwys y Rhaglen Gyfuno, Porth Agored, gydag un aelod o staff yn llwyddo yn y rhaglen hon yn ystod 2020-21 a phedwar ychwanegol yn cofrestru ar y rhaglen.

- **Cymwysterau Proffesiynol –** Cafodd staff, hefyd, eu hannog a'u noddi i ymgymryd â chymwysterau ychwanegol megis cymhwyster Cyn bod yn Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Uwch (AMHP). Cefnogwyd cyrsiau TDMP hefyd yn ystod y cyfnod hwn.

**Crynodeb**

Gan symud trwy argyfwng Covid 19 i gyfnod pontio a thu hwnt, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud y defnydd gorau o ymyraethau fideo, sain a thestun. O'r herwydd, bydd y rhaglen ar gyfer 2021/2022 yn ceisio parhau i ddefnyddio'r sgiliau sydd newydd eu caffael i gynnig dull mwy cyfunol o ddysgu er mwyn cefnogi'r Sector Gofal Cymdeithasol.

DRAFT

## B) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae cynllunio ariannol yn parhau i fod yn her ddifrifol i'r Cyngor dan bwysau ariannol parhaus ac estynedig. **Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos tanwariant o £(891k)k i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020/21.**

Gorwariodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd £(754)k. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n ddiflino i gynnal lefel y Plant sy'n Derbyn Gofal, ac mae gostyngiad bychan yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (160 ar 31-03-2021) o gymharu â (161 ar 31-03-2020) yn dyst i hyn. Roedd y tanwariant i'w briodoli'n bennaf i: £(266k) o fewn Plant sy'n Derbyn Gofal oherwydd i dri lleoliad gael eu hariannu o Gronfa Caledi Covid19; £(211k) o fewn Cymorth i Deuluoedd Integredig yn sgil cyllid grant unwaith ac am byth a £(108k) yn y Gwasanaethau Ieuenctid. Roedd hyn, yn bennaf, oherwydd bod gweithgareddau wedi'u hatal yn sgil pandemig Covid19 ond ni chaiff y tanwariant ei gyfyngu i'r rhain yn unig.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi gorwario £(136k) yn 2020/21 o'i gymharu â gorwariant o £1,138k yn 2019-20. Mae'r gostyngiad mewn gorwariant yn ganlyniad uniongyrchol i neilltuo cyllideb ychwanegol o £(980k) i'r Gwasanaethau Oedolion yn 2020-21, gyda'r nod o roi sylw i'r mater o danariannu hanesyddol, yn ogystal â chynnydd yn grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru, o £(670k) yn 2019-20 i £(894k) yn 2020-21. Mae'n werth nodi hefyd bod grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu ymhellach o £(894k) yn 2020-21 i £(1,110k) yn 2021-22. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i sicrhau bod y cyllidebau'n cael eu neilltuo i'r gwasanaeth cywir, yn unol â phwysau galw ac, yn hyn o beth, bydd gwaith yn cael ei wneud dros y misoedd nesaf i gysoni cyllidebau Pobl Hŷn / yr Uned Ddarparwyr.

Mae gan y Cyngor brosesau gosod cyllideb a chynllunio ariannol effeithiol sydd wedi'u rheoli'n dda, ac mae aelodau etholedig yn chwarae rhan lawn yn y rhaglen gylchol o gynllunio a chraffu gwaith pennu a monitro cyllidebau.

Amlinella'r tabl isod gyfrifon ariannol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2019/20:

| | **Cyllid £** | **Gwirioneddol £** | **Gwahaniaeth £** |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PLANT a THEULUOEDD** | 10,961,600 | 10,207,454 | (754,146) |
| | | | |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| POBL HŶN | 8,668,410 | 9,199,187 | 530,777 |
| ANABLEDDAU CORFFOROL | 2,086,600 | 2,161,168 | 74,568 |
| ANABLEDDAU DYSGU | 6,839,580 | 7,152,549 | 312,969 |
| IECHYD MEDDWL | 2,226,430 | 2,029,547 | (196,883) |
| GWASANAETHAU CYMORTH | 1,415,720 | 1,149,004 | (266,716) |
| **UNED DDARPARU** (GOFAL MÔN/ GWASANAETHAU ERAILL) | 5,534,890 | 4,943,680 | (591,210) |
| **CYFANSWM** | **37,733,230** | **36,842,589** | **(890,641)** |

DRAFT

## C) Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd

Mae llywodraethu gwleidyddol o fewn y Cyngor wedi parhau i fod yn gadarn yn ystod cyfnod o her sylweddol yn sgil pandemig Covid-19. Mae hyn wedi bod yn fodd i roi cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd a chraffu'r cynnydd yn bwyllog.

Y Pwyllgor Gwaith yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ac mae'n cynnwys yr Arweinydd ac wyth Deilydd Portffolio. Mae'r Arweinydd yn parhau i fod yn Ddeilydd Portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi parhau i oruchwylio ein 'gwelliannau' yn wleidyddol a sut yr ydym wedi ymdrin â heriau ymdrin â'r pandemig. Gwelir yr effeithiolrwydd cynyddol hwn yn y modd y rhoddwyd blaenoriaeth i'r rhai mwyaf bregus yn ein plith wrth roi cymorth yn CH1 a Ch2 y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

**Gweithio mewn Partneriaeth**
Mae'r Panel Aelodau Etholedig a sefydlwyd ar ôl etholiadau Mai 2017 i graffu, herio a chefnogi'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn parhau â'i waith o bell ac wedi gweld gwelliannau. Bellach, ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd wrth ymdrin â thonnau'r pandemig, mae'r agenda wedi'i ailsefydlu i weithio o bell a goruchwylio agenda gofal cymdeithasol Plant ac Oedolion. Daw aelodaeth y panel o bob rhan o'r grwpiau gwleidyddol, ac mae'n parhau i roi'r cyfle i'r Aelodau wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwaith a wneir gan yr adran, gan arwain at graffu gwell.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn wedi'i gydnabod yn gryfder mewn adroddiadau arolygu allanol yn y gorffennol ac mae'n parhau i fod yn faes i ni adeiladu arno. Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Oedolion yn parhau i chwarae rhan weithredol yn agendâu Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella'r modd y darperir gwasanaethau cymdeithasol trwy ddull cydweithredol.

Fel y bu yn yr ychydig flynyddoedd a aeth heibio, mae trefniadau llywodraethu'n parhau i fod yn eu lle trwy Gwmni Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gellir gweld rhagor o dystiolaeth o ethos y bartneriaeth hon trwy gydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy'r Bwrdd Cyflenwi Integredig. Pwrpas y Bwrdd Cyflenwi yw sicrhau y caiff anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn eu gwasanaethu'n well wrth integreiddio gwasanaethau iechyd a'r awdurdodau lleol yn well. Model Môn yw cangen weithredol y Bwrdd Cyflenwi, gyda chyfrifoldeb am gyflawni'r Rhaglen Waith fanwl.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r Gronfa Gofal Integredig ar Ynys Môn. Ymhlith y meysydd a dargedir yn benodol mae gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn, pobl ifanc a phlant ag anghenion cymhleth a System Gwybodaeth Gofal Cyfathrebu Cymru (WCCIS). Gwariwyd arian y Gronfa Gofal Integredig ar ddatblygu Garreglwyd yn gartref arbenigol sy'n cefnogi pobl hŷn sy'n byw gyda dementia, gwasanaethau Gofal Uwch a Thylluanod y Nos Môn o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae disgwyliadau Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i wreiddio ei harferion gwaith ymhlith gwasanaethau ac mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd wedi hen ennill eu plwyf, yn goruchwylio ac yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i greu dyfodol gwell i bobl Cymru.

Rydym yn parhau i ddatblygu gwaith ymgynghori a gweithio'n agos mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector trwy'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol, sy'n cyfarfod bob chwarter, er y newidiwyd trefniadau 2020/21 oherwydd yr ymateb i'r pandemig. Mae'r grŵp partneriaeth trydydd sector, sydd wedi hen ennill ei blwyf, yn aeddfedu ac yn parhau i gael y dasg o gyflawni yn erbyn amcanion y Cyngor a sicrhau y cedwir at dechnegau ymgysylltu ac ymgynghori priodol o ran datblygu strategaethau a gwaith trawsnewid ar draws y gwahanol sefydliadau.

**Perfformiad**

Mae fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor wedi'i wreiddio yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mae'r fframwaith hwn wedi'i fabwysiadu i sicrhau bod meddylfryd o welliant parhaus wedi'i wreiddio yng ngwaith y Cyngor, ac y gallai ei waith monitro nodi materion cyn y ceir unrhyw tanberfformio - rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaeth i'r dinesydd. Gwneir hyn, fel arfer, bob chwarter trwy gardyn sgorio corfforaethol a gwaith dau fwrdd rhaglen trawsnewid corfforaethol. Fodd bynnag, ni adroddwyd ar y perfformiad trwy'r cardyn sgorio ar gyfer chwarter cyntaf 2020/21 oherwydd iddo gael ei ganslo

Er mwyn lliniaru effaith COVID-19, mabwysiadodd yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth strwythurau a systemau brys a'u harwain trwy weithredu'r Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng, oedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn y lle cyntaf ac, wedi hynny, yn wythnosol/bob pythefnos

Y Gwasanaethau Cymdeithasol

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7HB

www.ynysmon.gov.uk

Cysylltwch â ni ar: Ffôn: 01248 751887

Email: EmmaEdwards@ynysmon.gov.uk

DRAFT

Dilynwch ni:

Dechrau'n Deg / Flying Start Gofal Plant a Chwarae Môn / Anglesey Childcare and Play

Ysgolion Iach / Healthy schools Cyn Ysgol / Pre-schools

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer: | Y Pwyllgor Gwaith / Chyngor Llawn |
| Dyddiad: | 12 Gorffennaf 2021 / 7 Medi 2021 |
| Pwnc: | Cais i newid y Cyfansoddiad i ddirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ac unrhyw ddatblygiadau sydd angen Gorchymyn Datblygu Arbennig (SDO).<br><br>Cais hefyd i ddirprwyo pwerau i'r Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â negodi a chymeradwyo buddion cymunedol anstatudol ar gyfer Datblygiadau a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). |
| Deilydd/Deiliaid Portffolio: | Y Cynghorydd. Carwyn Elias Jones<br>Y Cynghorydd. Richard Dew |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr<br>AnnwenMorgan2@ynysmon.gov.uk<br><br>Dylan J Williams<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>DylanWilliams@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Yr holl Aelodau |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhellion**

1. Bod y Cyngor llawn fel Awdurdod Lleol, Awdurdod Cynllunio Lleol ac Awdurdod Priffyrdd Lleol yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn ôl y diffiniad yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau dilynol.

2. Bod y Cyngor llawn yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiadau sydd angen Gorchymyn

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
| --- |
| Datblygu Arbennig (e.e. Rheoli Ffiniau) o dan Adran 59(3) yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<br><br>3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo ei awdurdod dros negodi'r holl fuddion cymunedol anstatudol a phob penderfyniad sy'n berthnasol i drafodaethau o'r fath, yn gysylltiedig â, neu'n deillio o ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), i'r Dirprwy Brif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor.<br><br>4. Diweddaru adran 3.5.3. yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r dirprwyaethau uchod.<br><br>**Rhesymau**<br><br>***Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol***<br><br>Darperir y sail statudol ar gyfer y broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DNS") gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau dilynol.<br><br>Diben y broses DNS yw sicrhau bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud ynglŷn â'r ceisiadau hynny sydd o'r arwyddocâd mwyaf i Gymru, oherwydd eu buddion a'u heffeithiau posibl.<br><br>Mae union fanylion y meini prawf sy'n ymwneud â phrosiectau amrywiol ar gael yn Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd). O dan y meini prawf hynny, mae pob prosiect cynhyrchu ynni rhwng 10MW a 350MW yn dod o fewn y trothwyon y broses DNS.<br><br>Cyflwynir ceisiadau i Arolygiaeth Gynllunio Cymru (yr Arolygiaeth) i'w hystyried gan Arolygydd a benodir. Yna, bydd yr Arolygydd a benodir yn ystyried tystiolaeth gan yr ymgeisydd, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), ymgyngoreion statudol eraill a phartïon â buddiant. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru, yn amlinellu ei gasgliadau ac yn gwneud argymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i'r cais ai peidio. Bydd y Gweinidog perthnasol yn penderfynu pa un ai y dylid rhoi caniatâd ai peidio.<br><br>Mae'r Cyngor, drwy ei Raglen Ynys Ynni, wrthi'n ymgysylltu â datblygwyr sydd yn y broses o baratoi ceisiadau ar gyfer sefydlu Ffermydd Solar ar yr Ynys. Yn ôl y diffiniad felly byddai Fferm Wynt sy'n cynhyrchu rhwng 10MW a 350MW yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).<br><br>Caiff unrhyw gais DNS ar gyfer datblygiad sy'n cynhyrchu ynni ei arwain gan y Rhaglen Ynys Ynni sydd yn dod o dan swyddogaethau'r Gwasanaeth Rheoleiddio |

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
| --- |
| a Datblygu Economaidd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn darparu adnoddau arbenigol i ymateb i ofynion y broses mewn da bryd. Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi arwain ymatebion y Cyngor i'r Datblygiad Wylfa Newydd a oedd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yn ddiweddar y mae hefyd wedi arwain ymateb y Cyngor i'r prosiect Morlais a oedd yn gais am Orchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd.<br><br>Ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, caiff Awdurdod Cynllunio Lleol y cynllun arfaethedig ei enwi'n ymgynghorai arbennig yn unol â'r Ddeddf.<br><br>Y cyfnod a roddir i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar gais DNS yw 36 wythnos o ddyddiad derbyn y cais dilys. Mae'r cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau, sy'n para 5 wythnos o ddyddiad dilysu cais DNS, yn gyfle i gyrff cyhoeddus perthnasol gyflwyno cynrychiolaethau ynglŷn â rhinweddau'r cynllun. Os oes angen Gwrandawiad ar yr archwiliad, mae'n rhaid i hwn gael ei gynnal o fewn 10 wythnos o ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau (erbyn wythnos 15). Os oes angen Ymchwiliad, mae'n rhaid i hwn gael ei gynnal o fewn 13 wythnos o ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau (erbyn wythnos 18). Mae'r broses felly'n cynnwys nifer o derfynau amser tynn i'r Cyngor, sydd wedi eu cadarnhau gan yr Arolygiaeth, ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau a thystiolaeth i'r archwiliad fel ymgynghorai arbennig.<br><br>Mae'n ofyniad ffurfiol o'r broses DNS fod rhaid i unrhyw ACLl perthnasol gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) fel tystiolaeth. Adroddiad ysgrifenedig yw'r LIR sy'n manylu ar effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar unrhyw ran o ardal yr ACLl, yn seiliedig ar y wybodaeth leol sydd ganddo eisoes a thystiolaeth gadarn o faterion lleol, a dylai restru'r effeithiau a'u pwysigrwydd perthynol. Bydd yr Arolygiaeth yn rhoi gwybod i'r ACLlau perthnasol pan dderbynnir cais. Pan roddir gwybod iddynt, bydd gan ACLlau 5 wythnos i gyflwyno eu LIR.<br><br>Mae'r diagram yn Atodiad 1 yn cadarnhau camau'r broses DNS.<br><br>Bydd yn rhaid i'r broses ar gyfer rheoli mewnbwn a chyfraniad y Cynghorau i'r broses DNS ac ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau a thystiolaeth oddi mewn i'r amserlenni a gadarnhawyd gan yr Arolygaeth, gynnwys gofyniad i ganiatáu digon o amser ar gyfer cyfieithu dogfennau er mwyn sicrhau bod fersiwn ddwyieithog yn cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth erbyn y dyddiad cau<br><br>Fel y nodir uchod, mae'r broses DNS yn cynnwys nifer o derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwahanol fathau o dystiolaeth i'r broses archwilio yn ogystal â chymryd rhan mewn gwrandawiad neu ymchwiliad (neu gyfuniad o'r ddau). Nid yw'r broses o ran ei natur a'i gofynion yn caniatáu i Bwyllgor ystyried a chymeradwyo'r cynrychiolaethau a gyflwynir gan y Cynghorau i'r Archwiliad. Argymhellir felly, er mwyn sicrhau bod CSYM yn ymwneud â'r broses DNS yn llawn, ei bod hi'n hanfodol cytuno ar ddull ar gyfer cymeradwyo cynrychiolaethau a chyflwyniadau'r Cynghorau i'r archwiliad (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) a Datganiad Tir Cyffredin) drwy awdurdod dirprwyedig. Gan y bydd y Cyngor yn ymateb yn ei rôl fel Awdurdod Cynllunio Lleol cedwir y swyddogaeth hon gan y Cyngor llawn ac ni chaiff ei roi i'r Pwyllgor Gwaith. |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

***Argymhellir felly bod y Cyngor llawn (ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith) yn ei rôl fel Awdurdod Lleol, Awdurdod Cynllunio Lleol ac Awdurdod Priffyrdd Lleol, yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd er mwyn ei alluogi i gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS yn ôl y diffiniad yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau dilynol.***

***Mae hyn yn cynnwys dirprwyo pwerau i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) i ddiweddaru adran 3.5.3.10 yng Nghyfansoddiad CSYM i ganiatáu i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiadau a ystyrir yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn ôl y diffiniad yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015.***

Fel rhan o broses y Rhaglen Ynys Ynni sy'n delio â phrosiectau mawr arwyddocaol eraill, yn cynnwys Wylfa Newydd a Morlais, mae nifer o brosesau effeithiol ar waith eisoes i sicrhau bod Arweinydd y Cyngor, yr Aelodau Etholedig a'r Uwch Dîm Rheoli'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ar gyfraniad a safle'r Cynghorau yn gysylltiedig â'r prosiectau hyn.

Mae'r rhain yn cynnwys Cyfarfodydd Lefel 2 rheolaidd sydd yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a Deiliaid Portffolio'r Gwasanaeth. Hefyd, o ran yr holl brosiectau mawr, mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn gyfarwydd â threfnu Sesiynau Briffio Aelodau sy'n caniatáu i Swyddogion a Datblygwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Aelodau Etholedig perthnasol ac sy'n rhoi cyfle i'r Aelodau holi'r datblygwyr yn uniongyrchol. Yn y gorffennol mae'r broses hon wedi bod yn ddull effeithiol o ymgysylltu'n uniongyrchol yn achos prosiectau mawr eraill. Y bwriad ydi parhau â'r trefniadau hyn o ran prosiectau a ystyrir yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Bydd y Rhaglen Ynys Ynni yn adrodd i'r Aelodau ar y modd y mae wedi defnyddio ei awdurdod dirprwyedig o ran Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a bydd yn adrodd ar y cynnydd a'r canlyniadau yn ôl y galw drwy gydol y broses DNS. Cyflawnir hyn drwy ddiweddariadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cynllunio a/neu drwy Sesiynau Briffio Aelodau yn ôl y galw.

***Gorchmynion Datblygu Arbennig***

Mae Adran 59(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 : 'Gorchmynion datblygu: cyffredinol', yn datgan y canlynol:

(1) Drwy'r gorchymyn hwn (y cyfeirir ato fel "gorchymyn datblygu" yn y Ddeddf hon) yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn rhoi'r caniatâd cynllunio.

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

(2) Fe all y gorchymyn datblygu naill ai —

a) roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu a nodir yn y gorchymyn neu unrhyw ddosbarth datblygu penodol a nodir; neu

b) mewn perthynas â datblygu nad ydi'r gorchymyn yn darparu caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ganiatáu caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol (neu, yn yr achosion y darperir ar eu cyfer dan y darpariaethau canlynol, gan yr Ysgrifennydd Gwladol [neu Weinidogion Cymru]) ar gais i'r awdurdod (neu, yn yr achosion y darperir ar eu cyfer dan y darpariaethau canlynol, ar gais i'r Ysgrifennydd Gwladol [neu Weinidogion Cymru]) yn unol â darpariaethau'r gorchymyn.

(3) Gellir cyflwyno gorchymyn datblygu naill ai—

a) fel gorchymyn cyffredinol sydd yn berthnasol i bob tir, yn unol â darpariaethau'r gorchymyn, neu

b) fel gorchymyn arbennig sydd yn berthnasol i'r cyfryw dir neu ddisgrifiadau o dir sydd wedi eu nodi yn y gorchymyn.

Mae'r ddarpariaeth yn galluogi i Weinidogion Cymru gyflwyno gorchymyn datblygu arbennig. Yn wahanol i Orchymyn Datblygu Cyffredinol sydd fel arfer yn berthnasol i bob tir, mae gorchymyn datblygu arbennig yn caniatáu datblygu dim ond ar y tir a nodir yn y gorchymyn. Yn gyffredinol, defnyddir y pŵer hwn yn anaml iawn ac wrth arfer y pwerau hynny bydd Llywodraeth Cymru yn cwblhau'r asesiadau technegol angenrheidiol i gefnogi'r cais.

Gwneir penderfyniad gweinidogol ar bob cais unigol yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarperir. Os rhoddir caniatâd gan y Gweinidog perthnasol ar gyfer y safle, cyflwynir Gorchymyn Datblygu Arbennig gerbron y Senedd i ganiatáu a galluogi'r datblygiad arfaethedig.

Fel yn achos Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, mae'n bosib y bydd yn rhaid i CSYM gadw at amserlenni statudol tynn wrth ymateb i Orchmynion Datblygu Arbennig yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Cynllunio Lleol (e.e. y safle Rheoli Ffiniau yng Nghaergybi).

***Argymhellir felly bod y Cyngor llawn (ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith), yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd er mwyn ei alluogi i gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig â Gorchmynion Datblygu Arbennig o dan adran 59(3) yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; a'i fod yn dirprwyo ei awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro (mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) ar gyfer dirprwyo'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn adran 3.5.3.10 yng Nghyfansoddiad CSYM.***

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
| --- |
| ***Buddion Cymunedol Gwirfoddol***<br><br>Er mwyn sicrhau bod trigolion Ynys Môn yn gallu manteisio’n llawn ar yr holl fuddiannau sy’n gysylltiedig â’r datblygiadau mawr, mae’r Cyngor wedi datblygiadau Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol gwirfoddol sydd yn gofyn i ddatblygwyr posib ystyried budd cymunedol eu datblygiad mawr ar sail wirfoddol.<br><br>Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 5.9.26) yn cadarnhau bod ‘profiad wedi dangos bod cyfleoedd sylweddol i gyflawni mantais leol drwy ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Gellir cyfiawnhau rhai manteision fel lliniaru effeithiau datblygu drwy’r broses gynllunio. Hefyd, gall datblygwyr gynnig manteision nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â’r broses gynllunio. Lle y bo’n ymarferol, dylai awdurdodau lleol hwyluso ac annog cynigion o’r fath.’<br><br>Ar gyfer cynlluniau ynni mawr eraill, trwy ymgysylltu â’r Cyngor, mae datblygwyr wedi cytuno i sicrhau manteision cymunedol ar sail wirfoddol yn cynnwys darparu cronfa budd cymunedol sydd yn caniatáu i’r cymunedau lleol sydd agosaf at y datblygiad a chymunedau lleol a effeithir fwyaf gan y datblygiad ymgeisio am arian drwy’r gronfa er mwyn rhoi prosiectau ar waith i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i drigolion a’r amgylchedd lleol.<br><br>Mae profiad wedi dangos y dylai’r trafodaethau hyn, yn cynnwys sicrhau bod y datblygwr a’r Cyngor yn cytuno ar fecanwaith cyfreithiol addas i ddiogelu’r budd, ddigwydd yn ystod y broses o archwilio’r cais DNS ac felly mae amser yn hanfodol o ran sicrhau penderfyniadau ffafriol o fewn yr amserlen archwilio ragnodedig.<br><br>***Argymhellir felly bod y Pwyllgor Gwaith hefyd yn dirprwyo ei awdurdod i’r i’r Dirprwy Brif Weithredwr ar gyfer cynnal trafodaethau budd cymunedol anstatudol ar ran y Cyngor a Chymunedau Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys dirprwyo ei bŵer i’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (mewn ymgynghoriad â’r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) ar gyfer diweddaru adran 3.5.3.10 yng Nghyfansoddiad CSYM i adlewyrchu’r ddirprwyaeth hon. Adroddir yn ôl i’r Pwyllgor Gwaith ar gynnydd y trafodaethau budd cymunedol hyn yn ôl y galw.***<br><br>Arferir y dirprwyaethau hyn o dan arolygiaeth strategol barhaus y Prif Weithredwr. Arferir y ddirprwyaeth budd cymunedol gwirfoddol mewn ymgynghoriad â’r Arweinydd a’r Deilydd Portffolio (Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd). Bydd hyn yn galluogi i’r Aelodau gymeradwyo’r polisïau a’r egwyddorion i’w mabwysiadu cyn penderfynu’r derfynol ar y manylion yn unol â’r polisïau ac egwyddorion hynny a chyflwyno dogfennau i’w dirprwyo i’r uwch swyddogion priodol. Bydd y dirprwyaethau arfaethedig yn cadw’r rhaniad rhwng cyfrifoldebau statudol ac anstatudol y Cyngor.<br><br>Mae’r Swyddogion y byddai’r dirprwyaethau arfaethedig yn yr adroddiad yn berthnasol iddynt wedi delio â phrosiectau mawr yn y gorffennol yn cynnwys Wylfa |

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| Newydd a Morlais ac maent wedi bod yn rhan o'r ystyriaethau statudol ac anstatudol.<br><br>Wrth arfer y pwerau dirprwyedig hyn fe ddylai'r Swyddogion, yn enwedig ar yr ochr statudol, ei gwneud hi'n glir wrth gyflwyno eu sylwadau pa gyngor a gwybodaeth y maent wedi ei ystyried a sut y mae wedi cyfrannu at gynrychiolaethau/sefyllfa'r Cynghorau. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder ac yn helpu i sicrhau bod cynrychiolaethau'n gyfreithlon gadarn trwy nodi'r ystyriaethau perthnasol a ystyriwyd.<br><br>Mae hyn yn adlewyrchu'r gofynion arferol ar gyfer gwneud penderfyniadau niferus o dan y pwerau statudol ac nid fydd hyn yn rhoi baich afresymol ar swyddogion.<br><br>Cyn belled bod Swyddogion yn nodi eu rhesymau a heb ystyried y ffactorau amherthnasol yna ni ystyrir bod symud unrhyw swyddog o'r ochr anstatudol i'r ochr statudol neu fel arall yn risg ar hyn o bryd o safbwynt herio penderfyniadau yn ddiweddarach. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ystyrir bod y dirprwyaethau a geisir yn cynrychioli cydbwysedd addas rhwng cynnwys Aelodau yn y broses ceisiadau DNS a chaniatáu i Swyddogion gymeradwyo dogfennau terfynol er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno ymatebion yn unol â'r amserlenni sydd wedi eu gosod gan yr Arolygiaeth Gynllunio.<br><br>Bydd hefyd angen dirprwyo pwerau gan y deilydd swydd a enwir i Swyddogion eraill er mwyn eu galluogi i gynrychioli'r Cyngor yn effeithiol yn ystod y broses, er enghraifft gwrandawiadau llafar.<br><br>Yr opsiwn arall a gafodd ei ystyried oedd peidio â dirprwyo'r cyfrifoldeb a fyddai wedi golygu bod yn rhaid i'r holl benderfyniadau/adroddiadau yn gysylltiedig â cheisiadau DNS gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a/neu'r Cyngor Llawn. Cafodd yr opsiwn hwn ei wrthod gan na fyddai CSYM wedi gallu cymryd rhan yn y broses DNS gan na fyddai'r amserlenni yn caniatáu hynny. |

| C – Pam mae hwn yn gwestiwn i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Dyma benderfyniad uniongyrchol i’r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â’r buddion cymunedol a phenderfyniad anuniongyrchol fel ymgynghorai ar y newidiadau i’r cynllun dirprwyo yng nghyfansoddiad CSYM. Mae’r penderfyniadau hefyd ar gyfer y Cyngor llawn, yn uniongyrchol mewn perthynas â materion yn ymwneud â cheisiadau DNS a SDO a hefyd mewn perthynas â newidiadau i’r cynllun dirprwyo i swyddogion yn y Cyfansoddiad. |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. Mae’r Cyngor eisoes wedi dirprwyo ei awdurdod i ymateb i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) (h.y. Wylfa Newydd). Byddai’r penderfyniad hwn yn caniatáu’r un ddirprwyaeth ond i ddelio gyda cheisiadau DNS yng Nghymru. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi. |

| Dd – Asesu’r effaith posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Bydd y penderfyniad yn caniatáu i’r Cyngor gyfrannu’n llawn tuag at archwilio unrhyw ddatblygiadau a ystyrir yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol mewn da bryd. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol. Os felly, sut:- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio’r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Na |
| 5 | Nodwch effaith posibl y penderfyniad hwn ar y grwpiau sydd wedi eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |

| Dd – Asesu'r effaith posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 6 | Os ydi hwn yn benderfyniad strategol, nodwch effaith posibl y penderfyniad ar bobl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. | Ydi – fe all buddion cymunedol gael effaith bositif ar bobl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| 7 | Nodwch effaith posibl y penderfyniad hwn ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Bydd y penderfyniad yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflwyno ei sylwadau yn ddwyieithog wrth archwilio unrhyw gais DNS. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| 5 | **Eiddo** | - |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | - |
| 7 | **Caffael** | - |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Y Cynghorydd Richard Dew –<br><br>Y Cynghorydd Carwyn Jones - |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Siart llif yn dangos camau'r broses DNS. |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

## Atodiad 1

**Pre-application engagement & consultation**

**Stage 1: Pre-Application**

- Inception Meetings and Pre-Application Advice
- The developer publicises draft proposals, engages the local planning authority, affected communities and statutory undertakers to identify issues and exchange views.

*NB: It is up to the developer to decide how they undertake early 'engagement'.*

- The developer submits notification of intention to submit a DNS
- Acceptance of notification by the Inspectorate (10 working days)

- Statutory pre-application consultation undertaken by the developer

**Application & consultation**

**Stage 2: Application**

- Developer submits application with Consultation Report (validation 42 days for EIA cases and 28 days for all others)
- If the application is valid the Inspectorate publicises and consults on the application
- LPA prepares a Local Impact Report

- *The developer has 10 working days following close of consultation period to decide whether or not to amend the application*

**Examination & decision**

**Stage 3: Examination**

- An Inspector is appointed to 'examine' the application and determines the procedure
- Examination will be written representations, hearing or inquiry, or a combination of all three

- *The appointed Inspector must consider all representations and any matters raised and writes a report to the Welsh Minister recommending whether planning permission should be granted or refused*

**Stage 4: Decision**

- Application is determined by Welsh Ministers and a decision issued

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# *PUBLIC INTEREST TEST*

**Trawsnewid Sianeli Digidol CSYM –Gorffenaf 2021**
**Transforming IOACC Digital Channels – July 2021**

| | |
|---|---|
| Paragraff 14 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 14 of Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – *THE TEST* | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / *There is a public interest in disclosure as*:-<br><br>• *Mae'r adroddiad Pwyllgor amgaeëdig yn rhoi manylion am newid y trefniadaeth sianelau digidol ac yn cynnwys prisau am y pwrcasiad a chostau cysylltiol*<br>• *The enclosed Committee report provides details of a change to the current digital system, including procurement and associated costs.* | Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is*:-<br><br>• *Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â chontract masnachol rhwng y Cyngor a darparwr y gwasanaeth sianeli digidol ac ystyrir bod y wybodaeth hon yn fasnachol sensitive.*<br>• *The report contains information in respect of a commercial contract between the Council and the provider of the digital and this information is considered to be commercially sensitive* |
| **Argymhelliad:** Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br>***Recommendation:*** *The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.* | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank